# **Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru** (WelTAG) 2022
Drafft Ymgynghori

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


**Rhestr o ffigurau** 3

**Gan y Dirprwy Weinidog** 4

**Cefndir** 6

Beth sydd wedi newid ers WelTAG 2017? 6
Strwythur y ddogfen hon 8

**WelTAG ar dudalen** 9

**Termau a thalfyriadau defnyddiol** 10

**Adran 1: cefndir a chyd-destun** 16

Beth yw WelTAG? 17
Pryd y dylid defnyddio WelTAG? 19
TAG a WelTAG 19
WelTAG a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 21
Y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio WelTAG i asesu gwerth am arian 23
Y dull gweithredu cymesur 24
WelTAG a'r pum ffordd o weithio 26
WelTAG ar gyfer opsiynau y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw 27
WelTAG a datgarboneiddio 27
Newid ymddygiad 28

**Adran 2: camau cynllunio WelTAG** 29

Cam 0 yr achos dros newid (asesiad strategol) 31
Cwmpasu rhaglen neu brosiect 32
Cam 1 achos amlinellol strategol 33
Cam 2 Achos busnes amlinellol 35
Cam 3 yr achos busnes 37
Cam 4 cyflawni 38
Cam 5 Monitro a gwerthuso 39
Mynd yn ôl gam 40

**Adran 3: Achos busnes WelTAG** 41

Cyn ichi gwblhau'r achos busnes 43
Cydweddiad strategol 43
Llesiant 45
Fforddiadwyedd 46
Cyflawnadwyedd 47
Rheoli 49

**Adran 4: Arfarniad llesiant integredig** 51

Y fframwaith arfarniadau llesiant integredig 54
Y defnydd o gymarebau cost a budd yng Nghymru 55
Rhagamcanu ar gyfer y dyfodol 56
Amseru 56

**Adran 5: Ymgysylltu â phobl** 58

Cynllun ymgysylltu WelTAG 60
Rolau a chyfrifoldebau WelTAG 61
Y pum ffordd o weithio 63

**Adran 6: WelTAG ar waith** 64

Y disgrifiad o'r cynllun neu ddyluniad y rhaglen neu'r prosiect 65
Adolygiadau porth 67
WelTAG a chynllunio defnydd tir 68
WelTAG ar gyfer dulliau teithio a sectorau penodol 71

**Adran 7: Atodiadau** 76

**Rhestrau gwirio ar gyfer adroddiadau WelTAG** 77

Rhestr wirio Cam 0 yr achos dros newid (pob rhaglen neu brosiect) 78
Rhestr wirio WelTAG byr 79
Rhestrau gwirio adroddiadau WelTAG safonol Camau 1-3 81
Rhestr wirio Cam 4 Cyflawni a goruchwylio'r rhaglen neu'r prosiect 85
Rhestr wirio Cam 5 Monitro a gwerthuso 86

**Deddfwriaeth a pholisïau perthnasol yng Nghymru** 87

**Deunydd darllen pellach** 89

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1: Targedau trafnidiaeth o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net 5
Ffigur 2: WelTAG ar dudalen 9
Ffigur 3: Sut y gall polisïau a rhaglenni arwain at ganlyniadau trafnidiaeth 15
Ffigur 4: Tair elfen WelTAG – cynllunio, achos busnes ac arfarniad llesiant integredig 18
Ffigur 5: Cymharu'r achos busnes llawn yn TAG â'r un yn WelTAG 20
Ffigur 6: Y weledigaeth, y blaenoriaethau a'r uchelgeisiau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 22
Ffigur 7: WelTAG byr, WelTAG safonol a WelTAG manwl 25
Ffigur 8: Arfarniad llesiant yn WelTAG 53
Ffigur 9: Crynodeb o'r fframwaith arfarniadau llesiant integredig 55
Ffigur 10: Sut y dylid asesu llesiant ar bob cam o WelTAG 57
Ffigur 11: WelTAG a chynlluniau gwaith eraill 66
Ffigur 12: Aliniad rhwng WelTAG a chynllun gwaith Trafnidiaeth Cymru, PACE a GRIP 74

# Gan y Dirprwy Weinidog

**Croeso i ganllawiau drafft newydd WelTAG. WelTAG yw ein canllawiau ar gynllunio ac arfarnu ymyriadau trafnidiaeth, gan gynnwys rhaglenni strategol a pholisïau yn ogystal â phrosiectau unigol.**

Mae'r fersiwn ddrafft newydd o WelTAG 2022 yn rhan o ddull gweithredu newydd o ymdrin â thrafnidiaeth yng Nghymru sy'n dechrau â Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru ac yn llifo drwy bopeth a wnawn.

Mae angen dull gweithredu newydd arnom gan nad oes llawer o amser ar ôl inni newid y ffordd rydym yn meddwl ac yn ymddwyn. Os na fyddwn yn gwneud pethau yn wahanol nawr, ni allwn fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Trafnidiaeth yw un o ffynonellau mwyaf allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru ac mae mynd i'r afael â thrafnidiaeth yn un o'r materion allweddol ar gyfer Cymru Sero Net, sef ein cynllun datgarboneiddio.

Dyma pam y gwnaeth Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru yn 2021 bennu polisïau newydd ar gyfer trafnidiaeth wedi'u hategu gan dargedau heriol ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cynyddu canran y teithiau a wneir gan ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy. Mae Cymru Sero Net yn gosod targedau mwy heriol byth, gyda'r nod o gynyddu canran y teithiau a wneir gan ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy o 19% yn 2019 i 45% erbyn 2040.

Rhaid inni weithredu nawr er mwyn inni gyflawni'r nodau hyn. Nid darparu ffyrdd yw'r ateb diofyn i bob problem sy'n ymwneud â thrafnidiaeth mwyach. Nid wyf yn fodlon gwario arian yn y dyfodol ar gynlluniau ffyrdd traddodiadol sy'n cynyddu capasiti'r rhwydwaith ffyrdd neu'n annog pobl i yrru'n gyflymach. Mae'r cynlluniau traddodiadol hynny yn tanseilio ein hymdrechion i gynyddu cyfran y teithiau a wneir gan ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy ac yn golygu bod gennym lai o arian i'w fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Ac ni allwn ddibynnu ar dechnoleg newydd chwaith. Ni fydd cerbydau trydan ar eu pen eu hunain yn cyflawni'r newid sydd ei angen arnom. Yn lle hynny, mae angen inni fuddsoddi mewn darpariaeth teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae angen inni sicrhau bod mwy o bobl yn defnyddio opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy a bod llai o bobl yn defnyddio eu ceir. Mae angen inni symud nwyddau mewn ffordd fwy cynaliadwy. Ac mae angen inni neilltuo'r adnoddau i gynnal a chadw ein seilwaith presennol a'i uwchraddio er mwyn ymdrin ag effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Bydd canllawiau drafft newydd WelTAG 2022 yn helpu i gyflawni'r nodau hyn drwy newid y ffordd rydym yn cynllunio ac yn ariannu rhaglenni a phrosiectau trafnidiaeth. Mae'n golygu newid o gyfrifo manteision yn unig i sicrhau manteision.

Mae'n cyd-fynd yn agos â'n huchelgeisiau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Yn lle cyfrifo costau a manteision mewn termau ariannol, mae'n sicrhau bod llesiant a datgarboneiddio yn cael eu cynnwys yng nghynllun y prosiect o'r cychwyn cyntaf, gan ddefnyddio ein fframwaith arfarniadau llesiant integredig newydd. Mae hefyd yn cyflwyno meini prawf newydd ar gyfer ariannu prosiectau trafnidiaeth yng Nghymru sy'n fan cychwn ar gyfer asesu gwerth am arian o'n buddsoddiad mewn trafnidiaeth.

**Lee Waters**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd.

**Ffigur 1:** Targedau trafnidiaeth o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net

## Targedau ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy yng Nghymru

| **Targedau ar gyfer Trafnidiaeth** | **Llinell sylfaen 2019** | **2025** | **2030** | **2040** |
|---|---|---|---|---|
| **Targed ar gyfer newid dulliau teithio (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru)** | **32%** | | | **45%** o deithiau yn cael eu gwneud drwy gerdded neu feicio neu gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus |
| **Targedau wedi'u diweddaru ar gyfer newid dulliau teithio (Cymru Sero Net)** | **32%** o deithiau yn cael eu gwneud drwy gerdded neu feicio neu gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus | **35%** o deithiau yn cael eu gwneud gan ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy | **39%** o deithiau yn cael eu gwneud drwy gerdded neu feicio neu gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus | **48%** o deithiau yn cael eu gwneud drwy gerdded neu feicio neu gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus |
| | **27%** teithio llesol a **5%** trafnidiaeth gyhoeddus | | **33%** teithio llesol a **7%** trafnidiaeth gyhoeddus | **35%** teithio llesol a **13%** trafnidiaeth gyhoeddus |
| **Allyriadau trafnidiaeth teithwyr (Cymru Sero Net)** | **3.8 MtCO2e** | Lleihau allyriadau trafnidiaeth teithwyr **22%** yn **2025** o lefelau 2019 | | |
| **Lleihau nifer y milltiroedd car (Cymru Sero Net)** | **10,186** km cerbyd y pen | | Lleihau nifer y milltiroedd car a deithir y pen **10%** erbyn **2030** o lefelau 2019 | |
| **Effeithlonrwydd cludo nwyddau (Cymru Sero Net)** | **2.1 MtCO2e** | Gwella effeithlonrwydd cludo nwyddau ar ffyrdd, rheilffyrdd a llongau **4%** o lefelau 2019 | | |
| **Fflyd Bysiau** | Heb ei nodi | Fflyd TrawsCymru i fod yn un dim allyriadau erbyn **2026** | Y 50% gwaethaf i fod yn rhai dim allyriadau erbyn **2028** | Dim allyriadau erbyn **2035** |
| **Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat** | Heb ei nodi | | Dim allyriadau erbyn **2028** | |

# Cyflwyniad

**Mae canllawiau WelTAG yn esbonio sut i gynllunio ac arfarnu rhaglenni a phrosiectau trafnidiaeth yng Nghymru. Mae WelTAG yn seiliedig ar Lyfr Gwyrdd Trysorlys EM a Chanllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth yr Adran Drafnidiaeth.**

Yn debyg iddyn nhw, mae i WelTAG dair elfen allweddol, sef:

1. **Dull fesul cam o gynllunio prosiectau (gweler adran 2).**
2. **Canllawiau ar baratoi achos busnes dros fuddsoddi (gweler adran 3).**
3. **Dull strwythuredig o arfarnu llesiant (neu gynnal arfarniad economaidd), gan ddefnyddio mesurau ansoddol a meintiol (gweler adran 4).**

Dylid defnyddio WelTAG ar lefel strategol i asesu ymyriadau rhanbarthol ac ymyriadau trafnidiaeth mwy, neu grwpiau o ymyriadau teithio cynaliadwy, yn ogystal ag ar lefel prosiect unigol.

Rhaid ichi ddefnyddio WelTAG 2020 os hoffech gael cyllid ar gyfer prosiect trafnidiaeth gan Lywodraeth Cymru.

Dylid defnyddio WelTAG ar lefel strategol i asesu ymyriadau rhanbarthol ac ymyriadau trafnidiaeth mwy, neu grwpiau o ymyriadau teithio cynaliadwy, yn ogystal ag ar lefel prosiect unigol.

## Beth sydd wedi newid ers WelTAG 2017?

Cyhoeddwyd y canllawiau penodol cyntaf ar arfarnu trafnidiaeth yng Nghymru yn 2008 ac fe’u diweddarwyd yn 2017. Mae WelTAG 2022 yn defnyddio’r un dull gweithredu sylfaenol â WelTAG 2017 ond mae wedi’i ddiweddaru.

Mae’r newid pwysicaf yn cysoni WelTAG 2022 â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2021. Yn y dyfodol, dim ond rhaglenni a phrosiectau sy’n helpu i gyflawni’r weledigaeth, yr uchelgeisiau, y blaenoriaethau a’r targedau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Cymru Sero Net a gaiff eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae cysoni WelTAG â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn gofyn am ffordd newydd o feddwl am gynllunio ac arfarnu trafnidiaeth yng Nghymru. Mae dull arfarnu newydd sy’n seiliedig ar lesiant yn allweddol i hyn. Mae’n sicrhau bod pobl a newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried ar ddechrau’r broses cynllunio trafnidiaeth nid ar y diwedd. Mae hefyd yn cydnabod nad yw cynllunio trafnidiaeth yn wyddor fanwl gywir. Mae a wnelo â dylunio rhaglenni a phrosiectau da sy’n diwallu anghenion pobl yng Nghymru, nid dim ond cyfrifo costau a manteision.

Adlewyrchir y dull gweithredu newydd hwn mewn tri newid pwysig yn WelTAG 2022, sef:

1. Newid i gamau **cynllunio rhaglenni a phrosiectau** drwy ychwanegu cam newydd, sef cam 0 yr achos dros newid. Mae'n nodi amcanion y rhaglen neu'r prosiect ac ni ddylai ymwneud yn benodol ag unrhyw ddull teithio. Dylai gael ei ddatblygu gan y tîm mewnol yn hytrach nag ymgynghorwyr.
2. Newid i'r **achos busnes**, lle mae'r dimensiwn (neu achos) economaidd wedi'i ailenwi'n ddimensiwn llesiant. Mae hyn yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn agosach â deddfwriaeth ynglŷn â llesiant yng Nghymru a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
3. Dull arfarnu newydd a elwir yn arfarniad llesiant integredig (gweler adran 4). Mae'n disodli adroddiad asesu effeithiau 2017. Mae arfarniad llesiant integredig yn defnyddio'r uchelgeisiau a'r targedau ar gyfer llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ynghyd â chanlyniadau asesiadau o effeithiau er mwyn deall sut mae'r rhaglen neu'r prosiect yn cyfrannu at lesiant. Y nod yw cynnwys llesiant yng nghynllun y rhaglen neu'r prosiect o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na'i ychwanegu ar y diwedd.

Mae newidiadau eraill yn cynnwys dull gweithredu cymesur newydd â thair lefel o fanylder, sef WelTAG byr ar gyfer prosiectau llai o faint, WelTAG safonol a WelTAG manwl ar gyfer rhaglenni a phrosiectau mwy o faint, mwy cymhleth sydd hefyd yn cynnwys partneriaeth â Llywodraeth y DU (gweler tudalen 20).

Rhaid i bob rhaglen neu brosiect ddarparu arfarniad llesiant integredig sy'n defnyddio mesurau ansoddol a meintiol. Dim ond rhaglenni a phrosiectau sy'n defnyddio WelTAG Manwl neu y mae angen cyllid gan Lywodraeth y DU arnynt a fydd yn gorfod darparu cymarebau cost a budd (gweler 40).

Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno meini prawf gwerth am arian ar gyfer cyllido prosiectau trafnidiaeth sy'n cyd-fynd â phum dimensiwn achos busnes da ac egwyddorion polisi Llywodraeth Cymru. Y meini prawf hyn yw cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheoli. Yn y dyfodol, asesir pob rhaglen a phrosiect trafnidiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn erbyn y meini prawf gwerth am arian ar gyfer cyllido prosiectau trafnidiaeth (gweler tudalen 19).

Caiff WelTAG 2022 ei ategu gan amrywiaeth o ganllawiau technegol, gan gynnwys tablau arfarnu a chanllawiau manylach eraill.

## Strwythur y ddogfen hon

Mae **Adran 1** yn rhoi cefndir WelTAG. Mae'n esbonio pam mae gan Gymru ddull gwahanol o arfarnu trafnidiaeth ac yn rhoi WelTAG yng nghyd-destun Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac uchelgeisiau a blaenoriaethau strategol eraill yng Nghymru. Mae'n esbonio sut i fabwysiadu dull gweithredu cymesur ac yn nodi'r pum maen prawf gwerth am arian.

Mae **Adran 2** yn rhoi canllawiau ar gamau cynllunio WelTAG. Mae'r dull dilyniannol hwn o weithredu yn dechrau â'r achos dros newid ac yn symud drwy arfarnu opsiynau, yr achos busnes, cyflawni ac, yn olaf, fonitro a gwerthuso.

Mae **Adran 3** yn rhoi canllawiau ar baratoi achos busnes llawn gan ddefnyddio pum dimensiwn achos busnes llawn, sef cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheoli.

Mae **Adran 4** yn rhoi canllawiau ar gynnal arfarniad llesiant integredig. Mae hwn yn ddull strwythuredig o asesu cyfraniad y rhaglen neu'r prosiect at lesiant, gan ddefnyddio mesurau ansoddol a meintiol yn y fframwaith arfarniadau llesiant integredig.

Mae **Adran 5** yn rhoi canllawiau ar ymgysylltu â phobl yn ystod arfarniad WelTAG a chanllawiau ar rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys rôl y grŵp adolygu prosiect, rhaglen neu bolisi.

Mae **Adran 6** yn ymdrin â materion cyffredin sy'n codi wrth weithio gyda WelTAG, gan gynnwys dylunio, y cysylltiad â chynllunio defnydd tir a materion sy'n ymwneud yn benodol â dulliau teithio unigol.

Mae **Atodiad 1** yn cynnwys rhestr o'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau mwyaf perthnasol yng Nghymru. Mae **Atodiad 2** yn nodi rhestrau gwirio ansawdd ar gyfer gwahanol adroddiadau WelTAG. Mae rhestr o ddeunydd darllen pellach hefyd.

**Ffigur 2:** WelTAG ar dudalen

*Ymgysylltu â phobl ac ystyried llesiant ar bob Cam*

**Y Pum Ffordd o Weithio**

## Cyn ichi ddechrau

**Cam 0 Cyflwyno'r achos dros newid**

Gwnewch hyn yn fewnol. Cysylltwch amcanion CAMPUS â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Pennwch gwmpas y rhaglen neu'r prosiect**

Ewch ati i ddod o hyd i wybodaeth sydd eisoes ar gael a'i hadolygu, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o raglenni neu brosiectau blaenorol.
Ysgrifennwch gynllun ymgysylltu
Penderfynwch pa fath o WelTAG sydd ei angen arnoch (byr, safonol neu fanwl)
Sefydlwch grŵp adolygu a phrosesau cymeradwyo porth os bydd angen

**Sicrhewch gytundeb**

Sicrhewch gytundeb cychwynnol rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu'r gwaith.
Efallai y bydd angen i brosiectau gwerth mwy na £5m a phrosiectau dadleuol gael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru cyn iddynt fynd yn eu blaen a chytundeb rhwng camau perthnasol.

## Datblygwch y prosiect, y polisi neu'r rhaglen

**Cam 1 achos amlinellol strategol – lluniwch restr hir o opsiynau**

Defnyddiwch ein rhestr o opsiynau i gynnwys newid ymddygiad a mesurau nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth
Defnyddiwch ddata ar lesiant ac anghenion defnyddwyr
Dewiswch opsiynau sy'n cydweddu'n strategol â pholisi Llywodraeth Cymru ac yn sicrhau manteision llesiant amlwg.

**Cam 2 Achos busnes amlinellol – cwtogwch ar nifer yr opsiynau**

Defnyddiwch y pum maen prawf i leihau'r rhestr o opsiynau i'r rhai sydd nid yn unig yn cydweddu'n strategol â pholisi Llywodraeth Cymru ond sydd hefyd yn sicrhau manteision llesiant, sy'n fforddiadwy, yn gyflawnadwy ac y gellir eu rheoli.

**Dyluniwch y pecyn terfynol o waith**

Cwblhewch ddyluniad y rhaglen neu'r prosiect yn ddigon manwl er mwyn cwblhau'r achos busnes, gan gynnwys manylion y dyluniad, y costau a'r ffordd y rheolir y rhaglen neu'r prosiect.

**Cam 3 Cwblhewch yr achos busnes llawn**

Lluniwch achos busnes llawn dros yr opsiwn terfynol gan ddefnyddio pum dimensiwn achos busnes, sef cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheoli.
Dylech gynnwys asesiad seiliedig ar dystiolaeth o gostau

**Cwblhewch yr arfarniad llesiant integredig a'r asesiadau effaith statudol**

Dylech ategu'r rhain â data trafnidiaeth a llesiant perthnasol ac adborth gan randdeiliaid

## Cyflawnwch y prosiect neu'r rhaglen

Sicrhewch ganiatadau cynllunio, gorchmynion a chyllid
Datblygwch fanylebau manwl a chontractau
Ewch ati i gaffael y gwaith neu'r gwasanaethau
Goruchwyliwch a rheolwch y gwaith o gyflawni'r prosiect neu'r rhaglen yn y byrdymor a'r hirdymor, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw

## Monitrwch neu werthuswch y prosiect neu'r rhaglen

Darparwch adroddiad cynnydd blynyddol
Dysgwch o'r prosiect a defnyddiwch y canlyniadau i lywio prosiectau neu raglenni yn y dyfodol

# Termau a thalfyriadau defnyddiol

Rhoddir manylion pellach am y ddeddfwriaeth a'r polisïau perthnasol yn Atodiad 1.

**Amcan** – datganiad mesuradwy lefel uchel byr sy'n esbonio pa wahaniaeth y bydd rhaglen neu brosiect yn ei wneud.

**Arfarniad llesiant integredig** – y broses o asesu effaith cynigion newydd ar lesiant, gan gynnwys cymdeithas, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant. Mae'n golygu deall manteision a risgiau ac ystyried a ellir cymryd camau i osgoi neu liniaru unrhyw niwed. Gall yr asesiad o effeithiau helpu i lywio'r broses arfarnu.

**Arfarniad trafnidiaeth** – y broses o arfarnu opsiynau ar gyfer rhaglenni neu brosiectau trafnidiaeth. Mae'n cwmpasu pob un o'r camau yn y broses o gyflwyno'r achos dros newid drwy ddatblygu opsiynau, cyflawni, a monitro a gwerthuso. Fe'i gelwir weithiau yn ddadansoddi trafnidiaeth.

**Arfarnu** – y broses o asesu'r costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â ffyrdd amgen o gyflawni amcanion y Llywodraeth. Mae'n helpu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall yr effeithiau posibl, y cyfaddawdu a'r effaith gyffredinol sy'n gysylltiedig ag opsiynau drwy ddarparu sail dystiolaeth oddrychol ar gyfer gwneud penderfyniadau.

**Arfarnu opsiynau** – y broses o nodi rhestr hir o opsiynau er mwyn cyflawni amcanion penodol ac yna ddefnyddio proses arfarnu i leihau'r rhestr honno i restr fer ac, yn olaf, opsiwn a ffefrir. Gall y broses hon gynnwys cyfuno opsiynau.

**Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)** – fframwaith ar gyfer asesu effaith a manteision ymyriadau trafnidiaeth arfaethedig a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cyd-fynd â pholisi a blaenoriaethau deddfwriaeth Cymru.

**Arweiniad ar Ddadansoddi Trafnidiaeth (TAG)** – ccanllawiau i ymarferwyr trafnidiaeth a ddarperir gan Lywodraeth y DU ar brosiectau trafnidiaeth sy'n cynnwys canllawiau ar arfarnu trafnidiaeth.

**Arweiniad ar ddadansoddi trafnidiaeth yr Alban (Scot-TAG)** – canllawiau i ymarferwyr trafnidiaeth sy'n gweithio ar brosiectau trafnidiaeth yn yr Alban. Mae'n cynnwys canllawiau ar arfarnu trafnidiaeth.

**Asesiad effaith statudol (neu reoleiddiol)** – mae gofynion deddfwriaethol ar gyfer asesiadau effaith hefyd, gan gynnwys asesiadau o'r effaith amgylcheddol, asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth, asesiadau rheoliadau cynefinoedd, asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Bydd p'un a oes angen y rhain yn dibynnu ar natur benodol y rhaglen neu'r prosiect.

**Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol** – y broses o asesu effaith prosiect ar yr amgylchedd a dod o hyd i ffyrdd o sicrhau'r manteision mwyaf posibl ac osgoi neu liniaru unrhyw effeithiau niweidiol.

**Asesiad o'r effaith ar dreftadaeth** – y broses o asesu effaith rhaglen neu brosiect ar asedau'r amgylchedd hanesyddol a dod o hyd i ffyrdd i sicrhau'r manteision mwyaf posibl ac osgoi neu liniaru unrhyw niwed.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** – y broses o asesu effaith rhaglen neu brosiect ar grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a dod o hyd i ffyrdd o sicrhau'r manteision mwyaf posibl ac osgoi neu liniaru unrhyw effeithiau niweidiol.

**Canlyniadau ac allbynnau** – canlyniad trafnidiaeth yw canlyniad neu effaith gwneud rhywbeth, megis mwy o bobl yn cerdded ac yn beicio. Allbwn trafnidiaeth yw rhywbeth y mae rhaglen neu brosiect yn ei gyflawni, megis llwybr beicio wedi'i uwchraddio.

**Cyflymu prosiect mewn amgylchedd a reolir (PACE)** – mae'n disgrifio sut mae Network Rail yn rheoli prosiectau buddsoddi ar y rhwydwaith rheilffyrdd ac fe'i datblygwyd er mwyn lleihau a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflawni prosiect.

**Cymhareb cost a budd** – y broses o ddefnyddio model llif arian parod wedi'i ddisgowntio i asesu costau cyfalaf a chostau gweithredu a manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol rhaglen neu brosiect. Ymdrinnir â rhai effeithiau yn ddigonol gan waith dadansoddi cost a budd ond nid yw hynny'n wir am effeithiau eraill. Mae'n bwysig bod y gwerthoedd mewn cymarebau cost a budd yn cyd-fynd â'n gwerthoedd yng Nghymru. Felly, pan fo'n ofynnol i brosiectau ddarparu cymarebau cost a budd, mae'n rhaid iddynt ddarparu dwy gymhareb cost a budd - un sy'n cynnwys amseroedd teithio byrrach fel mantais ac un sy'n hepgor manteision amser teithio byrrach.

**Cymru Sero Net** – yr ail gynllun lleihau allyriadau ar gyfer Cyllideb Garbon 2 (2021-2025) sy'n gosod y sylfeini i wneud Cymru'n sero net erbyn 2050 (gweler Atodiad 1).

**Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (CCCT)** – mae'n nodi blaenoriaethau buddsoddi Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol** – maent yn nodi'r polisïau ar gyfer cyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Cynllunio** – Mae cynllunio trafnidiaeth yn cwmpasu'r holl weithgareddau sydd eu hangen i ddatblygu rhaglen neu brosiect trafnidiaeth, gan gynnwys cynlluniau trafnidiaeth a'r gwaith sydd angen ei wneud i gynllunio prosiectau penodol. Mae cynllunio defnydd tir yn cyfeirio at y gweithgareddau sydd eu hangen er mwyn cynllunio ar gyfer y ffordd y defnyddir tir, drwy'r broses cynllunio a rheoli datblygu. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau lleol a chaniatâd statudol. Mae angen i brosesau cynllunio trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir gydweithio.

**Damcaniaeth newid** – disgrifiad o sut a pham y disgwylir i newid penodol ddigwydd. Wrth gynnal arfarniad trafnidiaeth, gallwch ei ddefnyddio fel rhan o'r achos cychwynnol dros newid.

**Dangosyddion llesiant cenedlaethol** – y 46 o ddangosyddion sy'n dangos cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi adroddiad ar y rhain bob blwyddyn.

**Datgarboneiddio** – y camau sydd angen eu cymryd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a symud tuag at economi carbon isel. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – deddfwriaeth y bwriedir iddi wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n nodi gweledigaeth genedlaethol gyffredin ar gyfer llesiant sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff a restrir yn y Ddeddf gyflawni gwaith datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.

**Dulliau teithio cynaliadwy** – y mathau o drafnidiaeth sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio, gan gynnwys cerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau dim allyriadau neu isel eu hallyriadau.

**Egwyddor datblygu cynaliadwy** – o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

**Fframwaith arfarniadau llesiant integredig** – set o fesurau ansoddol a meintiol ar gyfer asesu effaith rhaglen neu brosiect ar lesiant yng Nghymru. Mae'r mesurau yn seiliedig ar yr uchelgeisiau a'r targedau ar gyfer llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Chymru Sero Net, yn ogystal â mesurau o asesiadau effaith statudol.

**Gwerthuso** – asesu dyluniad ymyriad, y ffordd y caiff ei roi ar waith a'i ganlyniadau yn systematig, er mwyn deall ei effeithiau a'r hyn y gellir ei wella. Mae'n gyfle i edrych yn ôl ar ba wahaniaeth a wnaeth y rhaglen neu'r prosiect a pha wersi y gellid eu dysgu ar gyfer y dyfodol a, gobeithio, roi cyngor 'rhwng cymheiriaid' i eraill. Mae gwybodaeth o adroddiadau gwerthuso hefyd yn ein helpu i fireinio ein prosesau grantiau ar gyfer y dyfodol.

**Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy** – mae'n llywio penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn trafnidiaeth. Mae'n rhoi blaenoriaeth i gynnal a rheoli seilwaith presennol a sicrhau ei fod yn addas at y dyfodol. Lle mae angen seilwaith newydd, mae'n rhoi blaenoriaeth i feicio a cherdded a thrafnidiaeth gyhoeddus yn gyntaf, yna i gerbydau allyriadau isel iawn ac, yn olaf, gerbydau preifat. Fe'i nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) (gweler Atodiad 1).

**Hygyrch** – gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth sy'n cyd-fynd â'r polisi perthnasol ac yn cydymffurfio â'r safonau rheoleiddiol ar gyfer cydraddoldeb, mynediad, hawliau dynol a'r Gymraeg, gan gydnabod model cymdeithasol anabledd.

**Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd (DMRB)** – mae'n cynnwys gwybodaeth am y safonau presennol sy'n ymwneud â dylunio, asesu a gweithredu traffyrdd a chefnffyrdd pob diben yn y Deyrnas Unedig. Wrth weithredu safonau'r Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd yng Nghymru, mae hefyd yn bwysig adlewyrchu blaenoriaethau polisi Cymreig.

**Llwybr Newydd** – Dyma deitl Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Dylai lywio pob agwedd ar WelTAG o'r achos dros newid drwy arfarnu opsiynau, yr achos busnes, cyflawni'r rhaglen neu'r prosiect ac unrhyw waith monitro neu werthuso terfynol.

**Llyfr Gwyrdd** – canllawiau Trysorlys EM ar sut i arfarnu deddfwriaeth, rheoliadau, polisïau, rhaglenni a phrosiectau. Mae'n darparu adnoddau er mwyn helpu i wneud penderfyniadau a rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

**Llywodraethu ar gyfer prosiectau buddsoddi mewn rheilffyrdd (GRIP)** – Mae Network Rail wedi datblygu GRIP er mwyn rheoli prosiectau buddsoddi sy'n gwella neu'n adnewyddu'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol (yn hytrach na phrosiectau sy'n ymwneud â gwaith cynnal a chadw arferol ar reilffyrdd). Fe'i datblygwyd er mwyn lleihau a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiectau o'r fath. Mae GRIP yn rhannu prosiect yn wyth cam unigol. Mae'r dull gweithredu cyffredinol yn seiliedig ar gynhyrchion, yn hytrach na phroses, ac, ym mhob cam, cyflawnir set o gynhyrchion y cytunwyd arni. Mae bellach wedi'i ddiweddaru gan PACE (gweler isod).

**Map Rhwydwaith Teithio Llesol** – er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, mae'n rhaid i awdurdodau lleol lunio mapiau o'r llwybrau teithio llesol a'r cyfleusterau cysylltiedig sydd eisoes yn bodoli yn eu hardal, ac o'r llwybrau teithio llesol a'r cyfleusterau sydd angen eu gwella a'r llwybrau teithio llesol a'r cyfleusterau newydd y bydd eu hangen yn y dyfodol er mwyn creu rhwydweithiau integredig ar gyfer teithio llesol. Rhaid i'r mapiau hyn gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ac mae dyletswyddau i wneud gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn. Os bydd llwybr wedi'i nodi eisoes ar Fap o'r Rhwydwaith Teithio Llesol, efallai na fydd angen arfarnu nifer mawr o opsiynau.

**Meini prawf gwerth am arian** – mae gwerth am arian yn cynnwys asesiad o'r graddau y mae prosiect – gan gynnwys ei fanteision a'i effeithiau cyhoeddus ehangach – yn cynnig elw da o fuddsoddiad cyhoeddus. Yng Nghymru, dangosir gwerth am arian drwy fodloni'r pum maen prawf gwerth am arian ar gyfer prosiectau trafnidiaeth, sef cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheoli.

**Modelu'r galw** – gwaith modelu trafnidiaeth a ddefnyddir i ragamcanu patrymau teithio a'r galw am deithio.

**Monitro** – y broses o gasglu data er mwyn asesu a yw'r rhaglen neu'r prosiect yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd. Mae'n wahanol i werthuso sy'n edrych ar ba wahaniaeth y mae'r rhaglen neu'r prosiect wedi'i wneud.

**Newid ymddygiad** – trydedd flaenoriaeth Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw annog pobl i newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy. Er mwyn mynd ati i newid ymddygiad, mae angen deall pam mae pobl yn ymddwyn fel y maent, nodi rhwystrau a chymhellion i newid ac atebion neu ymyriadau er mwyn ysgogi newid.

**Nodau llesiant cenedlaethol** – mae'r saith nod llesiant cenedlaethol wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y nodau yw: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Fe'u hadlewyrchir yn y pedwar uchelgais llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Prosiect** – yn y ddogfen hon mae'r term 'prosiect' yn cyfeirio at brosiectau, pecynnau o waith, rhaglenni a pholisïau. Mae achos busnes, camau cynllunio prosiect ac asesiad llesiant integredig WelTAG yn berthnasol i bolisïau a rhaglenni yn ogystal â phrosiectau unigol.

**Pum ffordd o weithio** – mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt a dangos sut maent wedi dilyn egwyddor datblygu cynaliadwy. Y pum ffordd o weithio yw hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.

**Rhaglenni neu brosiectau trafnidiaeth** – mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau newydd y bwriedir iddynt fynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth a helpu i gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Maent yn cynnwys prosiectau unigol neu becynnau o waith, yn ogystal â rhaglenni a pholisïau mwy strategol. Gallant gynnwys unrhyw ddull teithio a materion cynllunio, gwasanaethau, seilwaith, mesurau newid ymddygiad neu fesurau eraill nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth y bwriedir iddynt fynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth.

**Rheolwr prosiect** –bwriedir i WelTAG 2022 fod yn ganllaw i unrhyw un sy'n chwarae rôl arweiniol yn y gwaith o ddatblygu rhaglen neu brosiect trafnidiaeth, pecyn o waith, polisi neu raglen a chyflwyno'r achos drosto (drosti) i sefydliad cyllido.

**Seilwaith** – mae seilwaith trafnidiaeth yn cynnwys yr holl bethau sy'n galluogi gwasanaethau a gweithgareddau trafnidiaeth i weithredu, gan gynnwys strydoedd a ffyrdd, rheilffyrdd a rhwydweithiau teithio llesol fel llwybrau beicio a llwybrau troed. Mae hefyd yn cynnwys strwythurau cysylltiedig megis gorsafoedd, pontydd, argloddiau, meysydd parcio, arwyddion, signalau, safleoedd bysiau a chyfnewidfeydd trafnidiaeth yn ogystal â'r ystad feddal, sef tir a mannau gwyrdd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth. Mae porthladdoedd, meysydd awyr a chyfleusterau cludo llwythi a logisteg hefyd yn bwysig.

**Trafnidiaeth** – mae'n cyfeirio yma at yr holl ddulliau teithio gwahanol, gan gynnwys cerdded a beicio, bysiau, rheilffyrdd, ffyrdd, tacsis a cherbydau gwasanaeth cyhoeddus, cludo nwyddau a logisteg, trafnidiaeth forol a hedfanaeth.

**Uchelgeisiau llesiant** – pedwar uchelgais llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw bod yn dda i bobl a lleoedd, bod yn dda i'r amgylchedd, bod yn dda i leoedd a'r economi a bod yn dda i ddiwylliant a'r Gymraeg. Maent yn adlewyrchu'r nodau llesiant cenedlaethol.

**Ffigur 3:** Yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy



# Adran 1
## cefndir a chyd-destun

Mae'r adran hon yn rhoi cefndir cyffredinol WelTAG, gan gynnwys diben WelTAG, cysylltiadau â UK TAG a'r gydberthynas â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

# Adran 1: cefndir a chyd-destun

## Beth yw WelTAG?

**WelTAG yw canllawiau Llywodraeth Cymru ar gynllunio ac arfarnu trafnidiaeth. Rhaid iddo gael ei ddefnyddio gan unrhyw raglen neu brosiect trafnidiaeth sy'n ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru.**

Mae gwaith cynllunio ac arfarnu trafnidiaeth yn cynnwys dod o hyd i atebion i broblemau trafnidiaeth. Cynllunio trafnidiaeth yw'r broses o ddatblygu atebion ac mae a wnelo arfarnu trafnidiaeth â sicrhau bod yr atebion hyn yn cynnig gwerth am arian.

Mae WelTAG yn nodi dull strwythuredig o **gynllunio** rhaglenni a phrosiectau sy'n dechrau drwy ystyried yr achos dros newid ac yn symud drwy gyfres o gamau rhesymegol wrth ddatblygu, cyflawni ac yn olaf adolygu rhaglen neu brosiect. Mae'r camau hynny yn cynnwys nodi amcanion, lleihau nifer yr opsiynau ac yna ddatblygu achos busnes dros yr amcan a ddewisir. Mae hefyd yn cynnwys monitro a gwerthuso eich rhaglen neu brosiect wedyn.

Mae WelTAG hefyd yn esbonio sut i fynd ati i **arfarnu trafnidiaeth** yng Nghymru drwy baratoi achos busnes sy'n esbonio sut y bydd rhaglen neu brosiect yn sicrhau gwerth am arian drwy ymdrin â dimensiynau achos busnes yng Nghymru, sef cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheoli.

Rhaid i'r achos busnes hwnnw gynnwys gwybodaeth o drydedd elfen allweddol WelTAG – arfarniad llesiant integredig.


Rhaid i'r holl raglenni a phrosiectau trafnidiaeth yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru ddangos eu heffaith ar lesiant. Rhaid i'r achos busnes gael ei lywio gan arfarniad llesiant integredig manylach. Mae arfarniad llesiant integredig yn ddull strwythuredig sy'n dangos effaith y rhaglen neu'r prosiect ar lesiant. Mae arfarniad llesiant yn defnyddio grŵp o fesurau meintiol ac ansoddol sy'n seiliedig ar y targedau a'r uchelgeisiau llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae hefyd yn defnyddio canlyniadau asesiadau effaith statudol, megis asesiadau effaith amgylcheddol.

Rhaid i raglenni a phrosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru hefyd ddangos sut maent wedi ymgysylltu â phobl fel rhan o'r broses gynllunio ac wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nodir canllawiau pellach ar bob un o'r pynciau hyn yn ddiweddarach yn adran 2 (camau cynllunio WelTAG), adran 3 (achos busnes WelTAG), adran 4 (arfarniad llesiant integredig) ac adran 5 (ymgysylltu â phobl).

Mae Canllawiau Technegol manylach wrthi'n cael eu datblygu.

**Ffigur 4:** Tair elfen WelTAG – cynllunio, achos busnes ac arfarniad llesiant integredig



Yng Nghymru, rydym yn dehongli Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM er mwyn sicrhau bod y broses arfarnu yn adlewyrchu gwerthoedd Cymru.

## Pryd y dylid defnyddio WelTAG?

**Rhaid i WelTAG gael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ymyriad trafnidiaeth yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys prosiectau, rhaglenni a pholisïau.**

Mae hyn yn cyd-fynd â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM sy'n gymwys i brosiectau, rhaglenni a pholisïau.

Mae ymyriadau trafnidiaeth yn cynnwys prosiectau seilwaith megis cynnal a chadw neu uwchraddio seilwaith presennol neu greu seilwaith newydd. Maent hefyd yn cynnwys prosiectau sy'n ymwneud â gwasanaethau trafnidiaeth megis uwchraddio gwasanaethau presennol neu ddarparu gwasanaethau newydd. Rhaid i ymyriadau trafnidiaeth hefyd gynnwys mesurau a chamau gweithredu i newid ymddygiad sy'n lleihau'r angen i deithio megis y rhai a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Gellir defnyddio WelTAG hefyd i ddatblygu'r polisïau a'r cynlluniau manylach sy'n dod o dan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gan gynnwys Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a chynlluniau sy'n ymwneud â dulliau teithio penodol (megis cynllunio ar gyfer gwasanaethau bysiau neu wasanaethau rheilffordd yn y dyfodol). Gellir defnyddio WelTAG hefyd i lywio'r gwaith o ddatblygu rhaglenni, megis Metros, yn strategol.
Nid yw pob prosiect, rhaglen a pholisi yr un peth ac, felly, mae'n bwysig mabwysiadu dull gweithredu cymesur, wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y prosiect, y rhaglen neu'r polisi. Yn achos prosiectau megis gwaith cynnal a chadw neu fân waith atgyweirio sydd eisoes yn cael ei gyflawni, nid oes angen defnyddio proses lawn WelTAG. Fodd bynnag, gall fod yn ddefnyddiol defnyddio dull fesul cam o ymdrin ag arferion rheoli prosiect a sicrhau bod cysylltiad clir â llesiant mewn unrhyw achos dros gyllido prosiect. Rhoddir canllawiau pellach ar fabwysiadu dull cymesur o ymdrin â WelTAG isod.

## TAG a WelTAG

Fel y nodwyd, mae WelTAG yn seiliedig ar Arweiniad ar Ddadansoddi Trafnidiaeth (TAG) Llywodraeth y DU sy'n seiliedig, yn ei dro, ar Lyfr Gwyrdd Trysorlys EM, sef y ddogfen sy'n helpu i lywio penderfyniadau ar wario arian cyhoeddus. Mae'r Alban hefyd yn cyhoeddi Arweiniad ar Ddadansoddi Trafnidiaeth yr Alban (Scot-TAG).

Yng Nghymru, rydym yn dehongli Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM er mwyn sicrhau bod y broses arfarnu yn adlewyrchu gwerthoedd Cymru. O ganlyniad, mae rhai gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwaith arfarnu yn cael ei wneud yng Nghymru. Mae WelTAG yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, Cymru Sero Net ac elfennau datganoledig o drafnidiaeth
(gweler Atodiad 1 am y polisïau a'r ddeddfwriaeth fwyaf perthnasol).

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r prif wahaniaethau rhwng TAG a WelTAG.

**Ffigur 5:** Cymharu'r achos busnes llawn yn TAG â'r un yn WelTAG

| Achos busnes TAG | Achos busnes WelTAG | Gofynion yng Nghymru |
|---|---|---|
| Dimensiwn strategol | Cydweddiad strategol | Rhaid ichi ddangos sut mae eich rhaglen neu brosiect yn cydweddu â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Cymru Sero Net a dogfennau polisi eraill. |
| Dimensiwn economaidd | Llesiant | Rhaid ichi ddangos sut mae'r rhaglen neu'r prosiect yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yng Nghymru gan ddefnyddio arfarniad llesiant integredig. |
| Dimensiwn ariannol | Fforddiadwyedd | Dim gwahaniaethau mawr |
| Dimensiwn masnachol | Cyflawnadwyedd | Dim gwahaniaethau mawr |
| Dimensiwn rheoli | Rheoli | Dim gwahaniaethau mawr |
| | Pum ffordd o weithio | Rhaid ichi ddangos y pum ffordd o weithio yng Nghymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |

Rhaid i brosiectau y mae angen cyllid gan Lywodraeth y DU yn ogystal â Llywodraeth Cymru arnynt fodloni gofynion Llywodraeth y DU a nodir yn TAG. Fodd bynnag, er mwyn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru rhaid ichi hefyd ddangos bod eich prosiect yn cydweddu'n strategol â blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru a sut rydych wedi ymdrin â mater llesiant gan ddefnyddio WelTAG.

Rhaid i brosiectau y mae angen cyllid gan Lywodraeth y DU yn ogystal â Llywodraeth Cymru arnynt fodloni gofynion Llywodraeth y DU a nodir yn TAG. Fodd bynnag, er mwyn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru rhaid ichi hefyd ddangos bod eich prosiect yn cydweddu'n strategol â blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru a sut rydych wedi ymdrin â mater llesiant gan ddefnyddio WelTAG.

## Y defnydd o gymarebau cost a budd yng Nghymru

Adnodd meintiol ar gyfer cymharu gwahanol opsiynau trafnidiaeth yw cymarebau cost a budd. Maent yn un o elfennau craidd proses TAG. Yng Nghymru, mae llawer o brosiectau trafnidiaeth llai o faint, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â theithio llesol lle mae'n bosibl na fydd cymarebau cost a budd yn ddefnyddiol ar lefel prosiect unigol. Nid yw pob rhaglen na pholisi trafnidiaeth yng Nghymru yn gofyn am gyfrifo cymarebau cost a budd. Serch hynny, RHAID i bob prosiect, rhaglen a pholisi trafnidiaeth ddangos sut mae'n sicrhau gwerth am arian drwy'r achos busnes (adran 3), wedi'i hategu gan arfarniad llesiant integredig sy'n defnyddio mesurau meintiol ac ansoddol (gweler adran 4).

Gall nifer bach o brosiectau risg uchel â chyfnod ad-dalu hir neu brosiectau y mae angen cyllid gan Lywodraeth y DU arnynt hefyd, hefyd ategu eu hachos busnes â dadansoddiad pellach o gymarebau cost a budd a gwaith modelu trafnidiaeth yn y dyfodol. Yn achos prosiectau o'r fath, dim ond ar gyfer opsiynau y penderfynwyd eisoes eu bod yn cyflawni'r amcanion strategol fel

RHAID i bob prosiect, rhaglen a pholisi trafnidiaeth ddangos sut mae'n sicrhau gwerth am arian drwy'r achos busnes (adran 3), wedi'i hategu gan arfarniad llesiant integredig sy'n defnyddio mesurau meintiol ac ansoddol (gweler adran 4).

y'u nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru y bydd angen paratoi cyfrifiadau cost a budd ac ni ddylent fod ond yn un elfen mewn asesiad cytbwys o'r holl effeithiau, gan gynnwys y rhai na ellir eu cyfleu mewn termau ariannol. Fel arfer, nid yw'n gymesur paratoi cyfrifiadau cost a budd ar gyfer cynlluniau llai o faint, gan gynnwys cynlluniau teithio llesol unigol (gweler hefyd adran 4).

## WelTAG a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Cyn dechrau ar unrhyw ymyriad trafnidiaeth, rhaid ichi fod yn ymwybodol o'r weledigaeth, yr uchelgeisiau, y blaenoriaethau a'r targedau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2021.

Mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon yng Nghymru.

Mae'n seiliedig ar bedwar uchelgais llesiant hirdymor, sef system drafnidiaeth sy'n dda i bobl a chymunedau, yn dda i'r amgylchedd, yn dda i'r economi a lleoedd ac yn dda i ddiwylliant a'r Gymraeg. Mae'r pedwar uchelgais hynnyy yn seiliedig ar y nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae pob uchelgais yn cynnwys nodau mwy penodol.

Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hirdymor, mae Llwybr Newydd yn pennu tair blaenoriaeth fyrdymor, sef yn gryno:

1. **Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio**
2. **Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy**
3. **Annog pobl i newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy (mesurau newid ymddygiad)**

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hefyd yn nodi targedau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru (gweler isod). Mae'r rhain yn cynnwys targed i sicrhau bod 35% o deithiau yn cael eu gwneud gan ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy erbyn 2040.

Mae'r weledigaeth, yr uchelgeisiau, y blaenoriaethau a'r targedau yn berthnasol i bob dull teithio a sector. Mae naw cynllun bach yn nodi camau gweithredu manylach ar gyfer pob dull teithio a sector.

**Ffigur 6:** Y weledigaeth, y blaenoriaethau a'r uchelgeisiau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

# Llwybr Newydd

## Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

### Ein Gweledigaeth

System drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon

### Ein Blaenoriaethau 5 Mlynedd

1. Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio
2. Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth sy'n hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon
3. Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy

### Ein Huchelgeisiau Llesiant

| Yn dda ar gyfer pobl a chymunedau | Yn dda ar gyfer yr amgylchedd | Yn dda ar gyfer yr economi a lleoedd yng Nghymru | Yn dda ar gyfer diwylliant a'r Gymraeg |
|---|---|---|---|
| System drafnidiaeth sy'n cyfrannu at Gymru fwy cyfartal a Chymru iachach, a system mae pawb yn hyderus wrth ei defnyddio. | System drafnidiaeth sy'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol, yn cynnal bioamrywiaeth ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau, ac yn lleihau gwastraff. | System drafnidiaeth sy'n cyfrannu at ein huchelgeisiau economaidd ehangach, yn helpu cymunedau lleol, yn ategu cadwyn gyflenwi fwy cynaliadwy, yn defnyddio'r datblygiadau arloesol diweddaraf ac yn sicrhau bod trafnidiaeth yn fforddiadwy. | System drafnidiaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg, yn galluogi rhagor o bobl i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy i gyrraedd gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol, ac yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol. |

### Sicrhau Ein Bod Ni A'n Partneriaid Yn Atebol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth | Fframwaith gwerthuso newydd | Newid dulliau teithio | Mesurau llesiant | Data am y dulliau a'r sectorau teithio |

### Sut Y Byddwn Yn Gwneud Hyn

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddi mewn modd cyfrifol | Cynlluniau cyflawni a gweithredu | Llwybrau cyflawni trawsbynciol | Gweithio mewn partneriaeth | Polisïau a llywodraethu | Sgiliau a chapasiti |

### Cynlluniau Bach

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cerdded a beicio | Bysiau | Trenau | Ffyrdd, strydoedd a pharcio | Y trydydd sector | Tacsis a cherbydau hurio preifat | Cludo nwyddau a logisteg | Porthladdoedd a thrafnidiaeth forol | Hedfanaeth |

### Y Pum Ffordd o Weithio

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynnwys | Integreiddio | Atal | Cydweithio | Hirdymor |

## Y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio WelTAG i asesu gwerth am arian

**Mae'r adran hon yn nodi ein meini prawf ar gyfer asesu gwerth am arian yng Nghymru.**

Gweinidogion Cymru sy'n gwneud penderfyniadau yn y pen draw ynghylch cyllid ar gyfer prosiectau trafnidiaeth yng Nghymru yn unol â blaenoriaethau ehangach.  Mae'r Llyfr Gwyrdd a Phrif Economegydd Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir na ellir ystyried bod rhywbeth yn cynnig gwerth am arian os nad yw'n cyd-fynd â nodau polisi Llywodraeth Cymru. Felly, ni ellir dweud bod rhaglen, polisi na phrosiect yn cynnig gwerth am arian yng Nghymru oni fydd yn cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Cymru Sero Net.

Felly, ni ellir dweud bod rhaglen, polisi na phrosiect yn cynnig gwerth am arian yng Nghymru oni fydd yn cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Cymru Sero Net.

Er mwyn asesu gwerth am arian, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pum maen prawf. Maent yn cyd-fynd â phum dimensiwn achos busnes da a nodir yn Arweiniad ar Ddadansoddi Trafnidiaeth y DU ac ag egwyddorion polisi Llywodraeth Cymru. Y pum maen prawf gwerth am arian ar gyfer cyllido prosiectau trafnidiaeth yng Nghymru yw:

1. **cydweddiad strategol** – sut mae'r rhaglen neu'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer trafnidiaeth a nodir yn Llwybr Newydd a pholisïau eraill y Llywodraeth.
2. **llesiant** – sut mae'r rhaglen neu'r prosiect yn sicrhau manteision llesiant lleol neu genedlaethol ehangach i bobl yng Nghymru gan gynnwys helpu i gyflawni ein targedau ar gyfer datgarboneiddio.
3. **fforddiadwyedd** – a yw costau byrdymor a hirdymor y rhaglen neu'r prosiect yn fforddiadwy.
4. **cyflawnadwyedd** – a yw'r adnoddau, y galluoedd a'r sgiliau ar gael i gyflawni'r rhaglen neu'r prosiect yn effeithiol ac yn effeithlon.
5. **rheoli** – a gaiff y rhaglen neu'r prosiect ac unrhyw risgiau eu rheoli'n effeithiol.

Rhaid bodloni meini prawf 1 a 2 cyn ystyried meini prawf 3, 4 a 5.

## Y dull gweithredu cymesur

Mae pob prosiect a rhaglen yn wahanol a gall prosiectau eithaf tebyg (megis prosiectau teithio llesol), hyd yn oed, amrywio o ran maint, graddfa a chymhlethdod. Mae'n bwysig defnyddio dull cymesur o ymdrin â WelTAG. Mae hyn yn golygu teilwra faint o fanylion sydd yn adroddiadau WelTAG i natur y rhaglen neu'r prosiect. Er mwyn helpu rheolwyr prosiect, polisi neu raglen fabwysiadu dull gweithredu cymesur, mae WelTAG 2022 yn cyflwyno tair lefel o WelTAG sydd wedi'u teilwra i faint, cwmpas a chymhlethdod y prosiect. Y lefelau hyn yw:

- **WelTAG byr** – un achos busnes sy'n cyfuno Camau 1-3 mewn un adroddiad.
- **WelTAG safonol** – adroddiad ar wahân ar Gamau 1 a 2 sy'n ymdrin â'r rhestr hir o opsiynau a'r rhestr fer, a Cham 3 gan gynnwys achos busnes llawn.
- **WelTAG manwl** – efallai y bydd angen i'r rhaglenni neu'r prosiectau hyn ategu'r arfarniad llesiant integredig â gwaith modelu trafnidiaeth ychwa negol a chymarebau cost a budd.

Dylai'r rhan fwyaf o brosiectau yng Nghymru ddefnyddio WelTAG byr. Mae hyn yn cynnwys prosiectau teithio llesol. Gall WelTAG byr fod yn briodol hefyd ar gyfer cynlluniau, polisïau a rhaglenni pan fo'n llai pwysig arfarnu gwahanol opsiynau ac yn bwysicach alinio â llesiant a defnyddio dull integredig o ddatblygu polisi.

Dim ond ar gyfer prosiectau a rhaglenni mwy o faint, nad ydynt yn cydweddu'n uniongyrchol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a allai gael effeithiau andwyol ar lesiant (megis mwy o allyriadau carbon), sy'n debygol o gynnwys proses caffael tir yn orfodol ac a allai gynnwys ymchwiliad cyhoeddus, y dylid defnyddio WelTAG safonol.

Mae WelTAG 'manwl' yn ychwanegu gwaith ar gymarebau cost a budd a gwaith modelu trafnidiaeth mwy cymhleth at WelTAG safonol. Dylid defnyddio WelTAG manwl ar gyfer prosiectau neu raglenni cymhleth mawr sy'n bodloni'r meini prawf uchod ac nad ydynt yn cyd-fynd yn uniongyrchol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, neu sydd efallai yn cynnwys effeithiau andwyol ar lesiant (fel allyriadau carbon uwch). Dylid defnyddio WelTAG manwl hefyd ar gyfer prosiectau y mae angen cyllid gan Lywodraeth y DU arnynt hefyd, ac o ganlyniad mae angen iddynt hefyd gyd-fynd â gofynion UK TAG.

**Ffigur 7:** WelTAG byr, WelTAG safonol a WelTAG manwl

<table>
<tr><th>Camau WelTAG</th><th>WelTAG byr</th><th>Safon WelTAG</th><th>WelTAG manwl</th></tr>
<tr><td>Cam 0<br>yr achos dros newid</td><td>Yr achos dros newid</td><td>Yr achos dros newid</td><td>Yr achos dros newid</td></tr>
<tr><td>Cam 1<br>achos amlinellol strategol</td><td rowspan="3">Achos busnes<br>+<br>Arfarniad llesiant integredig</td><td>Achos amlinellol strategol</td><td>Achos amlinellol strategol</td></tr>
<tr><td>Cam 2<br>achos busnes amlinellol</td><td>Achos busnes amlinellol</td><td>Achos busnes amlinellol</td></tr>
<tr><td>Cam 3<br>achos busnes<br>+<br>Arfarniad llesiant integredig</td><td>Achos busnes llawn<br>+<br>Arfarniad llesiant integredig<br>+<br>Asesiadau effaith statudol</td><td>Achos busnes llawn<br>+<br>Arfarniad llesiant integredig<br>+<br>Cynllun gwerthuso<br>+<br>Asesiadau effaith statudol<br>+<br>Modelu a chymarebau cost a budd</td></tr>
<tr><td>Cam 4<br>cyflawni</td><td>Rheoli'r prosiect neu'r rhaglen</td><td>Caniatadau statudol<br>Gwaith dylunio ychwanegol<br>Caffael<br>Rheoli'r prosiect neu'r rhaglen</td><td>Caniatadau statudol<br>Gwaith dylunio ychwanegol<br>Caffael<br>Rheoli'r prosiect neu'r rhaglen</td></tr>
<tr><td>Cam 5<br>monitro a gwerthuso</td><td>adroddiadau blynyddol ar berfformiad</td><td>adroddiadau blynyddol ar berfformiad</td><td>adroddiadau blynyddol ar berfformiad<br>+<br>Gwerthuso</td></tr>
</table>

Bydd Canllawiau Technegol WelTAG yn rhoi rhagor o fanylion ar sut i ddewis rhwng WelTAG byr, WelTAG safonol a WelTAG manwl.

## Prosesau cymeradwyo prosiectau neu raglenni neu adolygiadau porth

Rhaid i raglenni neu brosiectau sy'n defnyddio WelTAG safonol neu WelTAG manwl fynd drwy un broses gymeradwyo (neu adolygiad porth) neu fwy er mwyn asesu'r cynnydd sydd wedi'i wneud cyn symud i'r cam nesaf. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd ar ôl pob un o gamau WelTAG.

Mae'r rhain yn amrywio yn ôl dull teithio ond, er enghraifft, mae gan Lywodraeth Cymru broses cymeradwyo cam allweddol a phroses rhoi sicrwydd porth ar gyfer rhaglenni neu brosiectau ffyrdd ac mae gan Trafnidiaeth Cymru brosesau cymeradwyo porth ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith ac ar gyfer teithio llesol. Mae adolygiadau porth yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu rhaglen neu brosiect. Dylai'r angen am adolygiadau porth gael ei nodi mewn unrhyw ddogfen cwmpasu prosiect (gweler adran 2).

Yn gyffredinol, ni ddylai rhaglenni neu brosiectau sy'n defnyddio WelTAG safonol neu WelTAG manwl fynd y tu hwnt i Gam 1 oni bai bod y prosiect yn cydweddu'n dda â blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth, a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a manteision llesiant sylweddol.

## WelTAG a'r pum ffordd o weithio

### Rhaid i bob rhaglen neu brosiect esbonio sut mae'r pum ffordd o weithio wedi'u defnyddio a sut maent wedi llywio'r rhaglen neu'r prosiect.

Nid yw'n dderbyniol darparu rhestr wirio yn unig. Ni chaiff rhaglenni neu brosiectau nad ydynt yn gwneud hynny eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal. Dylai'r pum ffordd o weithio lywio pob cam o broses WelTAG.  Ac yn olaf, dylai adran llesiant yr achos busnes esbonio sut rydych wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio i ddatblygu'r rhaglen neu'r prosiect. Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn esbonio sut i ddefnyddio'r pum ffordd o weithio mewn rhaglenni a phrosiectau trafnidiaeth tra bo'r cynlluniau bach yn esbonio sut maent yn gymwys i bob dull teithio a sector yng Nghymru.

Dylai'r cynllun ymgysylltu esbonio sut y caiff y pum ffordd o weithio eu defnyddio a phwy sy'n gyfrifol am arwain arnynt. Mae Adran 5: ymgysylltu â phobl, yn esbonio beth ddylai fod mewn cynllun ymgysylltu ac yn dangos y rôl y gall pobl wahanol sy'n cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio rhaglenni a phrosiectau trafnidiaeth ei chwarae o ran sicrhau y rhoddir sylw i'r pum ffordd o weithio.

Bydd y Canllawiau Technegol yn cynnwys rhagor o dempledi a chanllawiau.

## WelTAG ar gyfer opsiynau y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw

Weithiau, efallai y bydd angen datblygu a phrofi opsiwn a ddewiswyd eisoes am ei fod yn cyflawni amcanion polisi ehangach – megis ymrwymiad mewn maniffesto. Yn yr achos hwn, mae proses Cam 3 sy'n cynnwys datblygu manylion y cynnig a nodi sut y gellir ei gyflawni a'r achos busnes ategol, yn dal yn bwysig. Gallwch edrych yn ôl er mwyn gwneud yn siŵr bod achos cadarn dros newid ac ystyried (o leiaf yn amlinellol) a oes opsiynau eraill ar gael o hyd. Bydd hyn yn eich galluogi i ddangos bod gwerth am arian wedi'i sicrhau. Gall hefyd arwain at ddewis opsiwn gwell. Efallai y byddwch hefyd yn nodi cyfleoedd newydd i sicrhau manteision ehangach fel rhan o'r opsiwn gwreiddiol hwnnw. Fel bob amser, dylech gynnwys yr opsiwn 'gwneud dim' neu'r opsiwn 'gwneud cyn lleied â phosibl' mewn unrhyw achos busnes at ddibenion cymharu. Mae'r opsiwn gwneud dim yn golygu hynny yn union ac mae'r opsiwn gwneud cyn lleied â phosibl yn golygu parhau i gynnal seilwaith presennol. Efallai y bydd hyn yn cynnwys modelu effaith peidio â gwneud dim mewn perthynas â'r targedau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Rhaid i bob rhaglen neu brosiect trafnidiaeth yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru gyfrannu at leihau allyriadau carbon o drafnidiaeth, p'un a fydd yn gwneud hynny drwy wella seilwaith neu wasanaethau presennol, newid ymddygiad neu leihau'r angen i deithio neu drwy ddarparu gwasanaethau a seilwaith newydd.

## WelTAG a datgarboneiddio

Un o'r heriau mwyaf i bolisi trafnidiaeth yng Nghymru yw sut i leihau allyriadau carbon o drafnidiaeth. Yn 2018, roedd trafnidiaeth yn gyfrifol am 17% o'r allyriadau carbon yng Nghymru ac mae'r ffigur hwnnw'n cynyddu.

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ymrwymo i darged ar gyfer newid dulliau teithio y bwriedir iddo helpu i leihau allyriadau carbon o drafnidiaeth yn sylweddol. Mae hefyd yn ymrwymo i amrywiaeth o gamau gweithredu eraill i gyflawni'r targed hwnnw gan gynnwys lleihau'r angen i deithio, mabwysiadu'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer seilwaith trafnidiaeth newydd a gwneud defnydd gwell o seilwaith presennol, gan sicrhau ei fod yn addas at y dyfodol os oes angen.

Rhaid i bob rhaglen neu brosiect trafnidiaeth yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru gyfrannu at leihau allyriadau carbon o drafnidiaeth, p'un a fydd yn gwneud hynny drwy wella seilwaith neu wasanaethau presennol, newid ymddygiad neu leihau'r angen i deithio neu drwy ddarparu gwasanaethau a seilwaith newydd.

Mae'n bwysig cyfrif yn llawn am y carbon ychwanegol a gynhyrchir gan gynlluniau trafnidiaeth newydd neu grwpiau o gynlluniau.

Rhaid ymgorffori meddwl am newid dulliau teithio a datgarboneiddio ym mhroses WelTAG o'r cychwyn cyntaf drwy feddwl amdano fel rhan o gam sero, drwy nodi opsiynau a thrwy ddangos sut y bydd ein prosiect terfynol yn lleihau allyriadau carbon.

Pan fyddwn yn asesu rhaglenni neu brosiectau i weld a ddylid eu hariannu, byddwn yn edrych ar effaith gronnus prosiectau ar ddatgarboneiddio yn ogystal ag effaith prosiectau unigol.

trafnidiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru gynnwys camau gweithredu sy’n ymwneud â newid ymddygiad

## Newid ymddygiad

Nid oes diben buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy oni fydd pobl yn eu defnyddio.  Mae newid ymddygiad wrth wraidd trydedd blaenoriaeth Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, sef annog pobl i newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy.  Er mwyn gwneud hynny, mae angen inni sicrhau bod opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy yn fwy deniadol ac yn fwy fforddiadwy a mabwysiadu datblygiadau arloesol sy’n eu gwneud yn haws i’w defnyddio. Mae model newid ymddygiad COM-B yn nodi, er mwyn ymddwyn mewn ffordd benodol, fod angen i unigolyn gael y gallu a’r cymhelliant i wneud hynny a rhaid i ffactorau allanol roi cyfle iddo wneud hynny.

Rhaid i bob rhaglen neu brosiect trafnidiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru gynnwys camau gweithredu sy’n ymwneud â newid ymddygiad ac sy’n mynd i’r afael â phob un o’r rhain - goresgyn y rhwystrau sy’n atal pobl rhag defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy (gallu), darparu cyfleoedd (buddsoddi mewn gwasanaethau neu seilwaith) a gweithgareddau neu ymgyrchoedd sy’n helpu i gymell pobl i newid i drafnidiaeth gynaliadwy.

# Adran 2
## Camau cynllunio WelTAG

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o gamau cynllunio WelTAG, o wneud yr achos cychwynnol dros newid, i arfarnu opsiynau, yr achos busnes, y cyflawni a'r gwerthuso.

# Adran 2: Camau cynllunio WelTAG

**Mae WelTAG yn cynnwys cyfres o gamau cynllunio sy'n dilyn oes prosiect, rhaglen neu bolisi o syniadau cynnar tan ar ôl iddo gael ei gwblhau.**

Maent yn dechrau â'r syniadau cynharaf ynglŷn â'r hyn y byddech, o bosibl, am ei wneud, arfarnu opsiynau a datblygu achos busnes Os byddwch yn llwyddo i gael cyllid, gall hefyd eich helpu i fonitro, rheoli a hyrwyddo eich rhaglen neu brosiect ac, ar ôl iddo gael ei gwblhau, ei werthuso. Mae pob cam yn gofyn am adroddiad ysgrifenedig fel rhan o'r broses rhoi sicrwydd y rhaglen neu'r prosiect.

Isod, nodir camau cynllunio WelTAG safonol.

**Cam 0 yr achos dros newid** – Beth yw'r blaenoriaethau strategol ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru ac yn eich ardal a beth y gallwch ei wneud er mwyn helpu i'w cyflawni? Nid yw'r cam hwn yn cynnwys opsiynau.

**Cam 1 achos amlinellol strategol** – pa opsiynau sydd gennym er mwyn cyflawni'r amcanion hynny? Pa rai o'r opsiynau hynny yw'r gorau?

**Cam 2 achos busnes amlinellol** – lleihau nifer eich opsiynau nes bod gennych achos busnes amlinellol.

**Cam 3 achos busnes llawn** – datblygu cynnig y rhaglen neu'r prosiect nes iddo fod yn barod i'w gyflwyno, gan gynnwys achos busnes manwl.

**Cam 4 cyflawni** – os ariennir y rhaglen neu'r prosiect, bydd WelTAG yn eich helpu i feddwl am y ffordd y byddwn yn rheoli ac yn monitro eich prosiect, gan weithio gyda phartneriaid.

**Cam 5 monitro a gwerthuso** – rhaid ichi gyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol ar gyfer eich rhaglen neu brosiect yn nodi'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Efallai y bydd angen cynnal gwerthusiad ffurfiol ar gyfer rhaglenni neu brosiectau mwy o faint er mwyn ateb cwestiynau megis a gyflawnodd yr hyn y bwriadwyd iddo ei gyflawni? A wnaethom y peth iawn? A oeddem wedi'i wneud yn iawn? Sut y gwnaethom gyfrannu at gyflawni targedau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru?

Fel y nodwyd, bydd y rhan fwyaf o brosiectau yng Nghymru yn cyfuno camau 1-3 mewn un achos busnes o dan WelTAG byr. Serch hynny, mae'n ddefnyddiol deall pob un o'r camau.

Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestrau gwirio ansawdd ar gyfer adroddiadau WelTAG. Bydd y Canllawiau Technegol yn cynnwys holiadur manylach er mwyn eich helpu i ddewis pa lefel o WelTAG y dylech ei defnyddio.

## Cam 0 yr achos dros newid (asesiad strategol)

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhaglenni neu brosiectau nad oes ganddynt achos clir dros newid ar y cychwyn cyntaf. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r achos dros newid.

Y cam cyntaf ym mhroses gynllunio WelTAG yw cam 0 yr achos dros newid. Mae'r achos dros newid yn nodi amcanion trafnidiaeth lefel uchel a'r hyn rydych am ei gyflawni. Cam 0 yr achos dros newid yw sail proses WelTAG. Yn y pen draw, mae'n esbonio pam mae angen ichi wneud unrhyw beth o gwbl.

Mae'n demtasiwn mynd ati'n syth i gynllunio cynllun penodol megis llwybr beicio parcio a theithio neu wella cyffordd. Mae risg y bydd y dull hwn o weithredu yn gwastraffu amser ac arian am nad yw'r prosiect neu'r pecyn o waith yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth.

Yng nghanllawiau WelTAG 2017, roedd yr achos dros newid yn rhan o achos amlinellol strategol Cam 1. Mae WelTAG 2022 yn gosod cam 0 ar wahân er mwyn sicrhau bod pob rhaglen neu brosiect yn seiliedig ar resymeg glir, hyd yn oed cyn i bobl ddechrau meddwl am opsiynau penodol.  Mae'r newid hwn hefyd yn cyd-fynd â cham asesu achosion busnes yn strategol yr Adran Drafnidiaeth.

> Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhaglenni neu brosiectau nad oes ganddynt achos clir dros newid ar y cychwyn cyntaf.

Mae'r achos dros newid yn dechrau â'r amcanion lefel uchel. Mae'n rhaid i'r amcanion hyn fod yn seiliedig ar ein blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer trafnidiaeth yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, eich cynllun trafnidiaeth lleol neu ranbarthol neu gynlluniau cymeradwy presennol megis mapiau rhwydwaith teithio llesol. Gall cynlluniau llesiant lleol fod yn ddefnyddiol hefyd. Mae angen i'r amcanion hynny edrych ar y materion yn yr hirdymor a dylent gael eu llywio drwy ymgysylltu â phobl a phartneriaid drwy drafod â nhw a'u cynnwys.

Dylech ddychwelyd at y rhesymeg hon wrth i'ch rhaglen neu brosiect ddatblygu er mwyn sicrhau y gellir cyfiawnhau'r cynigion a'i bod yn werth eu cyflawni o hyd.

Gan mai nod yr achos dros newid yw ymdrin â phroblem neu gyfle penodol, ni ddylai ymdrin â dull teithio na sector penodol. Fodd bynnag, dylai'r amcanion fod yn rhai CAMPUS, hynny yw eu bod yn ymwneud yn benodol â'r broblem neu'r cyfle a'u bod yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol.

Dylai'r achos dros newid gael ei ddatblygu gan y tîm mewnol sy'n arwain y rhaglen neu'r prosiect. Ni ddylai gael ei baratoi gan ymgynghorwyr. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, dylid cytuno ar yr achos dros newid â phartneriaid allweddol cyn mynd ymhellach.

Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer yr achos dros newid. Caiff rhagor o fanylion am gynnwys yr achos dros newid, gan gynnwys y camau sydd i'w dilyn wrth ddatblygu'r achos dros newid yn y canllawiau technegol.

## Cwmpasu rhaglen neu brosiect

**Ar ôl i'r achos dros newid gael ei nodi a'i gytuno â phartneriaid allweddol, rhaid i reolwr y rhaglen neu brosiect gynnal ymarfer cwmpasu rhaglen neu brosiect.**

Diben cwmpasu yw nodi pa fath o waith a faint o waith sydd angen ei wneud i ddatblygu'r prosiect, y rhaglen neu'r polisi. Bydd hyn yn cynnwys nodi pa ddull o ymdrin â WelTAG y dylid ei ddefnyddio ac a oes unrhyw ofynion sy'n ymwneud â dulliau teithio penodol (gweler adran 5). Dylai gwaith sgrinio gael ei ddefnyddio i nodi unrhyw asesiadau effaith statudol neu anstatudol a chynllunio ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid (gweler adran 4).

Dylai rheolwr y rhaglen neu'r prosiect ddrafftio dogfen cwmpasu prosiect sy'n nodi'r wybodaeth hon ac unrhyw amserlen debygol a cherrig milltir posibl, rolau a chyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu'r rhaglen neu'r prosiect. Dylid cytuno ar y ddogfen gwmpasu â rhanddeiliaid perthnasol cyn mynd ymlaen.

Diben cwmpasu yw nodi pa fath o waith a faint o waith sydd angen ei wneud i ddatblygu'r prosiect, y rhaglen neu'r polisi.

Unwaith y cytunir ar y ddogfen gwmpasu, rhaid i reolwr y prosiect friffio a chomisiynu ymgynghorwyr neu'r tîm mewnol sy'n datblygu'r prosiect, y rhaglen neu'r polisi. Mae'n hanfodol bod y tîm neu'r unigolyn sy'n arwain y prosiect yn rhoi arweiniad clir ynglŷn â'r hyn y disgwylir i'r tîm sy'n helpu i ddatblygu'r prosiect ei wneud.

Bydd y Canllawiau Technegol yn cynnwys templed cwmpasu rhaglen neu brosiect a briff enghreifftiol ar gyfer comisiynu ymgynghorwyr i ymgymryd ag astudiaethau WelTAG.

## Cam 1 achos amlinellol strategol

**Y cam nesaf yw ystyried rhestr hir o opsiynau neu syniadau a allai helpu i gyflawni eich amcanion ac yna leihau nifer yr opsiynau ar y rhestr hir honno er mwyn creu rhestr fer.**

Nodwch, os byddwch yn defnyddio WelTAG byr, y dylech gyfuno cam 1 a cham 2 (gweler isod) mewn un esboniad byr o sut a pham rydych wedi dewis eich opsiwn terfynol, gan ddefnyddio'r un dull gweithredu cyffredinol ag a nodir yma.

Er mwyn helpu i wneud hyn, rydym wedi llunio rhestr o opsiynau i'ch helpu i ddatblygu rhaglenni neu brosiectau trafnidiaeth sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'r rhestr honno yn cynnwys:

Defnyddiwch y ddewislen opsiynau i archwilio syniadau gwahanol, gan gynnwys opsiynau ar gyfer newid ymddygiad.

- Yr opsiwn **i wneud dim neu wneud cyn lleied â phosibl** Mae'n bwysig ystyried ac, os bydd angen, ddiystyru'r opsiwn hwn cyn mynd ymhellach. Mae hyn yn cynnwys ystyried effaith gwneud dim o ran ein targedau ar gyfer newid dulliau teithio a blaenoriaethau eraill yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
- **Opsiynau ar gyfer cynllunio defnydd tir.** Weithiau, ni fydd problem trafnidiaeth yn gofyn am ateb trafnidiaeth – gall fod ffyrdd eraill o ymdrin â phroblemau. Blaenoriaeth gyntaf Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio bob dydd ac, felly, mae'r rhestr o opsiynau yn cynnwys opsiynau cynllunio megis lleoli gwasanaethau newydd yn agos i'r mannau hynny lle mae pobl yn byw, gan neilltuo tir ar gyfer canolfannau aml-ddull er mwyn trosglwyddo nwyddau ar gyfer dosbarthiadau milltir olaf a chanolfannau gweithio o bell er mwyn lleihau'r pellter y mae angen i bobl ei deithio i'r gwaith.
- **Opsiynau ar gyfer gwasanaethau mwy cynaliadwy.** Mae a wnelo ail flaenoriaeth Strategaeth Drafnidiaeth Cymru â galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy. A oes opsiynau i fuddsoddi mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus? Gall y rhain gynnwys opsiynau ar gyfer gwella dibynadwyedd, diogelwch ac amlder gwasanaethau neu ymestyn eu cyrhaeddiad daearyddol. Gallent gynnwys opsiynau cynllunio trafnidiaeth integredig i'w gwneud yn haws i bobl newid rhwng gwahanol fathau o drafnidiaeth a gwelliannau o ran hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

- **Opsiynau i wneud defnydd gwell o seilwaith presennol.** Mae'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy yn ail flaenoriaeth Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn nodi y byddwn yn gwneud defnydd gwell o seilwaith presennol cyn buddsoddi mewn seilwaith newydd. A oes opsiynau i uwchraddio seilwaith presennol neu wneud defnydd gwell ohono, er enghraifft er mwyn addasu i newid yn yr hinsawdd neu gyflawni ein rhwymedigaethau o ran hygyrchedd? A oes opsiynau ar gyfer addasu seilwaith er mwyn annog pobl i newid dulliau teithio?
- **Opsiynau ar gyfer seilwaith newydd sy'n defnyddio'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy.** Lle mae angen seilwaith newydd arnom, mae'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn seilwaith ar gyfer teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn dros ddefnyddio ceir preifat eraill. A ydych wedi ystyried yr opsiynau hyn?
- **Opsiynau ar gyfer newid ymddygiad.** Mae a wnelo trydedd blaenoriaeth Strategaeth Drafnidiaeth Cymru â newid ymddygiad – dod o hyd i ffyrdd o alluogi mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy. Dylai pob rhaglen neu brosiect gynnwys opsiynau newid ymddygiad sy'n ceisio mynd i'r afael â galluoedd, cymhelliant a chyfleoedd.  Gallai'r rhain gynnwys gwybodaeth well, gwasanaethau cyflymach a mwy dibynadwy, gwell cysylltedd rhwng gwasanaethau neu ddatblygiadau arloesol sy'n annog pobl i newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy.

> Ar gyfer llawer o raglenni neu brosiectau, caiff opsiynau gynnwys pecynnau gwaith yn hytrach nag opsiynau sengl, ar wahân.

Mae'r naw cynllun bach yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru hefyd yn cynnwys camau gweithredu penodol ar gyfer pob dull teithio a sector sy'n cwmpasu teithio llesol, bysiau, rheilffyrdd, ffyrdd strydoedd a pharcio, y trydydd sector, cludo nwyddau a logisteg, trafnidiaeth forol a hedfanaeth. Gellir eu defnyddio hefyd i nodi opsiynau.

Byddwch yn greadigol wrth ystyried opsiynau. A oes technoleg newydd a allai ddatrys y broblem? A oes atebion digidol?

Oherwydd gall llawer o raglenni neu brosiectau gynnwys pecynnau o waith yn hytrach nag opsiynau unigol.  Gellir cyfuno opsiynau yn ddiweddarach, efallai drwy gyfuno ymyriadau trafnidiaeth ac ymyriadau nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth neu ategu mesurau newid ymddygiad â gwasanaethau newydd.

Nodwch fod y dyletswyddau a grëir gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yng Nghymru yn golygu y dylai rhaglenni neu brosiectau awdurdodau lleol gynnwys opsiynau ar gyfer teithio llesol.

## Mireinio opsiynau

**Unwaith y bydd gennych restr hir o opsiynau, dylech leihau nifer yr opsiynau gan ddefnyddio pum dimensiwn achos busnes, sef cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheoli.**

Rhaid ichi hefyd ystyried barn partneriaid a rhanddeiliaid. Ar y cam hwn, rhowch fwy o bwyslais ar asesu opsiynau yn erbyn cydweddiad strategol a llesiant.

Dylech ddefnyddio'r pum ffordd o weithio i edrych i'r hirdymor, cynnwys y bobl iawn, ceisio ffyrdd o integreiddio blaenoriaethau gwahanol, atal problemau rhag codi yn y dyfodol a chydweithio â phartneriaid.

Efallai na fydd angen ystyried llwybrau fel opsiynau os bydd llwybr eisoes wedi'i nodi mewn cynllun lleol neu ar fap rhwydwaith teithio llesol, sy'n golygu ei fod wedi bod yn destun proses arfarnu systematig eisoes. Fodd bynnag, gellir defnyddio proses WelTAG i nodi'r opsiynau seilwaith mwyaf priodol ar gyfer llwybr penodol sy'n sicrhau'r manteision mwyaf.

Efallai na fydd angen ystyried llwybrau fel opsiynau os bydd llwybr eisoes wedi'i nodi mewn cynllun lleol neu ar fap rhwydwaith teithio llesol, sy'n golygu ei fod wedi bod yn destun proses arfarnu systematig eisoes.

Os bydd WelTAG yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu rhaglen neu bolisi, efallai na fydd yn bosibl nac yn ddefnyddiol nodi opsiynau cymaradwy ar wahân. Yn yr achos hwn, defnyddiwch bum dimensiwn achos busnes i'ch helpu i ddatblygu'r dull gweithredu.

Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer yr achos amlinellol strategol. Bydd y Canllawiau Technegol yn cynnwys manylion y rhestr o opsiynau yn ogystal â thempled cydweddiad strategol, templed llesiant a thempled crynodeb ar gyfer adolygu opsiynau.

## Cam 2 Achos busnes amlinellol

Y cam nesaf yw lleihau nifer yr opsiynau ar y rhestr gan ddefnyddio'r broses arfarnu opsiynau. Dylai hyn greu rhestr fer o opsiynau cyflawnadwy ac, o bosibl, fforddiadwy a fydd yn atal problemau rhag codi neu'n datrys eich problemau nawr ac a fydd, yn y dyfodol, yn cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth a'ch blaenoriaethau lleol. Nodwch, os byddwch yn defnyddio WelTAG byr, na fydd angen achos busnes amlinellol cam 2 arnoch.

Defnyddiwch bum dimensiwn achos busnes da er mwyn lleihau nifer yr opsiynau.

- **cydweddiad strategol:** pa opsiynau sy'n cydweddu orau â'ch amcanion (ac felly'r blaenoriaethau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ogystal â'ch blaenoriaethau trafnidiaeth lleol neu ranbarthol)? Esboniwch pam maent yn cydweddu'n well â'ch amcanion o gymharu ag opsiynau eraill.

- **llesiant:** pa opsiynau sy'n cael yr effaith fwyaf buddiol ar lesiant cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol pobl yng Nghymru (defnyddiwch y fframwaith arfarniadau llesiant i wneud hyn)? Ar y cam hwn, y cyfan rydych yn ei wneud yw rhagweld effeithiau tebygol, yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth sydd eisoes ar gael.

Ar gam 2, bydd angen ichi hefyd ystyried yn fwy manwl a yw'r opsiynau yn bodloni'r tri maen prawf nesaf:

- **fforddiadwyedd:** beth yw costau amcangyfrifedig tebygol pob opsiwn ac, ar y sail honno, pa opsiynau a fydd yn fforddiadwy neu, o leiaf, yn cynnig gwerth am arian, a bod yn realistig?
- **cyflawnadwyedd:** beth yw'r heriau o ran cyflawni sy'n gysylltiedig â phob opsiwn? Ac, ar y sail honno, pa opsiynau y gallwn eu cyflawni yn ymarferol? Â phwy y byddai'n rhaid ichi gydweithio er mwyn cyflawni'r opsiwn hwn? Am beth y byddent yn pryderu?
- **rheoli:** beth yw'r risgiau a'r heriau o ran goruchwylio sy'n gysylltiedig â phob opsiwn a pha opsiynau fyddai'r rhai hawsaf neu fwyaf realistig i'w rheoli? Beth yw'r prif risgiau a sut y byddwch yn eu rheoli?

Dylai pob opsiwn sy'n cyrraedd y rhestr fer gyd-fynd yn strategol â'r tair blaenoriaeth yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Dylech barhau i feddwl yn greadigol. Er enghraifft, a allwch gyfuno opsiynau sy'n cyflawni mwy nag un opsiwn?

Gallwch ategu eich dadleuon â data. Gallech ddefnyddio data meintiol, er enghraifft ar symudiadau traffig neu gostau neu'r galw neu wybodaeth ansoddol, er enghraifft am fanteision iechyd posibl pob opsiwn neu'r effaith ar fioamrywiaeth.

Erbyn y cam hwn, dylai pob opsiwn ar y rhestr fer gydweddu'n strategol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a ddangosir gan dystiolaeth o'r ffordd y maent yn cyd-fynd â'r tair blaenoriaeth yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Wedyn, dylai'r opsiwn a ffefrir gael ei ddewis o'r opsiynau ar y rhestr fer drwy gynnal asesiad seiliedig ar dystiolaeth o'u cyfraniad at lesiant gan ddefnyddio'r mesurau meintiol ac ansoddol yn y fframwaith arfarniadau llesiant integredig.

Ar ddiwedd cam 2, dylai'r grŵp adolygu (neu broses gymeradwyo borth arall) penderfynu ar yr opsiwn neu becyn o waith terfynol.

Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer yr achos busnes amlinellol. Bydd y Canllawiau Technegol yn cynnwys rhestr o gynnwys a awgrymir ar gyfer yr adroddiad.

Mae'r achos busnes llawn yn nodi'r cyfiawnhad dros yr opsiwn a ddewiswyd ac yn rhoi sicrwydd i'ch partneriaid neu'r corff cyllido bod eich cynllun yn cydweddu'n dda ag amcanion strategol, y bydd yn cael effaith fuddiol ar nodau llesiant, bod y costau yn gadarn ac y gellir ei gyflawni a'ch bod yn gallu rheoli risgiau allweddol.

## Cam 3 yr achos busnes

**Mae Cam 3 WelTAG yn cynnwys datblygu achos busnes llawn sy'n nodi'r cyfiawnhad dros y rhaglen neu brosiect. Dylid ei ategu â dyluniad manylach a gwybodaeth am y ffordd y caiff y prosiect ei gyflawni ac efallai y bydd angen iddo gynnwys ymarfer caffael hefyd yn ogystal â pharatoi arfarniad llesiant integredig ac unrhyw asesiadau effaith statudol sydd eu hangen.**

Erbyn hyn, dylai fod gennych syniad clir o'r prosiect, y rhaglen neu'r polisi a sut y gellir ei gyflawni (chyflawni), yn ogystal â'i manteision ehangach posibl. Dylech fod wedi cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, fel y nodir yn eich cynllun ymgysylltu, a dylent fod o blaid mynd ymlaen â'r prosiect. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith i fireinio'r dyluniad a'r dull gweithredu, deall costau a'r ffordd y caiff y prosiect ei gyflawni a gwneud yn siŵr bod risgiau ac effeithiau wedi'u rhagweld.

Ar ddiwedd y cam hwn, dylai fod gennych ddigon o wybodaeth i wneud cais i gorff cyllido megis Llywodraeth Cymru. Dylech allu darparu digon o wybodaeth i wneud penderfyniad hyddysg.

Cyn paratoi achos busnes llawn, bydd angen ichi lunio **disgrifiad o gynllun** mwy manwl ar gyfer eich pecyn o waith neu'r opsiwn a ffefrir gennych. Drwy fynd ati i ddisgrifio eich prosiect, eich polisi neu'ch rhaglen mor fanwl â phosibl, byddwch yn fwy abl i nodi costau ac asesu'r risgiau a'r effaith fel rhan o'ch achos busnes (gweler isod).

Yn ôl pob tebyg, bydd yr opsiwn a ffefrir yn cynnwys cyfres o becynnau gwaith a fydd yn cyflawni'r amcanion. Gallai'r pecynnau gwaith hynny gynnwys gwasanaethau newydd, gwelliannau i seilwaith neu weithgareddau newid ymddygiad megis ymgyrchoedd, gwybodaeth neu gynllunio siwrneiau integredig.

Mae'r **achos busnes llawn** yn nodi'r cyfiawnhad dros yr opsiwn a ddewiswyd ac yn rhoi sicrwydd i'ch partneriaid neu'r corff cyllido bod eich cynllun yn cydweddu'n dda ag amcanion strategol, y bydd yn cael effaith fuddiol ar nodau llesiant, bod y costau yn gadarn ac y gellir ei gyflawni a'ch bod yn gallu rheoli risgiau allweddol.

Mae pum adran i achos busnes da, sef cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheoli.

Mae'r adran sy'n ymdrin â chydweddiad strategol yn esbonio sut mae eich prosiect, polisi neu raglen yn cydweddu â blaenoriaethau rhanbarthol a lleol ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae'r adran sy'n ymdrin â llesiant yn esbonio sut mae llesiant wedi'i ystyried wrth ddewis opsiynau a dylunio'r prosiect, polisi neu raglen derfynol. Rhaid i bob prosiect, polisi a rhaglen ddarparu arfarniad llesiant integredig ar wahân sy'n esbonio'r effeithiau y gallai eich prosiect eu cael ar lesiant a pha gamau rydych eisoes wedi'u cymryd fel rhan o'r broses ddylunio er mwyn lleihau neu osgoi unrhyw effeithiau niweidiol. Yn achos prosiectau llai cymhleth, gall yr arfarniad hwn fod yn un byr.

Mae'r adran sy'n ymdrin â fforddiadwyedd yn darparu costau mwy manwl gywir ar gyfer eich rhaglen neu brosiect gan gynnwys costau cyfalaf a refeniw byrdymor a hirdymor.

Mae'r adran sy'n ymdrin â chyflawni yn esbonio sut y cyflawnir eich rhaglen neu brosiect, a sut y gellir defnyddio'r broses dendro neu gaffael i sicrhau rhai o fanteision llesiant ehangach y rhaglen neu'r prosiect, megis sgiliau, diogelu bioamrywiaeth neu fuddion cymunedol.

Yn olaf, fel rhan o'r achos busnes, dylech nodi eich cynlluniau ar gyfer gwerthuso eich rhaglen neu brosiect a sut y byddwch yn mesur llwyddiant.

Mae adran 3 yn rhoi rhagor o fanylion am bum dimensiwn achos busnes ac mae adran 4 yn rhoi canllawiau pellach ar gynnal arfarniad llesiant integredig.

## Cam 4 cyflawni

**Os byddwch yn llwyddo i gael cyllid, mae pedwerydd cam WelTAG yn cynnwys cyflawni'r prosiect, y polisi neu'r rhaglen. Dylai'r achos busnes llawn eisoes esbonio sut y caiff y prosiect ei gyflawni a'i reoli.**

Yn achos prosiectau mwy o faint megis prosiectau ffyrdd neu reilffyrdd neu raglenni neu brosiectau sy'n cynnwys gwelliannau sylweddol i seilwaith neu seilwaith newydd, bydd y cam hwn yn cynnwys gwaith dylunio manwl ychwanegol, gan gynnwys paratoi manylebau manwl (gweler adran 5).

Bydd hefyd yn cynnwys cael y caniatadau statudol neu'r cymeradwyaethau rheoleiddiol perthnasol ac unrhyw ymchwiliadau cyhoeddus. Bydd y cam hwn hefyd yn cynnwys caffael prosiectau, gan gynnwys manylebau manwl a threfniadau contractio.

Bydd y gwaith o gyflawni'r rhaglen neu'r prosiect ei hun yn cynnwys rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer goruchwylio a rheoli'r rhaglen neu'r prosiect gan gynnwys cydymffurfiaeth a monitro costau.

Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer cyflawni'r rhaglen neu'r prosiect.

Nid oes angen cynnal gwerthusiad llawn ar gyfer pob prosiect trafnidiaeth. Yn achos prosiectau sy'n defnyddio WelTAG byr, dylai adroddiad cynnydd blynyddol (gweler uchod) ddarparu digon o wybodaeth am y ffordd y gwnaethoch gyflawni eich amcanion. Rhaid i brosiectau sy'n defnyddio WelTAG manwl (gan gynnwys prosiectau mawr, ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys dulliau cyflawni arloesol neu brosiectau sy'n rhan o raglen ehangach) ddarparu gwerthusiad llawn o'r prosiect ar ôl i'r prosiect neu'r rhaglen gael ei gwblhau (chwblhau).

## Cam 5 Monitro a gwerthuso

**Os byddwch wedi cael arian grant gennym, byddwn yn gofyn ichi gyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol rheolaidd er mwyn sicrhau bod y rhaglen neu'r prosiect yn cyrraedd cerrig milltir ac y cyflawnir y rhaglen neu'r prosiect mewn modd effeithiol ac effeithlon. Efallai y bydd angen ichi ddarparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'ch noddwr neu eich uwch-dîm.**

Mae adroddiad cynnydd blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y mae eich rhaglen neu brosiect wedi'i gyflawni. Mae cynnwys adroddiad cynnydd blynyddol yn fersiwn llai manwl o adroddiad gwerthuso llawn. Mae'n rhoi manylion am eich prosiect ac unrhyw newidiadau iddo a sut y gwnaethoch roi eich cynllun ymgysylltu ar waith ac yn esbonio pa wahaniaeth a wnaeth eich prosiect i bobl, yr hyn a weithiodd yn dda, yr hyn na weithiodd yn dda a'r gwersi a ddysgwyd gennych ar gyfer y dyfodol.

Fel cyllidwyr eraill, rydym yn deall y gall pethau newid tra bo rhaglenni neu brosiectau'n cael eu cyflawni, gan gynnwys risgiau nas rhagwelwyd. O ganlyniad, efallai y bydd angen ichi ddiwygio eich rhaglen neu brosiect. Nodwch unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl. Gall cyflwyno diweddariadau rheolaidd inni yn ystod eich prosiect, yn ogystal ag adroddiadau cynnydd blynyddol, helpu i nodi problemau yn gynnar.

Yn achos prosiectau mwy o faint a mwy cymhleth, y cam olaf yw gwerthuso ac adolygu'r prosiect ar ôl iddo gael ei gyflawni.

**Monitro** yw'r broses o gasglu data a fydd yn eich galluogi i asesu a yw'r rhaglen neu'r prosiect wedi cyflawni'r hyn yr oeddech yn bwriadu ei gyflawni. Ar y llaw arall, gwerthuso yw'r broses o asesu dyluniad ymyriad, y ffordd y caiff ei roi ar waith a'i ganlyniadau yn systematig, er mwyn deall ei effeithiau a'r hyn y gellir ei wella. Mae'n gyfle i edrych yn ôl ar ba wahaniaeth a wnaeth eich rhaglen neu brosiect a pha wersi y gellid eu dysgu i'r dyfodol a, gobeithio, roi cyngor 'rhwng cymheiriaid' i eraill. Mae gwybodaeth o adroddiadau gwerthuso hefyd yn ein helpu i fireinio ein prosesau grantiau ar gyfer y dyfodol.

Nid oes angen cynnal gwerthusiad llawn ar gyfer pob prosiect trafnidiaeth. Yn achos prosiectau sy'n defnyddio WelTAG byr, dylai adroddiad cynnydd blynyddol (gweler uchod) ddarparu digon o wybodaeth am y ffordd y gwnaethoch gyflawni eich amcanion. Rhaid i brosiectau sy'n defnyddio WelTAG manwl (gan gynnwys prosiectau mawr, ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys dulliau cyflawni arloesol neu brosiectau sy'n rhan o raglen ehangach) ddarparu gwerthusiad llawn o'r prosiect ar ôl i'r prosiect neu'r rhaglen gael ei gwblhau (chwblhau). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y gwnaeth y rhaglen neu'r prosiect ei gyflawni (allbynnau) yn ogystal â'r canlyniadau neu'r gwahaniaeth a wnaeth eich prosiect. Rhaid i brosiectau sy'n defnyddio WelTAG manwl gynnwys cynllun gwerthuso ag achos busnes llawn cam 3.

Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhestr wirio ar gyfer yr adroddiad cynnydd blynyddol a'r cynllun gwerthuso. Bydd y Canllawiau Technegol yn cynnwys rhagor o fanylion am gynnwys pob un.

## Mynd yn ôl gam

Gall prosiectau, polisïau a rhaglenni trafnidiaeth fod yn fawr ac yn gymhleth a chymryd amser. Yn aml, mae amgylchiadau yn newid yn ystod y broses o gynllunio'r prosiect. Weithiau, gallwch ddarparu ar gyfer y newidiadau hynny drwy addasu'r prosiect. Os bydd y newid mewn amgylchiadau yn peri risg sylweddol i lwyddiant y prosiect, efallai y bydd angen ailystyried y rhaglen neu'r prosiect.  Os felly, peidiwch â bod ofn mynd gam yn ôl. Dylech adolygu'r rhestr hir o opsiynau neu hyd yn oes ailystyried achos dros newid cam 0. Gall y ffaith bod gennych syniad clir o b'un a yw'r rhesymau pam mae angen ichi weithredu yr un peth neu a ydynt wedi newid ac ai eich amcanion yw'r rhai cywir o hyd neu a ydynt bellach yn annilys, eich helpu i ailasesu eich opsiynau a'ch cynllun terfynol. Efallai y bydd angen ichi fynd gam yn ôl hefyd os bydd mwy na phum mlynedd wedi mynd heibio ers i waith cynllunio gael ei gwblhau.

# Adran 3
## Achos busnes WelTAG

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am bum dimensiwn achos busnes WelTAG i'ch helpu i ddatblygu rhaglen neu brosiect trafnidiaeth sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru.

# Adran 3: Achos busnes WelTAG

**Er y bydd gan bob ffrwd gyllido ofynion gwahanol, mae rhai egwyddorion cyffredin ar gyfer achos busnes da. Fe'u nodir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM, Canllawiau Trysorlys EM ar achosion busnes ar gyfer prosiectau, Canllawiau Trysorlys EM ar achosion busnes ar gyfer rhaglenni a chanllawiau'r Adran Drafnidiaeth ar achosion busnes llawn (gweler deunydd darllen pellach isod). Mae Trysorlys EM hefyd yn darparu hyfforddiant ac achrediad ym methodoleg Achosion Busnes Gwell.**

Ar y cyfan, mae WelTAG yn dilyn canllawiau'r Adran Drafnidiaeth ar achosion busnes llawn. Y gwahaniaethau allweddol yng Nghymru yw bod yn rhaid i'r dimensiwn strategol adlewyrchu blaenoriaethau strategol yng Nghymru gan gynnwys y blaenoriaethau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'r dimensiwn economaidd wedi'i ailenwi'n ddimensiwn (neu achos) llesiant er mwyn adlewyrchu'r gofyniad i ystyried llesiant mewn polisi cyhoeddus sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Os bydd angen cyllid gan Lywodraeth y DU ar eich rhaglen neu brosiect, defnyddiwch TAG. Os bydd yn ymwneud â buddsoddiad gan Lywodraeth y DU mewn rheilffyrdd, dylech ddefnyddio prosesau rheilffyrdd megis PACE neu GRIP. Fodd bynnag, os bydd angen cyllid gan Lywodraeth Cymru arnoch, rhaid ichi hefyd ddangos sut mae eich prosiect yn cydweddu'n strategol â pholisïau Llywodraeth Cymru ac yn ymdrin â llesiant yng Nghymru.

Os bydd angen cyllid gan Lywodraeth y DU ar eich rhaglen neu brosiect, defnyddiwch TAG. Os bydd yn ymwneud â buddsoddiad gan Lywodraeth y DU mewn rheilffyrdd, dylech ddefnyddio prosesau rheilffyrdd megis PACE neu GRIP. Fodd bynnag, os bydd angen cyllid gan Lywodraeth Cymru arnoch, rhaid ichi hefyd ddangos sut mae eich prosiect yn cydweddu'n strategol â pholisïau Llywodraeth Cymru ac yn ymdrin â llesiant yng Nghymru.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar wahân ar achosion busnes ond adlewyrchir pum dimensiwn achos busnes da yn y pum maen prawf gwerth am arian ar gyfer cyllido rhaglenni neu brosiectau trafnidiaeth. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

**Cydweddiad strategol** – mae'n dangos sut mae'r prosiect yn cydweddu'n strategol â'n blaenoriaethau yng Nghymru (yn TAG y dimensiwn strategol yw hwn)

**Llesiant** – yr effaith ar lesiant pobl yng Nghymru (yn TAG y dimensiwn economaidd yw hwn)

**Fforddiadwyedd** – fforddiadwyedd costau byrdymor a hirdymor y rhaglen neu brosiect (yn TAG y dimensiwn ariannol yw hwn)

**Cyflawnadwyedd** – pwy fydd yn caffael a chyflawni'r prosiect a sut (yn TAG y dimensiwn masnachol yw hwn)

**Rheoli** – sut y goruchwylir y rhaglen neu brosiect a sut y caiff risgiau eu rheoli (y dimensiwn rheoli yw hwn yn TAG)

Fel y nodwyd, rhaid i'r pum maen prawf hyn gael eu defnyddio yn ystod camau cynnar WelTAG i lywio'r achos dros newid, asesu opsiynau unigol a dewis yr opsiwn a ffefrir. Maent hefyd yn sail i'r achos busnes llawn.

## Cyn ichi gwblhau'r achos busnes

Mae ansawdd a chadernid yr achos busnes yn dibynnu ar gael disgrifiad digon manwl o'r prosiect, y rhaglen neu'r polisi. Cyn ichi gwblhau achos busnes cam 3, rhaid ichi feddu ar yr wybodaeth ganlynol (o leiaf):

- yr achos dros newid,
- y gwaith cynharach ar arfarnu opsiynau,
- disgrifiad manwl o gynllun neu ddyluniad prosiect, sy'n disgrifio'r prosiect, y rhaglen neu'r polisi a sut y caiff ei gyflawni (chyflawni),
- adroddiad arfarniad llesiant integredig wedi'i ategu gan unrhyw asesiadau effaith statudol neu reoleiddiol,
- adborth o'ch gweithgareddau ymgysylltu a chynnwys,
- cynllun gwerthuso (WelTAG manwl yn unig).

Mae'r disgrifiad manwl o gynllun neu'r dyluniad prosiect yn hanfodol. Yn achos gwasanaeth trafnidiaeth newydd, nodwch y canlyniadau a'r allbynnau – pa wasanaethau a gaiff eu darparu gan bwy ac i ba safonau? Ar gyfer prosiect cyfalaf bydd angen manyleb prosiect yn nodi dyluniad, lleoliad a llwybr unrhyw seilwaith newydd neu well. Rhaid i'r fanyleb hon ystyried canlyniadau gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, yr arfarniad llesiant ac asesiadau effaith statudol. Os bydd y prosiect, y polisi neu'r rhaglen yn cynnwys opsiynau eraill megis rhaglenni newid ymddygiad, dylech ddarparu manylion y canlyniadau - yr hyn y bydd y rhaglen yn ei gyflawni a sut y caiff ei gyflawni. Gall gynnwys manyleb ar gyfer cynnal ymgyrchoedd, gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd neu wybodaeth am ymyriadau trafnidiaeth. Ar gyfer atebion TG, nodwch ganlyniadau ac allbynnau'r prosiect.

## Cydweddiad strategol

Mae'r rhan hon o'r achos busnes yn esbonio sut mae'r cynigion yn cydweddu â blaenoriaethau strategol ehangach yng Nghymru gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth a blaenoriaethau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'n seiliedig ar achos dros newid sylfaenol cam 0 ac wrth ei gwraidd mae'r cyd-destun strategol, gan gynnwys:

- y cyd-destun strategol ar gyfer trafnidiaeth, a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, y cynllun trafnidiaeth rhanbarthol ac unrhyw flaenoriaethau trafnidiaeth lleol,
- blaenoriaethau strategol y Llywodraeth a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn nogfennau polisi eraill y Llywodraeth gan gynnwys Cymru Sero Net,
- blaenoriaethau presennol ar gyfer gwariant a nodir yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru,

- blaenoriaethau strategol lleol a rhanbarthol a nodir mewn cynlluniau lleol,
- deddfwriaeth a dyletswyddau perthnasol gan gynnwys Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- blaenoriaethau presennol y cytunwyd arnynt a nodir ar fapiau rhwydwaith teithio llesol,
- y meini prawf penodol ar gyfer unrhyw gynlluniau grant y gallwch fod yn cyflwyno cais am gyllid iddynt.

Dylech hefyd ddangos sut y bydd eich rhaglen neu brosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol neu leol, a nodir yn y cynllun datblygu lleol neu'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol sy'n cael ei ddatblygu, ac yn cyfrannu atynt.

Mae'n bwysig peidio ag ystyried trafnidiaeth ar ei ben ei hun. Felly, mae'n ddefnyddiol deall tri chyd-destun strategol cysylltiedig, sef trafnidiaeth, lle a phobl.

Ar gyfer **trafnidiaeth**, nodir y cyd-destun strategol yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac unrhyw gynlluniau trafnidiaeth lleol neu ranbarthol. Mae hefyd yn bwysig deall cyd-destun strategol y DU gyfan os byddwch yn ymdrin â dulliau teithio megis rheilffyrdd, trafnidiaeth forol neu hedfanaeth nad ydynt wedi'u datganoli i Gymru. Efallai y bydd angen ichi hefyd ddeall data a phatrymau trafnidiaeth presennol.

Mae a wnelo **lle** â deall y lleoedd cenedlaethol, rhanbarthol neu leol a allai gael budd o'ch ymyriad trafnidiaeth. Bydd y cynllun datblygu lleol neu Cymru'r Dyfodol yn helpu i roi'r cyd-destun cynllunio defnydd tir a seiliedig ar leoedd ehangach ar gyfer trafnidiaeth.

Yn olaf, mae a wnelo **pobl** â deall y cyd-destun strategol ar gyfer pobl a chymunedau y gallai eich rhaglen neu brosiect arfaethedig effeithio arnynt neu a allai gael budd o'r prosiect hwnnw. Mae hyn yn cynnwys deall y cyd-destun cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach megis amddifadedd economaidd-gymdeithasol neu broblemau iechyd sy'n llywio bywydau pobl yn eich ardal.

## Amseru

Ystyriwch gydweddiad strategol fel rhan o achos dros newid cam 0 ac yn ystod proses nodi opsiynau cam 1 a cham 2 yn ogystal ag yn yr achos busnes.

Gweler hefyd y rhestrau gwirio ar gyfer achosion busnes yn yr Atodiad. Bydd y Canllawiau Technegol yn cynnwys templedi ar gyfer asesu opsiynau yn erbyn cydnawsedd strategol, gan gynnwys manylion y ffordd maent yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

## Llesiant

### Mae'r adran hon o'r achos busnes yn nodi effaith ehangach eich rhaglen neu brosiect ar lesiant.

Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer ystyried llesiant a dyna'r sail i'r achos economaidd yng Nghymru. Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn dangos sut y gall trafnidiaeth gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant drwy bedwar uchelgais llesiant hirdymor – yn dda i bobl a chymunedau, yn dda i'r amgylchedd, yn dda i leoedd a'r economi ac yn dda i ddiwylliant a'r Gymraeg.

Dylai'r achos busnes llawn esbonio sut y bydd eich rhaglen neu brosiect yn cyfrannu at lesiant. Dylai grynhoi'r arfarniad llesiant integredig mwy manwl.

Mae arfarniad llesiant integredig yn defnyddio mesurau meintiol ac ansoddol i asesu effeithiau ar lesiant mewn ffordd strwythuredig, yn seiliedig ar y pedwar uchelgais yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Nodir y rhain yn y fframwaith arfarniadau llesiant integredig.  Mae bron yn sicr y bydd angen iddo gael ei ategu gan yr asesiadau effaith statudol a rheoleiddiol perthnasol.

Ceir canllawiau pellach ar gynnal arfarniad llesiant integredig yn adran 4 isod.

**Mae'n arbennig o bwysig ei ategu â data da, yn enwedig os na fyddwch yn darparu gwaith modelu cost a budd ychwanegol. Mae'r fframwaith arfarniadau llesiant integredig yn darparu mesurau meintiol ac ansoddol. Mae'r mesurau hynny yn cynnwys y targedau ar gyfer trafnidiaeth yn Cymru Sero Net.  Rhaid ichi ddangos sut y bydd eich rhaglen neu brosiect yn cyfrannu at gyflawni'r targedau hyn.**

## Amseru

Peidiwch ag aros i ystyried llesiant nes ichi orffen dylunio eich rhaglen neu brosiect. Dylech ddechrau ystyried llesiant ar y cam cynharaf yn y broses o ddatblygu eich prosiect (cam 0 yr achos dros newid). Dylech ystyried llesiant wrth ichi fynd drwy'r broses arfarnu opsiynau a dileu opsiynau nad ydynt yn cyfrannu at lesiant. Fel y nodwyd uchod, dylech gwblhau asesiadau effaith statudol mwy manwl cyn ichi ysgrifennu eich achos busnes.  Bydd hyn yn sicrhau, erbyn ichi gwblhau achos busnes cam 3, y byddwch yn gallu dangos sut rydych wedi ystyried llesiant wrth ddylunio eich prosiect. Byddwch hefyd yn gallu esbonio sut y bydd eich rhaglen neu brosiect yn cyfrannu at lesiant a sut rydych wedi ymdrin ag unrhyw achosion posibl o wrthdaro.

Ceir rhagor o wybodaeth am gynnal arfarniad llesiant integredig yn adran 4 isod. Gweler hefyd y rhestrau gwirio ar gyfer achosion busnes yn Atodiad 2.

## Fforddiadwyedd

**Mae'r adran hon o'r achos busnes yn canolbwyntio ar fforddiadwyedd y cynllun gan gynnwys costau byrdymor a hirdymor, trefniadau cyllido a materion cyfrifyddu technegol.**

Yn TAG fe'i gelwir yn achos ariannol. Mae'n ymdrin â gofynion cyfalaf a refeniw dros oes y rhaglen neu brosiect a'u goblygiadau i fantolen, incwm a chyfrifon gwariant sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

Fel y nodwyd, rhaid ichi lunio disgrifiad manwl o gynllun neu ddyluniad prosiect cyn i adran fforddiadwyedd yr achos busnes gael ei chwblhau. Dylai'r rhain nodi'r allbynnau gofynnol yn ddigon manwl er mwyn ichi allu cynnal asesiadau cadarn o gostau byrdymor a hirdymor tebygol y cynllun.

Dylech nodi costau cyfalaf cychwynnol y rhaglen neu brosiect a'r costau refeniw dros oes y rhaglen neu brosiect, gan gynnwys costau cynnal a chadw a rheoli seilwaith a chostau parhaus darparu gwasanaeth. Dylai'r costau hynny gynnwys costau gweinyddol, costau adnoddau a chostau cyfalaf dros oes gyfan y rhaglen neu brosiect.

Mewn perthynas â'r costau dros oes y rhaglen neu brosiect, esboniwch pryd y byddant yn codi. Nodwch y pris ar yr adeg y byddant yn codi gan ddarparu ar gyfer chwyddiant a phwy fydd yn talu pa gostau a phryd, gan gynnwys rhwymedigaethau o ran gwaith cynnal a chadw. Rhaid i'r costiadau nodi'r symiau sydd wedi'u darparu ar gyfer hapddigwyddiadau a risgiau. Os yw'n bosibl, dylid mabwysiadu dull costio oes gyfan gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig ag ailddefnyddio adnoddau a'u gwaredu ar ddiwedd eu hoes. Rhaid nodi'r costau sy'n gysylltiedig â sicrhau a darparu manteision llesiant hefyd, gan gynnwys effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

Rhaid nodi unrhyw fwlch cyllido yn glir. Dylech nodi ffynonellau posibl o gyllid allanol sy'n gwneud iawn am ddiffygion cyfalaf a refeniw a'r gofynion a'r meini prawf ar gyfer y cyrff cyllido hynny. Dylid nodi risgiau sy'n effeithio ar lefel ac amseriad incwm gan drydydd partïon, megis incwm o werthu tocynnau teithio. Os bydd y ffrydiau refeniw hyn yn dod o'r sector preifat, dylai fod cysylltiadau â'r achos dros gyflawnadwyedd (isod)

Dylid nodi'r ffynhonnell o gyllid. Rhaid ichi nodi o ble y daw'r arian ar wahanol gamau'r prosiect, gan gynnwys ffynonellau cyfalaf a refeniw, yn ogystal ag unrhyw ofynion tebygol gan y corff cyllido.

Os bydd cyllid yn cynnwys benthyca, esboniwch pa mor gadarn yw'r trefniant ac unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig ag ad-dalu'r benthyciad a thalu llog. Nodi unrhyw oblygiadau o ran cyfrifyddu.

## Amseru

Er y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith manwl ar gostiadau yn cael ei wneud yn nes ymlaen yn y broses gynllunio, rhaid ystyried fforddiadwyedd ar y dechrau.

Rhaid i gam 0 yr achos dros newid ystyried unrhyw ffynonellau posibl o gyllid a'r fforddiadwyedd tebygol, ond mewn amlinelliad yn unig. Wrth i'r prosiect symud drwy broses arfarnu opsiynau cam 1 a cham 2, defnyddiwch fforddiadwyedd i leihau nifer yr opsiynau. Rhaid i achos busnes cam 3 gynnwys costau manylach a mwy cadarn ar gyfer y rhaglen neu brosiect. Yn ystod cam cyflawni'r prosiect (cam 4), rhaid ichi reoli costau gan gynnwys ymdrin ag unrhyw hapddigwyddiadau, risgiau neu brosesau nas rhagwelwyd. Ar gam 5, dywedwch wrthym am unrhyw newidiadau i gostau yn yr adroddiadau cynnydd blynyddol.

Bydd y Canllawiau Technegol yn cynnwys rhagor o ganllawiau a thempledi ar gyfer nodi costau prosiect. Gweler hefyd y rhestrau gwirio i reolwyr prosiect yn Atodiad 2.

## Cyflawnadwyedd

### Mae'r adran hon o'r achos busnes yn esbonio sut y cyflawnir y rhaglen neu brosiect a chan bwy.

Yn TAG yr achos masnachol yw hwn. Mae'n nodi dichonoldeb y prosiect a'r strategaeth gaffael a ddefnyddir i ymgysylltu â'r farchnad.

Mae'r adran hon yn esbonio a fydd cynllun yn ddichonadwy, a fydd yn bosibl caffael y cynllun ac yna barhau ag ef yn y dyfodol. Mae'n ystyried sut y gellid cynnwys y sector preifat ym mhob opsiwn. Os caiff y sector preifat ei gynnwys, mae hefyd yn ystyried materion megis trefniadau cytundebol a threfniadau staffio a'r ymrwymiad i Waith Teg.

Os bydd angen caniatâd cynllunio neu ganiatadau statudol eraill ar y cynllun hefyd, dylai esbonio sut yr ymdrinnir â'r rhain a sut y caiff unrhyw newidiadau posibl i'r prosiect neu'r rhaglen eu hystyried (gweler adran 6).

Fel y nodwyd uchod dim ond ar ôl i lunio cynllun eithaf manwl (neu bolisi, neu ddisgrifiad o raglen neu ddyluniad prosiect) y gellir ei gwblhau.

Ar gyfer prosiectau neu becynnau o waith, mae'n bwysig nodi'r strategaeth gaffael. Mae hyn esbonio sut y caiff y prosiect ei gaffael a sut y telir amdano ac yn nodi manylion y materion cytundebol, gan gynnwys hyd y contract a sut y caiff ei reoli a sut y byddwch yn sicrhau'r effeithiau a'r manteision ehangach. Mae hefyd yn nodi materion sy'n ymwneud â risg, gan gynnwys pwy fydd yn mynd i'r afael â risgiau sy'n ymwneud â'r galw, caniatâd cynllunio neu argaeledd refeniw. Mae hefyd yn nodi ffyrdd o roi cymhelliant ar gyfer perfformiad, effeithlonrwydd ac arloesi.  Yn achos polisïau a rhaglenni, rhaid ichi hefyd esbonio sut y cânt eu cyflawni.

Rhaid i adran cyflawnadwyedd yr achos busnes ymdrin ag

- unrhyw ofynion ar gyfer caniatâd cynllunio neu ganiatadau a chytundebau eraill
- y strategaeth gaffael gan gynnwys eich opsiynau caffael,
- dulliau talu a fframwaith prisio,
- dosbarthu a throsglwyddo risg
- hyd y contract, rheoli'r contract a chymalau allweddol

Esboniwch sut y sicrheir y manteision llesiant. Er enghraifft, os byddwch yn disgwyl i'r sefydliad sy'n cyflawni eich prosiect gynnwys elfen o fudd cymunedol megis prentisiaethau newydd neu hyfforddiant a sgiliau, sut y cânt eu sicrhau? Pa drefniadau contractio a gaiff eu rhoi ar waith i sicrhau manteision cymunedol neu amgylcheddol, manteision o ran dyluniad neu fanteision eraill a sut y caiff y manteision hynny eu sicrhau?

Dylai'r adran hon hefyd esbonio'r agweddau ar y prosiect, y rhaglen neu'r pecyn o waith sy'n ymwneud â'i gyflawni (chyflawni) a'i (g)weithredu yn yr hirdymor.  Pwy fydd yn gyfrifol am ddarparu unrhyw wasanaethau newydd? Sut y caiff unrhyw seilwaith newydd ei gynnal a'i gadw a'i weithredu a gan bwy? Sut y caiff y mesurau newid ymddygiad eu rhoi ar waith, gan bwy?

Pe gallai'r prosiect, y polisi neu'r rhaglen effeithio ar fioamrywiaeth neu gydnerthedd ecosystemau, er enghraifft, sut y byddwch yn sicrhau y bydd y contractwyr neu'r partneriaid llwyddiannus yn sicrhau'r manteision hynny i safon briodol? Pwy fydd yn ei fonitro ac yn ei oruchwylio?

Gweler hefyd y rhestr wirio ar gyfer achosion busnes yn Atodiad 2. Bydd y Canllawiau Technegol yn cynnwys templed ar gyfer adran cyflawni'r achos busnes.

## Amseru

Dim ond pan fydd achos clir dros newid wedi'i lunio ac adolygiad cychwynnol o opsiynau wedi'i gynnal y gellir cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith ar gyflawnadwyedd. Fodd bynnag, yn achos prosiectau seilwaith cymhleth, efallai bydd angen cynnal adolygiadau dichonoldeb o wahanol opsiynau a gwneud gwaith penodol mewn perthynas â chaniatâd cynllunio (gweler adran 6 isod).  Dylai gwaith manylach ar gyflawnadwyedd fynd rhagddo ynghyd â gwaith ar gostiadau gan y bydd cysylltiad agos rhyngddynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig i ddeall goblygiadau refeniw hirdymor unrhyw wasanaethau, cyfleusterau neu seilwaith newydd.

## Rheoli

**Mae a wnelo'r rhan hon o'r achos busnes â'r ffordd y caiff rhaglenni a phrosiectau eu rheoli a'u cyflawni.**

Mae'n rhoi sicrwydd inni y gellir cyflawni eich rhaglen neu brosiect ac y gallwch chi a'r partneriaid wneud hynny.

Unwaith eto, ni ellir cwblhau'r adran hon o'r achos busnes oni fyddwch wedi llunio disgrifiad manwl o gynllun neu ddyluniad prosiect a bod yr adrannau eraill o'r achos busnes gan gynnwys yr adrannau ar fforddiadwyedd a chyflawni hefyd wedi'u cwblhau.

Mae'r adran hon o'r achos busnes yn ymdrin â chynllunio, llywodraethu, rheoli risg, cyfathrebu a rheoli rhanddeiliaid a'r ffordd y byddwch yn gwneud yn siŵr bod manteision yn cael eu darparu. Rhaid iddi nodi'r canlynol:

- y rhaglen neu'r prosiect a'r hyn a gaiff ei gyflawni gan gynnwys pecynnau gwaith ac amseriadau,
- pa drefniadau rydych wedi'u gwneud ar gyfer grŵp adolygu prosiect ac aelodau'r grŵp.
- cerrig milltir a phwyntiau penderfynu,
- sut y caiff gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid ei reoli yn ystod cam cyflawni'r prosiect,
- rheoli risg – pa risgiau y byddwch chi'n gyfrifol am eu rheoli a pha risgiau y bydd eich partner cyflawni yn gyfrifol am eu rheoli
- trefniadau llywodraethu'r rhaglen neu'r prosiect,
- trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso'r rhaglen neu'r prosiect,
- sut y caiff gofynion o ran gweithrediadau a gwaith cynnal a chadw eu rheoli yn y dyfodol,
- unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch data a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rhaglen neu'r prosiect a'r ffordd y cânt eu rheoli gan gynnwys cydymffurfiaeth.

Nodwch y dylai hyn gynnwys rheoli unrhyw waith sy'n cael ei wneud neu unrhyw wasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd, yn ogystal â rheoli prosesau cyflawni sy'n mynd rhagddynt.

Rhaid i'r adran hon hefyd nodi trefniadau ar gyfer pwyntiau penderfynu ac adolygiadau porth. Er enghraifft, os bydd graddfa'r prosiectau neu'r costau yn newid, pwy fydd yn gwneud penderfyniadau?

Esboniwch sut y caiff y prosiect, y polisi neu'r rhaglen ei fonitro (monitro) neu ei (g)werthuso. Rhaid i brosiectau risg is, llai o faint sy'n defnyddio WelTAG byr ddarparu adroddiadau cynnydd blynyddol tra bod yn rhaid i brosiectau risg uwch, mwy o faint sy'n defnyddio WelTAG safonol ddarparu cynllun gwerthuso llawn.

Nodwch broses rheoli risg sy'n esbonio sut y caiff risgiau eu nodi a sut yr ymdrinnir â nhw a pha drefniadau wrth gefn sydd ar waith ar gyfer ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid.

Gweler hefyd restr wirio'r achos busnes i reolwr y prosiect yn Atodiad 2. Bydd y Canllawiau Technegol yn rhoi rhagor o gyngor ar gwblhau'r adran hon o'r achos busnes.

## Amseru

Er ei bod yn bwysig meddwl am y ffordd y rheolir rhaglen neu brosiect ar gamau cynharach, ni ellir cwblhau'r rhan fwyaf o'r achos busnes nes y bydd cynllun wedi'i ddatblygu'n dda a nes y bydd yr arfarniadau wedi'u cynnal, y problemau o ran cyflawni wedi'u hystyried a'r union gostau wedi'u nodi.

# Adran 4
## Arfarniad llesiant integredig

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r arfarniad llesiant integredig ar gyfer rhaglenni a phrosiectau trafnidiaeth yng Nghymru.

# Adran 4: Arfarniad llesiant integredig

**Rhaid i bob rhaglen neu brosiect trafnidiaeth a ariennir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru ddarparu manteision llesiant i bobl yng Nghymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

Yr adnodd allweddol ar gyfer gwneud hyn yw'r arfarniad llesiant integredig (yr adroddiad ar asesiad integredig gynt). Mae arfarniad llesiant integredig yn ddull strwythuredig trylwyr o feithrin dealltwriaeth o effaith rhaglen neu brosiect ar lesiant. Mae'n cynnwys asesiad cynhwysfawr o effeithiau posibl prosiect ar lesiant, a gynhelir gan ddefnyddio gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Wedyn, defnyddir yr wybodaeth honno i sicrhau manteision a dileu unrhyw effeithiau niweidiol posibl drwy waith dylunio ar bob cam o broses WelTAG.

Rhaid i bob rhaglen, polisi a phrosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru gynnwys arfarniad llesiant integredig fel rhan o'r achos busnes.
Mae arfarniad llesiant integredig yn gofyn pedwar cwestiwn allweddol, sef:

- Ym mha ffordd y bydd y rhaglen neu brosiect o fudd i bobl a chymunedau?
- Ym mha ffordd y bydd o fudd i'r amgylchedd?
- Ym mha ffordd y bydd o fudd i leoedd a'r economi?
- Ym mha ffordd y bydd o fudd i ddiwylliant a'r Gymraeg?

Mae'r pedwar cwestiwn hyn yn ymdrin â'r pedwar uchelgais yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r nodau manylach ar gyfer cydraddoldeb, iechyd, diogelwch, allyriadau carbon, bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gwastraff, creu lleoedd, arloesi, cludo nwyddau, y Gymraeg, diwylliant a'r amgylchedd hanesyddol, yn ogystal â'r targedau penodol ar gyfer newid dulliau teithio.

Nid yw arfarniad llesiant integredig yn dileu'r angen i gynnal asesiadau statudol eraill nac asesiad effaith rheoleiddiol, gan gynnwys asesiadau amgylcheddol, asesiadau cynefinoedd, asesiadau o ran y Gymraeg, treftadaeth ac iechyd neu asesiadau eraill. Fodd bynnag, dylai grynhoi canfyddiadau'r asesiadau effaith hynny er mwyn rhoi darlun cyffredinol o'r ffordd y bydd y prosiect, y rhaglen neu'r polisi yn ymdrin â llesiant.

Mae arfarniad llesiant integredig yn ddull strwythuredig trylwyr o feithrin dealltwriaeth o effaith rhaglen neu brosiect ar lesiant. Mae'n cynnwys asesiad cynhwysfawr o effeithiau posibl prosiect ar lesiant, a gynhelir gan ddefnyddio gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Wedyn, defnyddir yr wybodaeth honno i sicrhau manteision a dileu unrhyw effeithiau niweidiol posibl drwy waith dylunio ar bob cam o broses WelTAG.

**Ffigur 8:** Arfarniad llesiant yn WelTAG

## Achos Busnes Trafnidiaeth Llawn

▲

### Y bennod ar lesiant

Mae'n esbonio sut mae materion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a materion seiliedig ar leoedd wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r prosiect, y polisi neu'r rhaglen neu'r pecyn o waith a pha fanteision a fydd yn deillio ohono (ohoni)

▲

### Arfarniad Llesiant Integredig

Adroddiad mwy manwl ar sut yr ymdriniwyd â'r uchelgeisau a'r targedau ar gyfer llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Fe'i hategir gan wybodaeth ansoddol a meintiol gadarn ac mae'n seiliedig ar y fframwaith arfarniadau llesiant integredig

▲

| A yw'r prosiect yn dda i bobl a chymunedau? | A yw'r prosiect yn dda i'r amgylchedd? | A yw'r prosiect yn dda i'r amgylchedd? | A yw'r prosiect yn dda i leoedd a'r economi? |
|---|---|---|---|
| Cydraddoldeb – sut y bydd yn mynd i'r afael â'r rhwystrau ffisegol, cymdeithasol ac economaidd a'r rhwystrau eraill i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus? | Sut y bydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn cyfrannu at newid dulliau teithio? | Ym mha ffordd y bydd o fudd i leoedd, ardaloedd gwledig ac yn darparu swyddi da? | Sut y bydd yn effeithio ar y Gymraeg? |
| Iechyd – sut y bydd yn gwella lefelau gweithgarwch ac ansawdd aer? | Ym mha ffordd y bydd o fudd i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau? | Pa ddatblygiadau arloesol o ran trafnidaeth gynaliadwy y bydd y neu darparu? Sut y caiff nwyddau eu dosbarthu mewn ffordd fwy cynaliadwy? | Sut y bydd yn gwella mynediad at y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon drwy drafnidiaeth gyhoeddus? |
| Sut y bydd yn gwella diogelwch a hyder? | Sut y bydd yn lleihau gwastraff? | Yr effaith ar fforddiadwyedd ac anfantais economaidd-gymdeithasol | Ym mha ffordd y bydd o fudd i dreftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol? |

▲

### Asesiadau effaith statudol a rheoleiddiol (yn ôl yr angen)

Asesiad o'r effaith amgylcheddol (gan gynnwys priddoedd, dŵr, bioamrywiaeth) Asesiadau rheoliadau cynefinoedd Effeithiau ar gydraddoldeb – economaidd-gymdeithasol, iechyd, nodweddion gwarchodedig, pobl ifanc Effeithiau ar leoedd (treftadaeth, tirlun, tirwedd)

Dylai cynnwys adroddiad arfarniad llesiant integredig ymdrin â phob un o'r cwestiynau, gan ddangos y canlynol:

- sut mae llesiant wedi'i integreiddio yn nyluniad y prosiect o'r camau cynharaf,
- sut y bydd y prosiect, y polisi neu'r rhaglen yn darparu manteision llesiant
- sut mae unrhyw effeithiau negyddol posibl wedi cael eu hosgoi neu eu lleihau
- sut y caiff manteision llesiant eu sicrhau yn ystod cam cyflawni'r prosiect a'u monitro neu eu gwerthuso wedyn
- sut mae pobl wedi'u cynnwys yn y broses a sut mae adborth wedi'i ystyried.

Dylai'r asesiad fod yn drylwyr ac yn wrthrychol, ac wedi'i ategu gan y data perthnasol. Daw rhywfaint o'r data hynny o asesiadau effaith statudol a'r amrywiaeth o fesurau, nodau a thargedau yn y fframwaith. Daw data eraill o waith modelu trafnidiaeth neu faterion megis ansawdd aer neu astudiaethau iechyd. Dylech hefyd ddefnyddio ffynonellau data eraill gan gynnwys y data a'r tueddiadau a nodir yn adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyhoeddir canllawiau manylach ar yr arfarniad llesiant integredig, gan gynnwys tablau effeithiau, yn y Canllawiau Technegol.

## Y fframwaith arfarniadau llesiant integredig

### Mae arfarniad llesiant integredig yn defnyddio set o fesurau ansoddol a meintiol yn y fframwaith arfarniadau llesiant integredig.

Y mesurau ansoddol yw'r nodau manylach a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru o dan bob uchelgais llesiant gan gynnwys cydraddoldeb, iechyd, hyder a'r amgylchedd a mwy. Mae'r mesurau meintiol yn cynnwys y targedau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Cymru Sero Net. Dylid cynnwys data o asesiadau effaith statudol a rheoleiddiol hefyd.

**Ffigur 9:** Crynodeb o'r fframwaith arfarniadau llesiant integredig

| 'Mesurau' ansoddol | | Mesurau meintiol | |
|---|---|---|---|
| **Strategaeth Drafnidiaeth Cymru uchelgeisiau llesiant** | amcanion llesiant | Targedau a safonau perfformiad | Ffynonellau data |
| **Yn dda i bobl a chymunedau** | Cydraddoldeb<br>Iechyd (sŵn, ansawdd aer, lefelau gweithgarwch)<br>Diogelwch a hyder | Cyfraniad at dargedau ar gyfer newid dulliau teithio a datgarboneiddio yn Cymru Sero Net a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru<br><br>+<br><br>Mesurau perthnasol o fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru | Adroddiadau llesiant lleol<br><br>Data ac adborth defnyddwyr trafnidiaeth<br><br>Modelau trafnidiaeth rhanbarthol<br><br>Data o asesiadau effaith rheoleiddio a statudol (ecoleg, treftadaeth, tirwedd, dŵr, priddoedd, ansawdd aer, cydraddoldeb) |
| **Yn dda i'r amgylchedd** | Datgarboneiddio<br>Bioamrywiaeth<br>Gwastraff | | |
| **Yn dda i leoedd a'r economi** | Creu lleoedd<br>Yr economi | | |
| **Yn dda i ddiwylliant a'r Gymraeg** | Y Gymraeg Y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant<br>Yr amgylchedd hanesyddol | | |

## Y defnydd o gymarebau cost a budd yng Nghymru

**Mae cymhareb cost a budd yn mynegi effeithiau a manteision mewn termau ariannol. Cyfrifiad ydyw sy'n cymharu costau cynllun â manteision mewn termau ariannol. Fel y nodwyd uchod, ni fydd angen cyfrifiadau cost a budd ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau unigol yng Nghymru.**

Yn lle hynny, bydd arfarniad llesiant integredig trylwyr a chadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n defnyddio'r mesurau yn y fframwaith arfarniadau llesiant integredig a thystiolaeth o asesiadau effaith statudol, yn ddigon. Dylai'r fframwaith arfarniadau llesiant integredig hwnnw gael ei ategu gan ddata ansoddol a meintiol. A lle y ceir gwrthdaro rhwng nodau llesiant, dylai'r fframwaith arfarniadau llesiant integredig ddangos sut mae wedi'i ddatrys yn nyluniad y rhaglen neu brosiect. Dylai hyn gael ei ategu gan fanylion costau'r rhaglen neu brosiect, nawr ac yn y dyfodol, a nodir yn adran fforddiadwyedd yr achos busnes.

Efallai y bydd nifer bach o brosiectau mawr, cymhleth sy'n cynnwys symiau sylweddol o arian cyhoeddus, yn ategu'r fframwaith arfarniadau llesiant integredig â chyfrifiadau cost a budd manylach. Mae'n debygol y bydd angen cyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar lawer o'r prosiectau

hyn. Felly, bydd angen iddynt gydymffurfio â gofynion UK TAG yn ogystal â WelTAG.

Fodd bynnag, os bydd angen cyllid gan Lywodraeth Cymru ar brosiectau, bydd angen dwy set o gymarebau cost a budd, un sy'n cynnwys amseroedd teithio byrrach fel mantais ac ail un sy'n hepgor y manteision a sicrheir gan amseroedd teithio byrrach.

Yn ogystal, dylid nodi arbedion amser â'u gwerth ariannol ar wahân i ddangos dosbarthiad yr arbedion amser (er enghraifft 0-2 munud, 2-5 munud a thros 5 munud). Bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i weld dosbarthiad y manteision ar wahân, a'u helpu i wneud penderfyniadau ynghylch effaith yr arbedion amser wrth gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

## Rhagamcanu ar gyfer y dyfodol

Efallai y bydd nifer bach o brosiectau mawr, cymhleth sy'n cynnwys symiau sylweddol o arian cyhoeddus, yn ategu'r fframwaith arfarniadau llesiant integredig â chyfrifiadau cost a budd manylach.

Mae rhagamcanu ar gyfer y dyfodol yn golygu rhagweld tueddiadau o ran trafnidiaeth a theithio yn y dyfodol, yn seiliedig ar newidiadau disgwyliedig mewn incymau, prisiau, strwythurau demograffig, cyflogaeth, hamdden a ffactorau eraill, gan ddefnyddio'r rhagamcanion hyn i asesu anghenion o ran trafnidiaeth yn y dyfodol a'r gwerth am arian a gynigir gan wahanol ffordd o'u diwallu.

Unwaith eto, dim ond rhaglenni a phrosiectau sy'n defnyddio WelTAG manwl a ddylai ategu'r Arfarniad Llesiant integredig â rhagamcanion manylach ar gyfer y dyfodol. Dylai prosiectau sy'n defnyddio'r technegau hyn fel rhan o'r achos busnes ehangach i gyfiawnhau buddsoddiad, sicrhau bod modelau a chyfrifiadau yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cydraddoldeb (gan gynnwys iechyd), datgarboneiddio a chyfiawnder cymdeithasol.

Fodd bynnag, er nad oes angen modelu hyn yn benodol, dylai pob cynllun ystyried dyfodol tebygol system drafnidiaeth Cymru wrth ddatblygu amcanion ac arfarnu opsiynau. Dylai'r dyfodol hwn fod yn seiliedig ar Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sy'n nodi lle mae'r angen i deithio yn cael ei leihau wrth i wasanaethau gael eu digideiddio'n fwyfwy a'u darparu yn agosach at bobl, lle mae pobl yn symud fwyfwy drwy gerdded, beicio ac ar fysiau a threnau ac mae nwyddau yn cael eu cludo mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae Cymru Sero Net yn nodi dyfodol penodol lle y bydd nifer y milltiroedd car a deithir y pen yn lleihau 10% erbyn 2030 ac, yn unol â hyn, dylai'r llinell sylfaen ar gyfer y dyfodol dybio bod y defnydd o ffyrdd yn lleihau yn unol â'r targed hwn.

## Amseru

Peidiwch â'i gadael tan gamau olaf yr achos busnes cyn ystyried llesiant fel rhan o'r prosiect, y polisi neu'r rhaglen. Ystyriwch effeithiau ar lesiant a manteision llesiant ar gamau cynharaf y prosiect a defnyddiwch ystyriaethau o ran llesiant er mwyn helpu i ddewis opsiynau, dylunio'r cynllun ei hun ac ystyried costau.

**Ffigur 10:** Sut y dylid asesu llesiant ym mhob cam o WelTAG

<table>
<tr><th>‘Mesurau’ ansoddol</th><th>WelTAG safonol neu fanwl</th><th>Mesurau meintiol</th></tr>
<tr><td>Cam 0 yr achos dros newid</td><td>Dylech gynnwys canlyniadau llesiant yn yr achos dros newid.</td><td>Dylech gynnwys canlyniadau llesiant yn yr achos dros newid.</td></tr>
<tr><td>Cwmpasu rhaglen neu brosiect</td><td>Nodwch pa asesiadau effaith statudol neu reoleiddiol ychwanegol y gallai fod eu hangen.</td><td></td></tr>
<tr><td>Cam 1 achos busnes amlinellol strategol</td><td>llesiant integredig i ragweld effeithiau posibl pob opsiwn.</td><td rowspan="3">Defnyddiwch y fframwaith arfarniadau llesiant integredig i ddangos y dylanwad a gafodd llesiant wrth ddewis yr opsiwn terfynol a’i ddylunio.<br>Darparwch arfarniad llesiant integredig.</td></tr>
<tr><td>Cam 2 achos busnes amlinellol</td><td>Creu lleoedd<br>Yr economi</td></tr>
<tr><td>Cam 3 achos busnes llawn</td><td>Y Gymraeg Y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant<br>Yr amgylchedd hanesyddol</td></tr>
<tr><td>Cam 4 cyflawni</td><td>Sicrhewch fanteision llesiant mewn dogfennau contract.<br>Sicrhewch y caiff manteision llesiant eu darparu.</td><td>Sicrhewch y caiff manteision llesiant eu darparu.</td></tr>
<tr><td>Cam 5 monitro a gwerthuso</td><td>Dylech gynnwys mesurau llesiant yn yr adroddiad blynyddol ar berfformiad.<br>Canlyniadau llesiant.</td><td>Dylech gynnwys mesurau llesiant yn yr adroddiad blynyddol ar berfformiad.</td></tr>
</table>

# Adran 5
## Ymgysylltu â phobl

Mae'r adran hon yn nodi pam a sut y dylech ymgysylltu â phobl fel rhan o WelTAG a sut i ddatblygu cynllun er mwyn gwneud hynny.

# Adran 5: Ymgysylltu â phobl

**Rhaid ichi ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o broses WelTAG. Efallai y bydd angen i rai pobl neu grwpiau gael eu cynnwys (neu gyfranogi) yn uniongyrchol yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni eich rhaglen neu brosiect; efallai y bydd angen ichi ymgysylltu â rhai er mwyn deall eu safbwynt tra ei bod yn bosibl y bydd rhai yn bobl y bydd angen ichi ymgysylltu â nhw cyn y gallwch benderfynu'n derfynol ar eich prosiect.**

Mae i ymgysylltu â phobl lawer o fanteision. Gall eich helpu i wella ansawdd eich rhaglen neu brosiect ac osgoi unrhyw ganlyniadau niweidiol anfwriadol. Gall helpu eich tîm i ddylunio gwasanaethau neu seilwaith a fydd yn diwallu anghenion pobl. Gall ymgysylltu eich helpu i ddatblygu rhaglen neu brosiect y gellir ei chyflawni a gall hefyd sicrhau eich bod yn dod â dylanwadwyr allweddol gyda chi.

Mae ymgysylltu hefyd yn helpu i gyflawni'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; cynnwys a chydweithio yw dwy o'r pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus yng Nghymru eu mabwysiadu.

Yn olaf, un o fanteision mwyaf ymgysylltu â phobl yw helpu i ysgogi newid mewn dulliau teithio. Nid oes diben buddsoddi mewn gwasanaethau na seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy oni fydd pobl yn eu defnyddio. Fel y nodwyd, newid ymddygiad yw un o'r tair blaenoriaeth yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a dylai pob prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru gynnwys elfennau o newid ymddygiad.

Mae i ymgysylltu â phobl lawer o fanteision. Gall eich helpu i wella ansawdd eich rhaglen neu brosiect ac osgoi unrhyw ganlyniadau niweidiol anfwriadol. Gall helpu eich tîm i ddylunio gwasanaethau neu seilwaith a fydd yn diwallu anghenion pobl. Gall ymgysylltu eich helpu i ddatblygu rhaglen neu brosiect y gellir ei chyflawni a gall hefyd sicrhau eich bod yn dod â dylanwadwyr allweddol gyda chi.

## Cynllun ymgysylltu WelTAG

P'un a yw eich rhaglen neu brosiect yn gymhleth neu'n syml, rhaid ichi ddweud wrthym sut rydych wedi ymgysylltu â phobl. Mae mwy i ymgysylltu nag ymgynghori â phobl. Mae hefyd yn golygu cynnwys pobl yn unol â'r pum ffordd o weithio yng Nghymru.

Mae cynllun ymgysylltu yn nodi sut y byddwch yn gwneud hynny. Drafftiwch y cynllun ar gam cynnar a'i ddiweddaru wrth i'r rhaglen neu'r prosiect ddatblygu. Ar gyfer prosiect syml, gallai cynllun ymgysylltu fod yn ddwy ochr o bapur. Ar gyfer rhaglen neu brosiect cymhleth gallai fod yn hirach. Dylai cynllun ymgysylltu ymdrin â phum pwnc allweddol, sef:

- gyda phwy rydych am ymgysylltu,
- pam rydych am ymgysylltu â nhw,
- sut y byddwch yn ymgysylltu â nhw,
- pryd y byddwch yn ymgysylltu, a
- beth byddwch yn ei wneud gyda'r adborth a roddir ganddynt.

Mae mwy i ymgysylltu nag ymgynghori â phobl. Mae hefyd yn golygu cynnwys pobl yn unol â'r pum ffordd o weithio yng Nghymru.

Yr olaf yw'r pwysicaf am nad oes diben ymgysylltu â phobl oni fyddwch yn barod i ymateb i adborth a'i ddefnyddio i lywio dyluniad eich rhaglen neu brosiect.

Bydd y Canllawiau Technegol yn rhoi rhagor o fanylion am gynnwys cynllun ymgysylltu a sut i fynd ati i ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â gwahanol grwpiau. Maent hefyd yn cynnwys templedi i nodi grwpiau gwahanol o randdeiliaid ac ystyried ffyrdd gwahanol o ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys cydweithio a chydgynhyrchu pan fo'n bwysig mynd ati i gynnwys pobl o'r tu allan i'ch sefydliad yn y gwaith o gyflawni rhaglen neu brosiect.

Bydd hefyd yn cynnwys canllawiau pellach ar gynnwys elfennau o newid ymddygiad yn eich rhaglen neu brosiect a sut y gall gweithgarwch ymgysylltu eich helpu i ddylunio a chyflawni eich rhaglen neu brosiect.

Bydd angen ichi hefyd adrodd ar ganlyniadau eich gweithgarwch ymgysylltu, fel rhan o'r achos busnes dros eich prosiect, gan gynnwys a yw eich prosiect yn dderbyniol i grwpiau gwahanol a sut rydych wedi ystyried eu barn wrth ddylunio'r prosiect.

## Grŵp adolygu

Gall y cynllun ymgysylltu gynnwys trefniadau ar gyfer grŵp adolygu prosiect, rhaglen neu bolisi. Hwn yw'r Grŵp o randdeiliaid allweddol y mae angen iddynt adolygu elfennau o'ch prosiect.

Diben grŵp adolygu prosiect, rhaglen neu bolisi yw rhoi adborth a herio'n adeiladol cyn mynd ymlaen. Dylai'r grŵp adolygu gynnwys pobl sy'n arbenigo mewn meysydd arfarnu llesiant allweddol, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ac effeithiau sy'n seiliedig ar leoedd. Dylai'r grŵp adolygu hefyd gynnwys cynrychiolwyr pobl y mae'n debygol y bydd y prosiect, y rhaglen neu'r polisi arfaethedig yn effeithio arnynt fwyaf. Bydd pob prosiect, polisi a rhaglen yn gofyn am fewnbwn rhywun sy'n arbenigo ym maes teithio llesol sy'n dod o un o'r nifer mawr o sefydliadau sy'n cynrychioli defnyddwyr trafnidiaeth, beicwyr neu gerddwyr. Dylai'r grŵp hefyd gynnwys cynrychiolwyr sefydliadau partner neu randdeiliaid pwysig.

## Rolau a chyfrifoldebau WelTAG

**Mae sicrhau bod y trefniadau ar gyfer rheoli, llywodraethu a goruchwylio proses WelTAG yn briodol yr un mor bwysig â sicrhau bod y cynnwys yn gywir.**

Rhaid i bobl sy'n cymryd rhan ym mhroses WelTAG ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Gweinidogion a swyddogion**
Yn y pen draw, caiff penderfyniadau ynghylch cyllid ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru eu gwneud gan Weinidogion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar eu blaenoriaethau cenedlaethol ond gall penderfyniadau unigol gael eu dirprwyo i swyddogion yn Llywodraeth Cymru neu Trafnidiaeth Cymru neu mewn awdurdodau lleol, fel rhan o raglenni megis cynlluniau grant sydd wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion. Bydd angen i swyddogion neu benderfynwyr eraill gael digon o wybodaeth am brosiectau er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad hyddysg, gan ddefnyddio'r pum maen prawf.

**Cyd-bwyllgorau Corfforedig**
Bydd y cyrff hyn yn dod â sawl awdurdod lleol at ei gilydd i oruchwylio gwaith cynllunio trafnidiaeth ranbarthol yn ogystal â swyddogaethau eraill. Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn pennu'r blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth ranbarthol y bydd rhaglenni a phrosiectau rhanbarthol a lleol WelTAG yn seiliedig arnynt. Mae ganddynt rôl hanfodol i'w chwarae i sicrhau bod blaenoriaethau o ran trafnidiaeth a blaenoriaethau o ran datblygu yn cyd-fynd â'i gilydd, yn enwedig yr angen i ddod â gwasanaethau yn agosach at bobl er mwyn lleihau'r angen i ddefnyddio ceir bob dydd.

Ar gyfer rheolwr y prosiect, y rhaglen neu'r polisi mae canllawiau WelTAG wedi'u hysgrifennu'n bennaf. Mae'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu ac, yn y pen draw, gyflawni'r prosiect, y rhaglen neu'r polisi. Yn ystod proses WelTAG, mae'n sicrhau bod y gwaith yn gymesur ac wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y gwaith

**Noddwr prosiect (SRO)**
Dyma'r person sy'n gyfrifol am oruchwylio'r rhaglen neu'r prosiect yn strategol. Mae'n nodi'r cysylltiad ehangach rhwng y prosiect a meysydd polisi eraill – megis cynllunio neu iechyd. Rhaid iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyfarwyddwyr, Gweinidogion neu Aelodau etholedig am hynt y prosiect, gan dynnu eu sylw at unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg. Bydd angen iddo hefyd gefnogi'r tîm sy'n datblygu'r prosiect, gan ei helpu i gydweithio ar eraill.

**Rheolwr prosiect, rhaglen neu bolisi**
Ar gyfer rheolwr y prosiect, y rhaglen neu'r polisi mae canllawiau WelTAG wedi'u hysgrifennu'n bennaf. Mae'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu ac, yn y pen draw, gyflawni'r prosiect, y rhaglen neu'r polisi. Yn ystod proses WelTAG, mae'n sicrhau bod y gwaith yn gymesur ac wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y gwaith; yn arwain unrhyw ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn goruchwylio cyfarfodydd y grŵp adolygu. Yn ystod cam cyflawni (cam 4), mae'n goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r prosiect ac mae'n gyfrifol am fonitro a gwerthuso ar gam 5, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol.

**Ymgynghorydd/cynlluniwr neu arfarnwr trafnidiaeth**
Efallai y bydd angen i reolwr y prosiect gomisiynu sefydliad allanol i ddatblygu dyluniad manwl y rhaglen neu'r prosiect a'r achos busnes. Yn ogystal â chynnig arbenigedd mewn prosiectau trafnidiaeth a gwaith arfarnu, dylai ymgynghorydd allanol helpu rheolwr y prosiect i sicrhau bod adroddiadau WelTAG wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion a bodloni eu gofynion. Gall rheolwr y prosiect ofyn i'r ymgynghorydd arwain rhai elfennau o'r gweithgarwch ymgysylltu â'r rhanddeiliaid megis cynnull y grŵp adolygu.

Er ei bod yn bosibl y bydd yr ymgynghorydd yn arbenigo ym meysydd modelu ac arfarnu, mae yr un mor bwysig ei fod yn deall rôl ehangach trafnidiaeth fel galluogydd ac y gall helpu rheolwr y prosiect i ddylunio prosiect sy'n sicrhau llesiant. Rhaid i'w hadroddiadau fod yn fyr, yn hawdd i'w darllen ac yn hygyrch.

Rhaid i'w hadroddiadau fod yn fyr, yn hawdd i'w darllen ac yn hygyrch.

**Aelodau'r grŵp adolygu**
Fel y nodwyd uchod, yn achos prosiectau trafnidiaeth mwy o faint, bydd angen i'r grŵp adolygu gynnwys rhanddeiliaid yn y broses o roi cyngor ar y prosiect, y rhaglen neu'r polisi. Mae aelodau grŵp adolygu yn cefnogi rheolwr y prosiect drwy nodi problemau a risgiau allweddol a helpu i ddod o hyd i atebion. Gallant hefyd helpu tîm y prosiect i ddatblygu'r achos busnes gorau posibl. Nid ydynt yn gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ar y prosiect, y rhaglen neu'r polisi. Efallai y bydd gan aelodau sy'n cynrychioli grŵp penodol gyfrifoldeb ehangach hefyd am gynrychioli barn y grŵp hwnnw ar y panel adolygu. Dim ond un elfen o'r broses ymgysylltu ehangach yw'r grŵp adolygu (gweler isod).

## Y pum ffordd o weithio

**Gall pob un o'r bobl wahanol sy'n ymwneud â WelTAG chwarae rôl bwysig drwy sicrhau bod y pum ffordd o weithio wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o broses WelTAG.**


Er enghraifft, mae noddwr y prosiect yn chwarae rôl allweddol o ran ***integreiddio*** – gan gynnal trosolwg strategol o'r prosiect er mwyn deall sut mae'n cyfrannu at agendâu ehangach, megis datgarboneiddio, cydraddoldeb, iechyd neu'r economi. Dylai ystyried meysydd polisi eraill mewn llywodraeth leol neu genedlaethol er mwyn sicrhau bod y rhaglen neu'r prosiect yn cyd-fynd â nodau eraill. Mae rheolwr y prosiect yn sicrhau bod y prosiect yn ymdrin â'r pum ffordd o weithio ac yn chwarae rôl benodol o ran ***cydweithio*** drwy'r ffordd y caiff y prosiect ei gyflawni. Bydd y cynllun ymgysylltu yn dangos sut mae pobl wedi'u ***cynnwys*** yn y gwaith o ddatblygu'r prosiect.

Mae'r ymgynghorydd/arfarnwr trafnidiaeth arbenigol yn sicrhau bod proses WelTAG yn edrych i'r ***hirdymor*** drwy ddarparu'r data a'r gwaith dadansoddi er mwyn deall effeithiau tymor hwy'r rhaglen neu'r prosiect. Mae ganddo rôl hanfodol i'w chwarae o ran ***cynnwys*** pobl drwy gydgysylltu strategaethau ymgynghori ac ymgysylltu. Bydd yr arfarniadau llesiant integredig yn cyfrannu'n uniongyrchol at ***atal***.  Mae aelodau o'r grŵp adolygu yn helpu rheolwr y prosiect i sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu ***cynnwys*** yn y gwaith o ddatblygu'r prosiect.



### Hirdymor

Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd



### Integreiddio

Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyoeddus eraill



### Cynnwys

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu



### Cydweithio

Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant



### Atal

Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

# Adran 6
## WelTAG ar waith

Mae'r adran hon yn ymdrin â rhai o'r materion a'r cwestiynau cyffredin a godir gan ddefnyddwyr WelTAG.

# Adran 6: WelTAG ar waith

## Y disgrifiad o'r cynllun neu ddyluniad y rhaglen neu'r prosiect

Yn achos prosiectau sy'n cynnwys uwchraddio seilwaith presennol neu adeiladu seilwaith newydd, dylai'r broses ddylunio a'r broses arfarnu fynd rhagddynt ar yr un pryd. Nid yw meddwl yn gynnar am ddylunio byth yn mynd yn wastraff am ei fod yn helpu i ddeall risg ac yn sicrhau mai dim ond opsiynau dichonadwy sy'n cael eu datblygu, gan nodi costau dylunio ar bob cam. Os na chaiff y cwmpas ei ddiffinio'n ddigon cynnar, gall arian gael ei wario ar waith dylunio yn ddiweddarach ar gyfer prosiectau a all fod yn llawer drutach na'r gyllideb sydd ar gael.

Os na chaiff y cwmpas ei ddiffinio'n ddigon cynnar, gall arian gael ei wario ar waith dylunio yn ddiweddarach ar gyfer prosiectau a all fod yn llawer drutach na'r gyllideb sydd ar gael

Fel gwaith arfarnu, mae gwaith dylunio a dichonoldeb technegol yn cynnwys cyfres o gamau sy'n symud o gysyniadau cychwynnol drwy waith dylunio amlinellol i waith dylunio manwl, llunio manyleb a chaffael a chyflawni'r prosiect.  Mae cynllun gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) yn nodi camau dylunio ar gyfer y diwydiant adeiladu. Ceir hefyd gamau dylunio ar gyfer gwahanol fathau o brosiectau trafnidiaeth gan gynnwys cynllun gwaith Trafnidiaeth Cymru sydd, yn ei dro, yn seiliedig ar safonau'r diwydiant rheilffyrdd a'r Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd.

Rhaid ystyried y dyluniad a dichonoldeb technegol ar bob gam o WelTAG. Er enghraifft:

- **Cam 1: achos amlinellol strategol** – sicrhau bod y rhestr fer o opsiynau a ddatblygir ar ddiwedd y cam hwn yn dechnegol ddichonadwy. Yn achos prosiectau mwy o faint, gall hyn gynnwys adroddiad dichonoldeb technegol y mae'n rhaid iddo fod yn gymesur ond a allai gynnwys cynlluniau gofodol 2D sy'n seiliedig ar fapiau'r Arolwg Ordnans ynghyd ag adolygiad technegol cychwynnol o'r problemau a'r risgiau, yn ogystal ag unrhyw ddadansoddiad gweithredol.

- **Cam 2: achos busnes amlinellol** – fel rhan o'r gwaith o ddatblygu rhestr gyfyngedig o opsiynau yn y dyfodol, dylai'r gwaith dylunio gynnwys ystyried pob opsiwn yn fanylach o safbwynt technegol, gan gynnwys ystyriaethau amgylcheddol a geodechnegol. Dylai'r adroddiad ar yr achos busnes amlinellol gael ei ategu gan wybodaeth ddylunio fanylach sy'n nodi gofynion gofodol y rhaglen neu'r prosiect, yn ogystal ag elfennau dylunio allweddol, tir a gofynion statudol.

**Ffigur 11:** WelTAG a chynlluniau gwaith eraill

<table>
<tr><th>Arfarnu</th><th colspan="3">Dylunio</th></tr>
<tr><th>Camau WelTAG</th><th colspan="2">Cynllun gwaith Trafnidiaeth Cymru – Rheilffyrdd</th><th>Cynllun gwaith RIBA</th></tr>
<tr><td>Cam 0:<br>yr achos dros newid</td><td colspan="2">Cam A: datblygu gofynion allbwn ac opsiynau</td><td>Cam 0:<br>diffiniad strategol</td></tr>
<tr><td>(Cwmpasu’r Prosiect)</td><td colspan="2"></td><td rowspan="2">Cam 1:<br>paratoi a briffio<br><br>Cam 2<br>dylunio cydsyniad</td></tr>
<tr><td>Cam 1:<br>achos amlinellol strategol</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Cam 2:<br>achos busnes amlinellol</td><td colspan="2">Cam B: datblygu opsiynau a dethol</td><td rowspan="2">Cam 3:<br>cydgysylltu gofodol</td></tr>
<tr><td>Cam 3:<br>achos busnes llawn</td><td>Cam C: dyluniad amlinellol neu ragarweiniol</td><td rowspan="2">Cam D:<br>prosesau statudol</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Cam 4: Cyflawni prosesau statudol</td><td>Cam E: dyluniad manwl</td><td>Cam 4:<br>dyluniad technegol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cam F: llunio, trosglwyddo’r comisiwn</td><td>Cam 5:<br>gweithgynhyrchu ac adeiladu</td></tr>
<tr><td>Cam 5:<br>monitro a gwerthuso</td><td colspan="2">Cam G: cwblhau</td><td>Cam 6:<br>trosglwyddo</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2"></td><td>Cam 7:<br>defnyddio</td></tr>
</table>

- **Cam 3: achos busnes llawn** – dylai gael ei ategu gan ddyluniad rhagarweiniol sy'n nodi pob agwedd ddylunio allweddol ar y prosiect, gan gynnwys y dewis o ddeunyddiau. Er y bydd angen penderfynu'n derfynol ar rai manylion o hyd, dylid cyflwyno'r dyluniad ar sail gwaith arolygu a mapio topograffig llawn. Dylai gynnwys digon o fanylion i fod yn sail i gais manwl am ganiatâd neu bwerau cynllunio. Os bydd prosiectau yn cynnwys prynu tir yn orfodol, mae'n hanfodol bod y Dyluniad amlinellol a'r achos busnes llawn wedi'u datblygu'n fanwl.

Hefyd, mae safonau dylunio y mae angen i brosiectau trafnidiaeth gydymffurfio â nhw, gan gynnwys y safonau a nodir yn y Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd a Chanllawiau Teithio Llesol Cymru.  Gall safonau dylunio lleol at ddibenion cynllunio hefyd fod yn berthnasol i'r gwaith o ddylunio neu uwchraddio seilwaith trafnidiaeth.

## Adolygiadau porth

Ni ddylid cymeradwyo prosiectau, polisïau na rhaglenni nad ydynt yn bodloni'r meini prawf gwerth am arian nac yn cydymffurfio â'r rhestrau gwirio ansawdd nac yn cyfrannu at gyflawni targedau ar gyfer newid dulliau teithio.

Bydd prosiectau mwy o faint, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys seilwaith ffyrdd neu reilffyrdd, yn gofyn am bwyntiau penodol adolygiad porth sy'n cyd-fynd â phroses Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth neu brosesau adolygiad porth Llywodraeth Cymru.  Mae'r rhain yn nodi prosesau cymeradwyo camau allweddol ar gyfer prosiectau ar y Flaenraglen Cefnffyrdd sy'n hefyd yn cyd-fynd â GRIP.  Yn achos y Flaenraglen Cefnffyrdd, mae saith proses cymeradwyo camau allweddol a thri adolygiad porth mawr sy'n dilyn cymeradwyo cyhoeddi'r llwybr a ffefrir, cwblhau prosesau statudol a chymeradwyo symud ymlaen i'r cam adeiladu ac yn dilyn cymeradwyo'r adroddiad cwblhau.

Ar bob cam o adolygiad porth, rhaid i'r tîm adolygu ddarllen a chymeradwyo'r dogfennau WelTAG perthnasol, gan asesu cydymffurfiaeth â'r pum maen prawf gwerth am arian a'r rhestrau gwirio ansawdd. Dylai'r adolygiad porth hefyd asesu'r cyfraniad at gyflawni targedau trafnidiaeth ar gyfer newid dulliau teithio a datgarboneiddio. Ni ddylid cymeradwyo prosiectau, polisïau na rhaglenni nad ydynt yn bodloni'r meini prawf gwerth am arian nac yn cydymffurfio â'r rhestrau gwirio ansawdd nac yn cyfrannu at gyflawni targedau ar gyfer newid dulliau teithio.

## WelTAG a chynllunio defnydd tir

**Mae cysylltiad agos rhwng cynllunio trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir. Mae penderfyniadau ynghylch ble rydym yn adeiladu datblygiadau newydd yn effeithio ar drafnidiaeth a gall argaeledd trafnidiaeth effeithio ar ddatblygiadau newydd ac mae seilwaith trafnidiaeth yn aml yn dylanwadu ar waith datblygu dilynol.**

Blaenoriaeth gyntaf Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw lleihau'r angen i deithio drwy ddod â gwasanaethau yn agosach at bobl. Mae cynllunio defnydd tir yn chwarae rôl hanfodol o ran cyflawni'r flaenoriaeth hon. Dyma pam y mae'r rhestr o opsiynau ar gyfer rhaglenni neu brosiectau WelTAG hefyd yn cynnwys opsiynau cynllunio sy'n helpu i gyflawni canlyniadau trafnidiaeth.

> Gall rhaglenni neu brosiectau trafnidiaeth gael effaith fawr ar weithgarwch creu lleoedd naill ai drwy wella ansawdd lleoedd neu drwy gael effaith andwyol arnynt. Mae'n bwysig cynnwys yr angen i ystyried creu lleoedd yn amcanion cynlluniau.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisi cynllunio cenedlaethol Cymru, gan gynnwys creu lleoedd actif a chymdeithasol. Mae'n cynnwys yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ac yn cydnabod pwysigrwydd strydoedd wedi'u cynllunio'n dda sy'n rhoi pobl yn gyntaf a'r angen i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol, gan leihau'r ddibyniaeth ar geir ar yr un pryd. Mae'n nodi y dylai datblygiadau newydd wella ansawdd lle a chreu strydoedd diogel, cymdeithasol ac atyniadol lle mae pobl am gerdded, beicio a mwynhau. Ategir hyn gan ganllawiau cynllunio manwl yn TAN 18 – Trafnidiaeth.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn canolbwyntio'n gryf ar greu lleoedd, sef dull datblygu sy'n sicrhau bod gan gymunedau yr holl wasanaethau sydd eu hangen arnynt o fewn cyrraedd rhwydd a bod gwaith datblygu o ansawdd uchel. Cefnogir y gwaith o gyflawni hyn drwy'r Siarter Creu Lleoedd, sef cyfres o egwyddorion ar gyfer creu lleoedd sy'n cynnwys pwysigrwydd ystyried trafnidiaeth.

Gall rhaglenni neu brosiectau trafnidiaeth gael effaith fawr ar weithgarwch creu lleoedd naill ai drwy wella ansawdd lleoedd neu drwy gael effaith andwyol arnynt. Mae'n bwysig cynnwys yr angen i ystyried creu lleoedd yn amcanion cynlluniau.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai cynlluniau datblygu nodi a chynnwys polisïau a chynigion sy'n ymwneud â datblygu seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau cysylltiedig. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn nodi, wrth asesu prosiectau trafnidiaeth, y dylai awdurdodau cynllunio ystyried Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Mae'n cydnabod bod proses WelTAG,

> "yn arbennig o bwysig wrth gynllunio prosiectau seilwaith trafnidiaeth strategol, a thrafnidiaeth sy'n gysylltiedig â datblygiadau mawr, gan ei bod yn helpu i sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i holl effeithiau'r opsiynau trafnidiaeth. Bydd hynny'n helpu i gael hyd i'r atebion fydd yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf at y nodau llesiant ac yn caniatáu i atebion a mesurau lliniaru gael eu nodi a'u datblygu cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynlluniau. Mae'r broses WelTAG yn ffordd hefyd i sicrhau bod atebion yn briodol ar gyfer trechu'r problemau trafnidiaeth a nodir ac osgoi dewis opsiynau moddol heb dystiolaeth ategol."

Mae Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi blaenoriaethau ar gyfer defnyddio tir. Mae'n rhoi cryn bwyslais ar greu lleoedd sy'n lleihau'r angen i deithio, sy'n defnyddio tir yn effeithlon ac yn sicrhau bod dewisiadau o ran defnyddio tir yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'u heffeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd. Mae hyn yn cyd-fynd â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a byddant yn cydweithio i gyflawni'r amcanion hyn.

Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i hyrwyddo teithio llesol ac yn pwysleisio ei bwysigrwydd fel ystyriaeth mewn datblygiadau newydd. Rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod cynigion datblygu, drwy eu dyluniad a'u seilwaith ategol, yn blaenoriaethu darparu ar gyfer mynediad a symud drwy gerdded a beicio.  Dylai'r gwaith o lunio cynigion datblygu, yn unol â'r hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy, ddechrau drwy nodi'r cysylltiadau cerdded a beicio byrraf a mwyaf atyniadol ac yna ddiwallu'r anghenion trafnidiaeth eraill.

Rhaid ystyried materion sy'n ymwneud â chynllunio defnydd tir ar bob cam o WelTAG. Er enghraifft:

- **cam 0 yr achos dros newid** – dylid ystyried blaenoriaethau yn Cymru'r Dyfodol a'r cynllun datblygu lleol, y cynllun trafnidiaeth lleol neu'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol neu'r map rhwydwaith teithio llesol, yn ogystal â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

- **WelTAG safonol neu WelTAG byr** – os bydd prosiect eisoes wedi'i nodi mewn cynllun datblygu lleol, cynllun trafnidiaeth lleol neu gynllun trafnidiaeth rhanbarthol, ar fap rhwydwaith teithio llesol neu yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth, efallai na fydd angen cynnal proses arfarnu opsiynau gymhleth. Y cyfan sydd angen ei wneud yw esbonio sut y dewiswyd eich prosiect a chyfeirio at waith datblygu blaenorol neu'r ddogfen gyfeirio briodol.

- **achos busnes** – dylai adran cydweddiad strategol yr achos busnes esbonio sut y bydd y rhaglen neu'r prosiect yn ymdrin â blaenoriaethau cynllunio defnydd tir lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.  Os bydd angen caniatâd cynllunio ar y prosiect (gweler isod), dylid cynnal unrhyw asesiadau effaith statudol neu asesiadau effaith rheoleiddiol eraill cyn cwblhau'r achos busnes.

- **amodau cynllunio** – gellir sicrhau manteision llesiant drwy amodau cynlluniau ac, o bosibl, drwy amodau contract (e.e. hyfforddiant a sgiliau neu ddigwyddiadau cymunedol). Dylai adran cyflawnadwyedd yr achos busnes esbonio sut y sicrheir manteision llesiant drwy ba ddull bynnag, a dylai'r adran ar reoli esbonio sut y caiff hynny ei fonitro neu ei orfodi.

## Prosiectau y mae angen caniatâd cynllunio arnynt

**Fel y nodwyd, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio ar brosiectau WelTAG sy’n cynnwys uwchraddio seilwaith neu adeiladu seilwaith newydd, yn ogystal ag unrhyw gymeradwyaeth ar gyfer cyllid trafnidiaeth gan ffynonellau yng Nghymru neu’r DU.**

Dylai gwaith cwmpasu’r prosiect ragweld y gofynion cynllunio tebygol ar gyfer y prosiect a chynnwys gwaith sgrinio er mwyn nodi pa asesiadau effaith statudol sydd eu hangen. Gallai hyn gynnwys yr angen am asesiadau effaith statudol neu reoleiddiol megis asesiad o’r effaith amgylcheddol, asesiad amgylcheddol statudol, asesiad o’r effaith ar dreftadaeth neu asesiad rheoliadau cynefinoedd.

Bydd y gydberthynas rhwng cymeradwyaethau cyllido a gofynion cynllunio yn wahanol ar gyfer pob prosiect.  Yn ddelfrydol, dylid cael caniatâd cynllunio cyn i’r cais terfynol am gyllid gael ei wneud ond, yn ymarferol, efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser. Yn achos prosiectau mwy o faint, fel arfer ceir caniatadau cynllunio ar ôl i achos busnes Cam 3 gael ei gwblhau (gweler isod). Os bydd angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect ond nad ydych wedi’i gael eisoes, dylai adran cyflawnadwyedd yr achos busnes hefyd nodi unrhyw ofynion ar gyfer caniatâd cynllunio a thynnu sylw at unrhyw risgiau sy’n gysylltiedig â pheidio â chael caniatâd neu oedi posibl yn y broses.

Os bydd gwybodaeth eisoes ar gael fel rhan o’r broses gynllunio, nid oes angen ailadrodd gwybodaeth yn adroddiadau WelTAG.

Ni ddylai fod angen dyblygu gwybodaeth ar gyfer WelTAG a gofynion cynllunio. Bydd llawer o’r wybodaeth yn ateb y ddau ddiben. Mae’r broses cynllunio defnydd tir ar gyfer prosiectau mawr yn dilyn trywydd eithaf tebyg i WelTAG o ganiatâd amlinellol i ganiatâd manylach a ategir gan yr asesiadau effaith angenrheidiol. Gall fod gofynion monitro hefyd.

Os bydd gwybodaeth eisoes ar gael fel rhan o’r broses gynllunio, nid oes angen ailadrodd gwybodaeth yn adroddiadau WelTAG. Y cyfan sydd angen ei wneud yw darparu dolen i wybodaeth sydd eisoes ar gael neu gyfeirio ati a nodi canfyddiadau allweddol fel pwyntiau bwled. Er enghraifft, os bydd gennych asesiadau o’r effaith ar gynefinoedd, yr amgylchedd, pridd, dŵr, tirwedd, treflun neu dreftadaeth neu asesiadau effaith eraill eisoes fel rhan o’r gofynion cynllunio ar gyfer eich prosiect, dylech grynhoi canfyddiadau’r asesiadau hynny mewn ychydig o bwyntiau bwled byr cryno yn yr arfarniad llesiant integredig.

## Strategaethau gweithredu trafnidiaeth

**Darperir strategaethau gweithredu trafnidiaeth gan ddatblygwyr er mwyn cefnogi ceisiadau am ganiatâd cynllunio.**

Mae hyn yn digwydd fel arfer pan ofynnwyd i ddatblygwyr ddarparu seilwaith trafnidiaeth ychwanegol fel rhan o brosiect datblygu.

Mae trafnidiaeth yn aml yn hanfodol i ddatblygiadau newydd – yn enwedig datblygiadau yn y sector cyhoeddus a datblygiadau masnachol y mae angen iddynt fod yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl. Yn aml bydd angen i geisiadau ar gyfer datblygiadau ystyried opsiynau trafnidiaeth presennol ac effaith datblygiad newydd ar yr opsiynau hynny.

Mae Nodiadau Cyngor Technegol 18 (TAN 18) yn gofyn i ddatblygwyr ddarparu strategaethau gweithredu trafnidiaeth ond nid yw TAN 18 yn cyfeirio at WelTAG uniongyrchol am iddo gael ei ysgrifennu cyn canllawiau cyntaf WelTAG. Fodd bynnag, os bydd angen i ddatblygwyr ystyried ymyriadau trafnidiaeth fel rhan o ddatblygiad newydd, gall proses WelTAG fod yn ddefnyddiol i lywio'r cynigion hynny.

Fel y nodwyd, blaenoriaeth gyntaf Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yw lleihau'r angen i deithio. Gall hyn olygu lleoli gwasanaethau iechyd ac addysg newydd a gwasanaethau newydd eraill yn agos at y mannau lle mae pobl yn byw, yn hytrach nag adeiladu ffyrdd mynediad newydd. Gall hefyd olygu neilltuo tir ar gyfer seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy. Gall hefyd olygu derbyn rhywfaint o dagfeydd os bydd cyfleoedd eraill i fwy o bobl defnyddio dulliau teithio cynaliadwy.

Mae angen i awdurdodau cynllunio feddwl am drafnidiaeth a chynllunio mewn ffordd integredig. Bydd y blaenoriaethau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol sy'n cael eu datblygu gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd yn helpu i wneud hynny.

## WelTAG ar gyfer dulliau teithio a sectorau penodol

### Mae'r adran hon yn esbonio sut mae WelTAG yn ymwneud â chanllawiau cynllunio penodol ar deithio llesol, bysiau, ffyrdd a rheilffyrdd, a gwaith cynnal a chadw.

Mae WelTAG yn nodi egwyddorion cynllunio ac arfarnu y gellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw fath o brosiect trafnidiaeth. Yn ymarferol, bydd y rhan fwyaf o brosiectau, rhaglenni neu bolisïau trafnidiaeth yng Nghymru yn rhai aml-ddull neu byddant yn cynnwys integreiddio rhwng gwahanol ddulliau teithio.

Mae gan ddulliau teithio unigol gan gynnwys ffyrdd, rheilffyrdd a theithio llesol ganllawiau dull-benodol manwl.  Mae WelTAG wedi'i gynllunio i gyd-fynd, yn fras, â'r rhain. Mae'r un dull gweithredu fesul cam yn berthnasol, yn ogystal â'r angen i ddarparu achos busnes cadarn a'r angen i gynnal yr asesiadau effaith perthnasol.

Fodd bynnag, wrth gynllunio unrhyw ymyriad trafnidiaeth, rhaid ichi ystyried y gofynion cyfreithiol, polisi a rheoleiddiol penodol ar gyfer dulliau teithio unigol.

## WelTAG a theithio llesol

Mae pwyslais mawr ar ystyriaethau o ran teithio llesol ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae hefyd angen ystyried teithio llesol ym mhob darpariaeth trafnidiaeth newydd.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol mewn perthynas â theithio llesol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau cynhwysfawr ar Deithio Llesol sy'n ymdrin â'r dyletswyddau a'r egwyddorion ac yn rhoi canllawiau manwl ar ddylunio a chynllunio cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys teithio llesol fel rhan o gynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol sy'n gwneud cais am gyllid o'r gronfa teithio llesol. Mae'r canllawiau hyn yn cyd-fynd yn agos â phroses gynllunio gyffredin WelTAG.

Mae mapiau rhwydwaith teithio llesol yn elfen graidd o deithio llesol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol i gerddwyr a beicwyr, cynllunio ar eu cyfer a'u hadolygu.

Mae materion penodol i'w hystyried wrth gynllunio prosiectau teithio llesol gan ddefnyddio WelTAG yn cynnwys:

- **mapiau rhwydwaith teithio llesol** – os bydd prosiect yn canolbwyntio ar gyflawni cynllun teithio llesol penodedig a nodwyd ac y cytunwyd arno eisoes ar fap o rwydwaith teithio llesol, gall achos dros newid Cam 0 gyfeirio at hyn yn unig.
- **WelTAG byr** – dim ond achos busnes WelTAG byr, wedi'i ategu gan arfarniad llesiant integredig ac unrhyw asesiadau effaith statudol y dylai fod ei angen ar y rhan fwyaf o brosiectau teithio llesol penodedig
- **dull integredig** – ar gyfer prosiectau trafnidiaeth aml-ddull sy'n cynnwys ffyrdd neu reilffyrdd, dylid integreiddio opsiynau teithio llesol yn y gwaith o gynllunio'r prosiect o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na'u hychwanegu ar y diwedd.

## WelTAG ar gyfer rhaglenni a phrosiectau bysiau yng Nghymru

Gellir defnyddio WelTAG i helpu i gynllunio buddsoddi mewn gwasanaethau bysiau yng Nghymru, gan gynnwys cynllunio rhwydweithiau a seilwaith. Mae egwyddorion allweddol WelTAG sy'n seiliedig ar ddull cynllunio fesul cam a defnyddio busnes achos yr un mor berthnasol i fysiau ag ydynt i unrhyw ddull teithio arall. Mae hyn yn arbennig o bwysig am fod gwasanaethau bysiau yn aml yn cael eu hintegreiddio mewn prosiectau cynllunio trafnidiaeth eraill megis creu cyfnewidfeydd trafnidiaeth neu systemau tocynnu integredig.

Mae prosiectau bysiau, megis gorsaf fysiau newydd Caerdydd, hefyd yn dwyn ynghyd amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys y sector preifat, awdurdodau lleol, datblygwyr a buddsoddwyr yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

Mae gwaith cynllunio rhaglen a phrosiect effeithlon, cyfathrebu da a gwaith rheoli prosiect, integreiddio â chynllunio ac achos busnes cryf oll yn hanfodol i brosiectau o'r fath.

Mae materion penodol i'w hystyried wrth gynllunio rhaglenni a phrosiectau bysiau gan ddefnyddio WelTAG yn cynnwys:

- **ymgysylltu â gweithredwyr** – yn ogystal ag ymgysylltu'n ehangach, dylai'r cynllun ymgysylltu ar gyfer unrhyw raglen neu brosiect sy'n cynnwys gwasanaethau bysiau a seilwaith gynnwys cynlluniau i ymgysylltu â gweithredwyr am fod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn partneriaeth â gweithredwyr a'i fod yn hanfodol deall eu hanghenion a'u safbwyntiau. Mae angen ymgysylltu â datblygwyr a phartneriaid cyflawni eraill hefyd fel rhan o'r broses.
- **integreiddio gwaith cynllunio gwasanaethau â gwaith datblygu seilwaith** – yn fwyfwy, mae prosiectau trafnidiaeth yn cyfuno gwaith cynllunio gwasanaethau â seilwaith. Yn wir, efallai na fydd llawer o ddiben uwchraddio gwasanaethau os na fydd y seilwaith gofynnol ar gael.
- **cynllunio ar gyfer datgarboneiddio** – mae cynllun bach Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn nodi uchelgeisiau ar gyfer datgarboneiddio gwasanaethau bysiau ac, felly, rhaid i waith cynllunio rhwydweithiau a seilwaith ar gyfer y dyfodol ragweld hynny o'r cychwyn cyntaf.

## WelTAG ar gyfer rhaglenni a phrosiectau rheilffyrdd yng Nghymru

Dylai gwaith arfarnu prosiectau rheilffyrdd a ariennir gan Lywodraeth Cymru gydymffurfio â WelTAG, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ogystal â'r elfennau dylunio a pheirianyddol i'w cyflawni sy'n gysylltiedig â chamau cynllun gwaith Trafnidiaeth Cymru neu PACE (Cyflymu prosiect mewn amgylchedd a reolir) Network Rail. Disodlodd PACE broses GRIP (Llywodraethu ar gyfer prosiectau buddsoddi mewn rheilffyrdd) yn ddiweddar. Nodir yr aliniad â chamau WelTAG isod.

Oherwydd y gost a'r cymhlethdod sy'n gysylltiedig â rhaglenni a phrosiectau Rheilffordd, rhaid bod yn fwy sicr bod yr opsiwn yn ddichonadwy ar gam cynnar yn y prosiect er mwyn helpu i nodi costau a risgiau'r prosiect yn well.

Mae mewnbynnau peiriannu allweddol i'r arfarniad ar bob cam yn cynnwys:

- adroddiad dylunio dichonoldeb i ategu'r rhestr fer o opsiynau ar ddiwedd Cam 1 WelTAG, yr achos busnes amlinellol strategol,
- adroddiad dewis opsiynau i gefnogi'r broses o ddewis opsiwn a ffefrir fel rhan o Gam 2 WelTAG, yr achos busnes amlinellol,
- datblygiad/dyluniad rhagarweiniol un opsiwn i ategu Cam 3 WelTAG, yr achos busnes llawn.

**Ffigur 12:** Aliniad rhwng WelTAG a chynllun gwaith Trafnidiaeth Cymru, PACE a GRIP.

| **Cam o WelTAG** | **Cam 1 achos amlinellol strategol** | | **Cam 2 achos busnes amlinellol** | **Cam 3 achos busnes llawn** | **Cam 4 cyflawni** | | **Cam 5 monitro a gwerthuso** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Camau cynllun gwaith Trafnidiaeth Cymru** | Cam A: datblygu gofynion allbwn ac opsiynau | | Cam B: datblygu opsiynau a dethol | Cam C rhagarweiniol dyluniad | Cam E: dyluniad manwl | Cam F: llunio, trosglwyddo'r comisiwn | Cam G: cwblhau | |
| | | | | Cam D* prosesau statudol | | | | |
| **Network Rail PACE** | diffinio'r rhaglen strategol | | Datblygu a dewis opsiynau | Datblygu a dylunio'r prosiect | | Cyflawni'r prosiect | Cwblhau'r prosiect | |
| **Network Rail GRIP** | 1. diffinio'r allbwn | 2. dichonoldeb y prosiect | 3. dewis opsiynau | 4. datblygu un opsiwn | 5. dyluniad manwl | 6. llunio, profi, comisiynu | 7. trosglwyddo'r cynllun yn ôl | 8. cwblhau |

*Fel arfer, mae achos busnes llawn cam 3 WelTAG a dyluniad rhagarweiniol cam C yn fewnbwn i gam D.

## WelTAG a rhaglenni a phrosiectau ffyrdd

**Fel pob prosiect, rhaglen a pholisi trafnidiaeth arall, rhaid i gynlluniau ffyrdd ddangos eu bod yn cydweddu'n strategol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y blaenoriaethau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sy'n cynnwys lleihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir bob dydd, cyflawni targedau ar gyfer newid dulliau teithio a datgarboneiddio a gweithredu'r hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy.**

Mae hyn yn dechrau â gwneud y defnydd gorau o seilwaith presennol cyn buddsoddi mewn seilwaith newydd. Rhaid i raglenni a phrosiectau ffyrdd hefyd gyflawni'r pedwar uchelgais llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gan gynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol a mynd i'r afael â phroblemau iechyd drwy wella ansawdd aer a mynd i'r afael â sŵn. Mae'n hanfodol eu bod yn cyflwyno tystiolaeth ansoddol a meintiol ystyriol ar gyfer manteision llesiant cynlluniau, gan ddefnyddio'r fframwaith arfarniadau llesiant integredig. Dylai'r dystiolaeth hon esbonio sut mae'r cynllun wedi ystyried canlyniadau llesiant a sut yr ymdriniwyd â nhw yn nyluniad y cynllun. Nid yw'n dderbyniol dibynnu ar honiadau yn unig na darparu tablau ticio blychau.
Mae cynlluniau ffyrdd hefyd yn codi amrywiaeth eang o faterion dylunio mewn perthynas â chreu lleoedd. Mae'r rhain yn cynnwys maint, lleoliad,

dyluniad, deunyddiau a màs seilwaith a'r effaith ar gymunedau gan gynnwys gwahanu cymunedau. Mae cynlluniau ffyrdd yn aml yn cael effeithiau sylweddol ar fioamrywiaeth a chadernid ecosystemau, priddoedd, dŵr, treftadaeth, tirwedd a threflun, yn ogystal ag effeithiau o ran sŵn ac ansawdd aer.  Rhaid ymdrin â phob un o'r rhain yn llawn fel rhan o broses yr arfarniad llesiant integredig a'r asesiadau effaith statudol cysylltiedig.

Mae'r Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd yn pennu safonau dylunio ar gyfer cynlluniau ffyrdd. Mae'n bosibl y bydd yr Adolygiad Ffyrdd yn ystyried i ba raddau y mae'r safonau yn cyd-fynd â'r gofynion llesiant yng Nghymru.

Gallai WelTAG hefyd lywio rhaglenni a pholisïau cynnal a chadw pwysig ar gyfer seilwaith presennol, er enghraifft, er mwyn helpu i sicrhau bod y manteision llesiant mwyaf posibl yn deillio o gyfundrefnau cynnal a chadw, neu'r gwaith o gynllunio gwaith atgyweirio yn y dyfodol mewn ffordd sy'n sicrhau mwy o fanteision ar gyfer teithio llesol.

## Teithio Llesol mewn cynlluniau ffyrdd

**Rhaid i bob prosiect awdurdod lleol a phob rhaglen a phrosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru ddarparu ar gyfer teithio llesol.**

Mae hyn yn cynnwys prosiectau i wella neu gynnal a chadw'r briffordd neu brosiectau sy'n cynnwys darparu seilwaith newydd. Ceir canllawiau pellach yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (sy'n cynnwys dyletswydd i wella cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr wrth wella neu gynnal a chadw'r briffordd) a'r Canllawiau Teithio Llesol. Hyd yn oed os byddwch yn dewis cynllun ffordd fel rhan o arfarniad WelTAG, rhaid ichi ymgorffori teithio llesol yn y cynllun.

## WelTAG ar gyfer rhaglenni cynnal a chadw

Ni fwriedir i broses WelTAG gael ei defnyddio, fel arfer, ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud yn bennaf â chynnal a chadw ac atgyweirio seilwaith presennol.  Fodd bynnag, cynnal a chadw a rheoli seilwaith presennol yw'r man cychwyn ar gyfer yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy.  Mae seilwaith sy'n cael ei gadw a'i gynnal a'i reoli'n dda hefyd yn un o'r blaenoriaethau yn Strategaeth Drafnidiaeth Newydd. Rhaid i bob prosiect sy'n cynnwys uwchraddio seilwaith presennol neu seilwaith newydd ystyried y costau cynnal a chadw a rheoli hirdymor sy'n gysylltiedig â'r seilwaith hwnnw fel rhan o'r achos busnes.

Mae hefyd yn bwysig ystyried yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy sy'n rhoi blaenoriaeth i gynnal a chadw seilwaith presennol, a'i addasu, dros fuddsoddi mewn seilwaith newydd. Felly, rhaid ystyried opsiynau ar gyfer cynnal a chadw, rheoli neu uwchraddio seilwaith presennol fel rhan o'r broses arfarnu opsiynau ar gyfer rhaglenni neu brosiectau sy'n cynnwys seilwaith newydd.  Gallai WelTAG hefyd lywio rhaglenni a pholisïau cynnal a chadw pwysig ar gyfer seilwaith presennol, er enghraifft, er mwyn helpu i sicrhau bod y manteision llesiant mwyaf posibl yn deillio o gyfundrefnau cynnal a chadw, neu'r gwaith o gynllunio gwaith atgyweirio yn y dyfodol mewn ffordd sy'n sicrhau mwy o fanteision ar gyfer teithio llesol.

# Adran 7
## Atodiadau

Mae'r dogfennau canlynol yn arbennig o berthnasol i weithgarwch cynllunio trafnidiaeth a pholisi trafnidiaeth yng Nghymru.

# Rhestrau gwirio ar gyfer adroddiadau WelTAG

**Defnyddiwch y rhestrau gwirio hyn i sicrhau bod unrhyw adroddiadau a ddarperir gan ymgynghorwyr neu eraill o ansawdd priodol a'u bod yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen.**

Rhaid i adroddiadau WelTAG (p'un a gânt eu llunio gan ymgynghorwyr neu'n fewnol) wir helpu rheolwr y prosiect, y polisi neu'r rhaglen i ddatblygu'r prosiect a darparu gwybodaeth o ansawdd a safon sy'n galluogi Llywodraeth Cymru (neu bartneriaid) i asesu unrhyw gais am gyllid.

Gellir defnyddio'r rhestrau gwirio hyn i asesu ansawdd y gwaith a sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau priodol. Gellir eu haddasu er mwyn diwallu anghenion penodol y prosiect, y polisi neu'r rhaglen, er enghraifft, drwy ychwanegu cwestiynau neu gyfeirio at ofynion penodol megis Adolygiadau Porth.

Os na fydd gwaith a gomisiynwyd yn diwallu anghenion y prosiect, y polisi neu'r rhaglen, rhaid gofyn i'r ymgynghorydd ei ddiwygio. Er enghraifft, ni fydd adroddiadau sy'n cynnwys gwybodaeth ailadroddus neu fformiwläig, neu sy'n gwneud defnydd helaeth o dablau sgorio rhifol yn hytrach na dadleuon sy'n seiliedig ar wybodaeth, yn cyrraedd y safonau ansawdd gofynnol.

ni fydd adroddiadau sy'n cynnwys gwybodaeth ailadroddus neu fformiwläig, neu sy'n gwneud defnydd helaeth o dablau sgorio rhifol yn hytrach na dadleuon sy'n seiliedig ar wybodaeth, yn cyrraedd y safonau ansawdd gofynnol.

Mae'r cwestiynau yn y rhestrau gwirio wedi'u cyfeirio at yr unigolyn sydd wedi paratoi'r adroddiad. Rhaid i'r achos dros newid gael ei baratoi gan y tîm mewnol, felly mae'r rhestr wirio yn sicrhau bod y tîm mewnol wedi ystyried yr wybodaeth gywir. Gall adroddiadau eraill gael eu paratoi gan ymgynghorydd. Os felly, mae'r cwestiynau wedi'u cyfeirio at yr ymgynghorydd.

Dim ond nodi'r mathau o faterion i'w hystyried a wna'r rhestrau gwirio ac nid ydynt yn ganllaw diffiniol ar gynnwys yr adroddiadau sydd angen eu llunio ar gyfer pob cam o WelTAG. Mae canllawiau pellach ar gynnwys adroddiadau yn cael eu datblygu fel rhan o'r Canllawiau Technegol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys mathau eraill o wybodaeth ategol gan gynnwys templedi arfarnu, briff enghreifftiol ar gyfer comisiynu ymgynghorwyr a holiaduron i asesu pa fath o astudiaeth WelTAG y dylid ei defnyddio.

## Rhestr wirio Cam 0 yr achos dros newid (pob rhaglen neu brosiect)

### Y Broblem

- ☐ A yw'n deall y materion y mae angen ymdrin â nhw a'r problemau sy'n dod i'r amlwg nawr neu a fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol os na chymerir unrhyw gamau?
- ☐ A yw'n deall gwraidd y broblem gan gynnwys y ffactorau sy'n cyfrannu ati? Ai problem sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ydyw neu a oes rhywbeth arall yn achosi'r problemau?

### Ei amcanion

- ☐ A yw'n glir ynglŷn â'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni? Beth fyddai'n cael ei ystyried yn llwyddiant?
- ☐ A yw wedi ystyried yr opsiwn gwneud dim? Beth fydd yn digwydd os na fydd yn ymyrryd?
- ☐ A oes ganddo set o amcanion ar gyfer ymyrryd?
- ☐ A ydynt yn adlewyrchu'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru?
- ☐ A ydynt yn adlewyrchu blaenoriaethau cynllunio lleol, rhanbarthol neu genedlaethol a nodir yn Cymru'r Dyfodol neu'r Cynllun Datblygu Lleol?
- ☐ A ydynt yn adlewyrchu blaenoriaethau trafnidiaeth ranbarthol?

### Ymgysylltu

- ☐ A yw wedi siarad â rhanddeiliaid allweddol?
- ☐ A yw wedi cael cytundeb cyffredinol y rhai y mae'n bosibl yr effeithir arnynt, fod angen gweithredu?
- ☐ A yw wedi llunio cynllun ymgysylltu? A fydd angen grŵp adolygu arno?

### Cwmpasu a sgrinio

- ☐ Pwy fydd yn cynnal ymarfer cwmpasu'r rhaglen neu'r prosiect?
- ☐ A yw ei raglen neu brosiect yn debygol o fod yn un risg uchel, risg ganolig neu risg isel? Os felly, a fydd angen iddo ddefnyddio WelTAG byr, WelTAG safonol neu WelTAG manwl?  Neu ddim ond gwneud cais i Lywodraeth Cymru?
- ☐ Beth yw'r gofynion cynllunio? Pa asesiadau effaith statudol neu reoleiddiol y gallai fod eu hangen?
- ☐ A fydd angen iddo gomisiynu ymgynghorwyr i ymgymryd ag astudiaethau WelTAG? Pwy fydd yn drafftio'r briff a'r comisiwn ac yn rheoli'r gwaith?

## Rhestr wirio WelTAG byr

Defnyddiwch y rhestr wirio hon ar gyfer prosiectau sy'n paratoi achos busnes WelTAG byr. Dylai'r achos dros newid fod wedi'i baratoi eisoes (gweler uchod).

### Yr achos dros newid

- ☐ A ellir cyfiawnhau ymyrryd?
- ☐ Os yw'r opsiynau 'gwneud dim' a 'gwneud cyn lleied â phosibl' wedi'u diystyru, a ellir cyfiawnhau hynny? Er enghraifft, sut y byddwn yn cyflawni targedau ar gyfer newid dulliau teithio os na wneir unrhyw beth?
- ☐ A yw wedi defnyddio'r rhestr o opsiynau gwahanol? Neu a yw wedi pend erfynu ar ymyriad trafnidiaeth penodol heb ystyried opsiynau eraill?
- ☐ A yw wedi defnyddio'r hierarchiaeth trafnidiaeth gynaliadwy i gynnwys opsiynau sy'n gwneud y defnydd gorau o seilwaith presennol cyn ystyried seilwaith newydd?
- ☐ A yw wedi meddwl yn greadigol am yr opsiynau hyn? A ydynt yn cynnwys opsiynau nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth megis mesurau newid ymddygiad neu ddatblygiadau digidol arloesol?
- ☐ A all ddangos sut maent wedi dewis eu hopsiwn terfynol a pham?

### Y disgrifiad o'r cynllun

- ☐ A yw wedi darparu lluniadau a gwaith dylunio digon manwl er mwyn asesu costau?
- ☐ A yw wedi darparu manyleb prosiect?
- ☐ A yw wedi ymdrin â rhwystrau i fynediad yn eu dyluniad?
- ☐ A yw wedi rhoi manylion costau'r prosiect?
- ☐ A yw wedi nodi eu strategaeth gaffael?

### Yr achos busnes

- ☐ Sut y bydd ei brosiect yn cyflawni ei amcanion?
- ☐ A yw'r prosiect yn cydweddu'n strategol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau lleol?
- ☐ A yw effaith ei brosiect ar lesiant yng Nghymru wedi'i nodi'n glir?
- ☐ A yw'r pecyn o waith yn fforddiadwy ac a yw'n glir ynglŷn â ffynonellau cyllido tebygol?
- ☐ A ellir cyflawni pob un o elfennau'r pecyn o waith?
- ☐ A oes trefniadau priodol ar waith ar gyfer goruchwylio a monitro'r gwaith o gyflawni'r pecyn o waith?

### Gwybodaeth ategol

- ☐ A oes arfarniad llesiant integredig?
- ☐ A oes angen unrhyw asesiadau effaith statudol arno ac a ydynt wedi'u cynnwys?
- ☐ A oes cynllun ymgysylltu?
- ☐ A oes digon o wybodaeth ategol am y prosiect gan gynnwys manylion costau, manyleb y prosiect a manylion caffael?

### Yr arfarniad llesiant integredig

- ☐ A yw'n ymdrin â phob un o'r pedwar uchelgais llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a seiliedig ar leoedd a diwylliannol)?
- ☐ A yw wedi darparu gwybodaeth ansoddol a meintiol yn seiliedig ar y mesurau yn y fframwaith arfarniadau llesiant integredig?
- ☐ A yw'r prosiect wedi defnyddio'r wybodaeth honno i sicrhau manteision a dileu unrhyw niwed posibl drwy waith dylunio?
- ☐ A yw'n cael ei ategu gan yr asesiadau effaith statudol a rheoleiddiol perthnasol?
- ☐ A yw canfyddiadau'r asesiadau effaith hynny wedi'u hystyried wrth ddylunio'r pecyn o waith?
- ☐ A yw'r manteision llesiant yn drech na'r anfanteision?

### Ymgysylltu

- ☐ A yw wedi siarad â phartneriaid a rhanddeiliaid yn ystod y broses o ddatblygu eu prosiect?
- ☐ A yw wedi cael cytundeb cyffredinol y rhai y mae'n bosibl yr effeithir arnynt, fod angen gweithredu?

### Monitro a gwerthuso

- ☐ A oes trefniadau ar waith i fonitro'r ffordd y caiff y prosiect ei gyflawni?
- ☐ A yw wedi nodi pwy fydd yn paratoi ac yn cyflwyno adroddiadau blynyddol ar berfformiad?
- ☐ A yw wedi nodi sut y bydd yn mesur llwyddiant?
- ☐ A oes trefniadau ar waith ar gyfer adolygu'r prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau?

# Rhestrau gwirio adroddiadau WelTAG safonol Camau 1-3

## Rhestr wirio Cam 1 achos amlinellol strategol

### Y rhestr hir o opsiynau

- ☐ A ellir cyfiawnhau ymyrryd?
- ☐ A yw'n glir pam mae'r opsiynau "gwneud dim" neu "gwneud cyn lleied â phosibl" wedi'u diystyru?
- ☐ A yw wedi defnyddio'r rhestr o opsiynau gwahanol?
- ☐ A yw wedi defnyddio'r Hierarchiaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy i gynnwys opsiynau sy'n gwneud y defnydd gorau o seilwaith presennol cyn ystyried seilwaith newydd?
- ☐ A yw wedi meddwl yn greadigol am yr opsiynau hyn?
- ☐ A ydynt yn cynnwys opsiynau nad ydynt yn ymwneud â thrafnidiaeth megis mesurau newid ymddygiad neu ddatblygiadau digidol arloesol?

### Y rhestr fer o opsiynau

- ☐ A yw wedi dewis rhestr fer o opsiynau?
- ☐ Ai opsiynau trafnidiaeth ydynt? Neu a oes ffyrdd gwell o gyflawni ei amcanion?
- ☐ A ydynt wedi'u dewis gan ystyried y pum maen prawf gwerth am arian, yn enwedig cydweddiad strategol a llesiant?
- ☐ Sut y bydd yr opsiynau yn cyflawni ei amcanion?
- ☐ A ydynt yn cyd-fynd â blaenoriaethau cynllunio a thrafnidiaeth lleol, rhanbarthol neu genedlaethol?
- ☐ A yw wedi asesu effaith yr opsiynau hynny ar lesiant gan ddefnyddio'r pedwar uchelgais llesiant yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r fframwaith arfarniadau llesiant integredig?
- ☐ A fydd yr opsiynau hynny yn datrys y broblem nawr ac yn y dyfodol?
- ☐ A ellir eu cyflawni?

### Ymgysylltu

- ☐ A yw wedi siarad â rhanddeiliaid allweddol am opsiynau gwahanol?
- ☐ A yw wedi cael cytundeb cyffredinol y rhai y mae'n bosibl yr effeithir arnynt, fod angen gweithredu?

### Y camau nesaf

- ☐ A yw'n gwybod sut y bydd yn mynd ymlaen i ddewis yr opsiwn a ffefrir ganddo?
- ☐ A yw'n gwybod pa dystiolaeth y mae'n rhaid iddo ei hystyried a sut y gellir ei chasglu?
- ☐ Beth yw'r effeithiau a'r materion allweddol y bydd yn eu defnyddio i ddewis yr opsiwn a ffefrir ganddo?
- ☐ A oes unrhyw ofynion deddfwriaethol penodol y mae angen iddo eu hystyried?
- ☐ A yw wedi dogfennu ei benderfyniadau?

## Rhestr wirio Cam 2 Achos Busnes Amlinellol

### Dewis yr opsiwn a ffefrir neu'r pecyn o waith

- ☐ A yw wedi lleihau ei restr wirio o syniadau neu opsiynau er mwyn llunio rhestr fer?
- ☐ A yw pob un o'r opsiynau ar y rhestr fer yn cydweddu'n strategol â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac unrhyw flaenoriaethau cynllunio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol?
- ☐ A ydynt yn gwneud hynny gan ddefnyddio'r pum maen prawf – cydweddiad strategol, llesiant, fforddiadwyedd, cyflawnadwyedd a rheoli?
- ☐ A yw'n cyflawni ei amcanion gwreiddiol?
- ☐ A yw wedi sicrhau manteision a dileu niwed drwy waith dylunio?
- ☐ A all ddangos sut mae'r pum ffordd o weithio wedi'u defnyddio yn y broses?
- ☐ A oes digon o dystiolaeth ansoddol a meintiol i ategu ei ddewisiadau?
- ☐ A yw wedi meddwl yn greadigol – a yw wedi llwyddo i gyfuno opsiynau?
- ☐ A yw wedi ystyried yr angen am fesurau newid ymddygiad yn ogystal â gwasanaethau neu seilwaith newydd?

### Cynllun ymgysylltu

- ☐ A wnaeth gynnwys rhanddeiliaid allweddol yn y broses o ddewis ei opsiwn/pecyn o waith terfynol?
- ☐ A yw wedi cael cytundeb cyffredinol y rhai y mae'n bosibl yr effeithir arnynt ynghylch y cynigion?

### Y camau nesaf

- ☐ Pa wybodaeth y bydd ei hangen arno er mwyn troi'r opsiwn a ffefrir ganddo yn becyn o waith llawn? A oes angen gwaith dylunio? Manylebau gwasanaethau? Asesiadau effaith statudol? Arolygon? A oes angen casglu rhagor o ddata?
- ☐ Pa wybodaeth arall y bydd ei hangen arno cyn iddo allu ysgrifennu ei achos busnes? Er enghraifft, strategaeth gaffael? Dogfennaeth dendro?
- ☐ Pa wybodaeth arall y bydd ei hangen arno er mwyn cwblhau ei arfarniadau llesiant integredig? A yw'n rhagweld effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd neu ddiwylliannol penodol y bydd angen iddo ddysgu mwy amdanynt?
- ☐ A fydd angen caniatâd cynllunio a/neu Orchmynion Statudol ar gyfer ei brosiect ac, os felly, a oes angen iddo fynd ati i'w cael?

## Rhestr wirio Cam 3 Achos busnes llawn

### Y disgrifiad o'r cynllun neu ddyluniad y prosiect

- ☐ A oes disgrifiad cyffredinol o'r prosiect (neu'r rhaglen neu'r polisi) sy'n disgrifio'r pecynnau gwaith a'r hyn y byddant yn ei gyflawni?
- ☐ Ar gyfer gwasanaethau newydd, a yw wedi pennu safonau, amserlenni a manylebau?
- ☐ Ar gyfer gwaith cyfalaf, a oes ganddo ddyluniadau? A yw wedi cynnal asesiadau effaith statudol?
- ☐ Ar gyfer ymyriadau digidol, a yw wedi pennu safonau a gofynion gwasanaeth?
- ☐ Ar gyfer mesurau newid ymddygiad, a yw wedi nodi ei gynulleidfaoedd, dulliau gweithredu a chanlyniadau?

### Achos busnes llawn

- ☐ A all weld sut y bydd y pecynnau gwaith yn cyflawni ei amcanion?
- ☐ A oes achos clir dros weithredu?
- ☐ A yw'r prosiect yn cydweddu'n strategol â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac unrhyw gynlluniau trafnidiaeth lleol neu ranbarthol?
- ☐ A oes crynodeb lefel uchel o'r ffordd y bydd y rhaglen neu'r prosiect yn cyfrannu at lesiant yng Nghymru, yn seiliedig ar arfarniadau llesiant integredig (gweler isod)?
- ☐ A yw'r pecyn o waith yn fforddiadwy ac a yw'n glir ynglŷn â ffynonellau cyllido tebygol?
- ☐ A yw'n hyderus y gellir cyflawni pob un o elfennau'r pecyn o waith?
- ☐ A oes rhyngddibyniaethau rhwng pecynnau gwaith ac a ydynt wedi'u gwahanu?
- ☐ A oes trefniadau priodol ar waith ar gyfer goruchwylio a monitro'r gwaith o gyflawni'r pecyn o waith?

### Yr arfarniad llesiant integredig

- ☐ A oes arfarniad llesiant integredig yn ategu'r achos busnes?
- ☐ A yw'n ymdrin ag effeithiau cymdeithasol, economaidd, seiliedig ar leoedd a diwylliannol gan ddefnyddio'r fframwaith arfarniadau llesiant integredig?
- ☐ A yw'r rhaglen neu'r prosiect wedi defnyddio'r wybodaeth honno i sicrhau manteision a dileu unrhyw niwed posibl drwy waith dylunio?
- ☐ A yw'n cael ei ategu gan yr asesiadau effaith statudol neu reoleiddiol perthnasol?
- ☐ A yw canfyddiadau'r asesiadau effaith hynny wedi'u hystyried wrth ddylunio'r prosiect, y rhaglen neu'r polisi terfynol?
- ☐ A yw'r manteision yn drech na'r anfanteision?

### Gwaith modelu ac arfarniad technegol

- ☐ A yw'r gwaith modelu wedi ymdrin ag uchelgeisiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar gyfer y dyfodol, gan leihau'r angen i deithio, cynyddu defnydd o ddarpariaeth teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a chludo nwyddau mewn ffordd fwy cynaliadwy?
- ☐ A yw'r gwaith modelu wedi ymdrin â galw a ysgogir a'r ffordd y gallai unrhyw gynnydd yng nghapasiti ffyrdd, er enghraifft, arwain at draffig ychwanegol?
- ☐ Os yw'r prosiect wedi llunio cymarebau cost a budd yn unol â TAG, a yw wedi llunio ail set sy'n hepgor manteision posibl amseroedd teithio byrrach?
- ☐ Pa gyfraniad y bydd y rhaglen neu'r prosiect yn ei wneud at gyflawni'r targedau ar gyfer newid dulliau teithio yn Strategaeth Drafnidiaeth Newydd?
- ☐ Ar gyfer rhaglenni a phrosiectau sy'n cynnwys cynyddu capasiti ffyrdd, sut mae'r gwaith modelu wedi ymdrin â'r dybiaeth yn Cymru Sero Net y caiff nifer y milltiroedd car a deithir y pen yn lleihau 10% erbyn 2030?
- ☐ Sut mae unrhyw waith modelu ac arfarniad technegol wedi ymdrin ag effeithiau a manteision nas mesurir gan gynnwys effeithiau amgylcheddol a diwylliannol ac effeithiau seiliedig ar leoedd?

### Ymgysylltu

- ☐ A fu digon o ymgysylltu, cyfranogi ac ymgynghori yn ystod y rhaglen neu'r prosiect, gan gynnwys yn ystod proses yr arfarniad llesiant integredig?
- ☐ A oes grwpiau allweddol y mae'n bosibl nad ydynt wedi'u cynnwys ond y gallai'r gwaith gael effaith sylweddol arnynt? Os felly, sut y byddwch yn ymgysylltu â nhw?
- ☐ A yw wedi cael cytundeb cyffredinol y rhai y mae'n bosibl yr effeithir arnynt?

### Cynllun gwerthuso

- ☐ A oes cynllun gwerthuso?
- ☐ A yw'n esbonio sut y caiff y rhaglen neu'r prosiect ei monitro/fonitro yn ystod y cam cyflawni, gan gynnwys llywodraethu, pwyntiau adolygu ac ati?
- ☐ A yw'n esbonio sut y caiff y rhaglen neu'r prosiect ei gwerthuso/werthuso pan fydd wedi'i chwblhau/gwblhau? Gan bwy, pryd a sut?
- ☐ A yw wedi ystyried y mesurau ansoddol a meintiol yn y fframwaith arfarniadau llesiant integredig?

### Y camau nesaf

- ☐ A oes angen caniatâd cynllunio a/neu Orchmynion Statudol ar gyfer elfennau o'r prosiect ac, os felly, sut y byddwch yn eu cael?
- ☐ A oes angen cynnal ymgynghoriad ychwanegol neu ffurfiol? Os felly, sut y caiff ei reoli a gan bwy?
- ☐ Sut y sicrheir cyllid a beth yw'r camau?
- ☐ Sut y caiff unrhyw faterion a fydd yn codi drwy unrhyw un o'r prosesau hyn eu hystyried wrth gynllunio'r prosiect?

## Rhestr wirio Cam 4 Cyflawni a goruchwylio'r rhaglen neu'r prosiect

Nid yw'r rhan fwyaf o brosiectau WelTAG yn cynnwys adroddiad Cam 4 ffurfiol. Fodd bynnag, bydd y rhestr wirio ganlynol yn ddefnyddiol i reolwr neu dîm y prosiect, y rhaglen neu'r polisi yn ystod y cam cyflawni.

### Cyflawni

- ☐ A yw wedi cael pob un o'r caniatadau statudol angenrheidiol?
- ☐ A oes unrhyw amodau neu gyfyngiadau a allai effeithio ar y rhaglen neu'r prosiect?
- ☐ A yw'r prosiect wedi'i gaffael yn llwyddiannus?
- ☐ A oes gan y partneriaid cyflawni y sgiliau a'r galluoedd cywir?
- ☐ A yw wedi sicrhau manteision ehangach e.e. budd cymunedol, sgiliau neu gydymffurfiaeth â rheolaethau amgylcheddol neu reolaethau treftadaeth?
- ☐ A yw ei bartner cyflawni yn ymgysylltu â grwpiau allweddol?

### Rheoli'r rhaglen neu'r prosiect

- ☐ A oes cyfarfodydd rheolaidd â phartneriaid cyflawni'r prosiect, y rhaglen neu'r polisi?
- ☐ A yw'n cyflawni yn unol ag amserlenni ac yn cyrraedd safonau?
- ☐ A yw'n rheoli unrhyw newidiadau yn effeithiol?
- ☐ A yw'n adrodd yn ôl i ni neu gyllidwyr eraill am unrhyw newidiadau?

### Y camau nesaf

- ☐ A yw ei bartner cyflawni yn casglu data a gwybodaeth am effeithiau?
- ☐ A yw'n cael adroddiadau rheolaidd ar effeithiau a chynnydd o ran cyflawni'r prosiect?
- ☐ A yw wedi cytuno pwy fydd yn paratoi ac yn cyflwyno adroddiadau blynyddol cynllun gwerthuso'r prosiect?

## Rhestr wirio Cam 5 Monitro a gwerthuso

Yn achos y rhan fwyaf o brosiectau, y cyfan y bydd angen ei wneud yw cyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol i Lywodraeth Cymru. Bydd angen cyflwyno adroddiad gwerthuso ar gyfer rhaglenni a phrosiectau sy'n defnyddio WelTAG manwl.

### Adroddiad cynnydd blynyddol

- ☐ Beth mae ei brosiect wedi'i gyflawni?
- ☐ Pa wahaniaeth y mae ei brosiect wedi'i wneud?
- ☐ A gyflawnodd ei amcanion gwreiddiol ac, os felly, pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud?
- ☐ Pa rwystrau a wynebwyd a sut y cawsant eu goresgyn?
- ☐ Pa rai o'r gweithgareddau a fu'n arbennig o lwyddiannus?
- ☐ Â phwy yr ymgysylltodd yn ystod y prosiect, a pha wahaniaeth a wnaeth?
- ☐ Â phwy y cydweithiodd yn ystod y prosiect?
- ☐ A newidiodd y prosiect wrth iddo fynd yn ei flaen ac, os felly, pam? Pa wahaniaeth a wnaeth hynny?
- ☐ Pa wersi y mae wedi'u dysgu ar gyfer y dyfodol?

### Adroddiad gwerthuso

- ☐ Pa gyfraniad y mae ei brosiect, ei bolisi neu ei raglen wedi'i wneud at ein huchelgeisiau a'n blaenoriaethau ehangach ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru? Pa dystiolaeth ansoddol neu feintiol y gall ei ddarparu er mwyn ategu hynny?
- ☐ Ym mha ffordd y mae ei brosiect wedi cyfrannu at flaenoriaethau a chamau gweithredu cynlluniau bach Strategaeth Drafnidiaeth Newydd?
- ☐ Ym mha ffordd y mae ei brosiect wedi cyfrannu at y targedau meintiol yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Cymru Sero Net.
- ☐ A gyrhaeddodd y grwpiau a dargedwyd ganddo a digon o unigolion yn y grwpiau hynny?
- ☐ A oedd yr ymyriad hwn yn ffordd ddefnyddiol o newid ymddygiad teithio?
- ☐ A yw'r rhaglen hon yn rhywbeth y dylid ei roi ar waith yn ehangach?
- ☐ A yw'r ymyriad hwn wedi cynnig gwerth am arian?

# Deddfwriaeth a pholisïau perthnasol yng Nghymru

**Mae'r dogfennau canlynol yn arbennig o berthnasol i weithgarwch cynllunio trafnidiaeth a pholisi trafnidiaeth yng Nghymru.**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** Mae WelTAG yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried y nodau a'r ffyrdd o weithio. Mae canllawiau WelTAG yn dangos ichi sut i wneud hyn ar gyfer trafnidiaeth. Mae angen ystyried y pum ffordd o weithio ar bob cam o'r broses. Rhaid i elfen 'llesiant' yr achos busnes llawn ddeall effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol posibl cynllun a dangos sut yr ymdriniwyd â'r materion hynny yn nyluniad y cynllun.

**Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021** – mae'n nodi'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru. Fe'i hategir gan naw cynllun bach ar gyfer pob dull teithio neu sector. Mae Llwybr Newydd yn cyd-fynd yn agos â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae angen i ymyriadau trafnidiaeth unigol gyd-fynd â'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau cenedlaethol ac mae canllawiau WelTAG yn eich helpu i wneud hyn.

**Cymru Sero Net** – mae Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau carbon sero erbyn 2050. Mae trafnidiaeth yn allyrru llawer o nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. Cymru Sero Net yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni hyn. Mae'r bennod ar drafnidiaeth yn nodi targed i leihau nifer y milltiroedd car a deithir y pen 10% erbyn 2030. Mae'n adlewyrchu ymrwymiadau eraill yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 gan gynnwys lleihad sylweddol mewn allyriadau nwyon ty gwydr o drafnidiaeth a tharged mwy penodol ar gyfer newid dulliau teithio er mwyn helpu i gyflawni hynny. Mae'n nodi'r hierarchaeth drafnidiaeth sy'n blaenoriaethu buddsoddi mewn teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau sero dros geir preifat.

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** – mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer teithio llesol yn eu hardaloedd. Mae hefyd yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau priffyrdd "wrth iddynt arfer eu swyddogaethau... gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cerddwyr a beicwyr: (…) creu, cynnal a chadw a gwella priffyrdd, ymyrryd â phriffyrdd a chaffael etc. tir (adran 9 (1))." Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y dylid ystyried teithio llesol yng nghyd-destun pob ymyriad trafnidiaeth, nid dim ond wrth gynllunio cynlluniau teithio llesol penodedig.

**Canllawiau Teithio Llesol** – canllawiau Llywodraeth Cymru ar deithio llesol sy'n nodi'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol a Gweinidogion, y gofynion polisi a deddfwriaethol ac egwyddorion y rhwydwaith. Mae'n cynnwys canllawiau manwl ar ddatblygu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ac ar anghenion defnyddwyr, yn ogystal ag ar lwybrau a chysylltiadau

**Polisi Cynllunio Cymru (PCC)** – mae PCC yn nodi polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru. Mae'n sail i benderfyniadau cynllunio a phrosesau gwneud cynlluniau ar bob lefel. Mae'n nodi'r polisi cenedlaethol ar gyfer creu lleoedd bywiog a chymdeithasol, gan fabwysiadu dull datblygu sy'n seiliedig ar greu lleoedd, gan gynnwys darparu seilwaith, ac yn nodi'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy (a adlewyrchir hefyd yn Llwybr Newydd). Mae hyn yn llywio Cynlluniau Datblygu strategol a lleol. PCC11 yw'r fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru ac fe'i hategir gan Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18 – Trafnidiaeth, sy'n cynnwys canllawiau cynllunio manwl.

**Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040** – mae'r cynllun datblygu cenedlaethol hwn, a gyhoeddwyd yn 2020, yn nodi blaenoriaethau ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Nghymru – mewn geiriau eraill lle y dylid lleoli datblygiadau. Mae cysylltiad agos rhwng cynllunio trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir. Mae Llwybr Newydd eisoes yn cyd-fynd â Cymru'r Dyfodol yn genedlaethol. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn nodi y dylid lleoli datblygiadau sylweddol newydd yng nghanol trefi a dinasoedd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da, a hynny i'r dref neu'r ddinas gyfan ac allan ohoni (tudalen 71) ac y dylid adeiladu datblygiadau newydd mewn lleoliadau cynaliadwy a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi gan seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. (tudalen 80).

**Cynlluniau datblygu strategol a lleol** – sef cynlluniau datblygu rhanbarthol a lleol. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn nodi cynigion a pholisïau'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ei ardal yn y dyfodol. Mae cynlluniau datblygu strategol yn gynlluniau datblygu rhanbarthol a gyflwynwyd i ymdrin â materion trawsffiniol yn fwy effeithiol a chyflawni canlyniadau cynllunio gwell.

**Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol** – bydd y rhain yn cysylltu blaenoriaethau datblygu rhanbarthol â blaenoriaethau cynllunio rhanbarthol ac yn pennu'r fframwaith ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth unigol, gan ystyried Llwybr Newydd a Cymru'r Dyfodol 2040.

**Y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth** – mae'n nodi cynlluniau penodol ar gyfer y ffordd y bydd gwariant Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau yn Llwybr Newydd.

**Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru** – mae'n nodi buddsoddiadau arfaethedig ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat gan gynnwys prosiectau lle mae cyfanswm gwerth y cynllun yn fwy na £15m. Ar gyfer trafnidiaeth, mae'n rhoi manylion prosiectau arfaethedig a phresennol, yn ogystal â'r cynlluniau grant trafnidiaeth unigol yng Nghymru.

**Rhaglen Lywodraethu** – mae pob llywodraeth newydd yng Nghymru yn llunio rhaglen lywodraethu newydd. Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 yn pennu blaenoriaethau'r llywodraeth gyfan.

**Polisïau trafnidiaeth mwy diweddar**
O bryd i'w gilydd, byddwn hefyd yn cyflwyno cynlluniau mwy penodol ar gyfer dulliau teithio unigol neu bynciau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yng Nghymru megis ein Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan a'n gwaith ar ddiwygio gwasanaethau bysiau.

## Deunydd darllen pellach


Swyddfa'r Cabinet, 2020. *The Construction Playbook.*

Daly,A. Tsang, F., a Rohr,C. (2014). The value of small time savings for non-business travel. *Journal of Transport Economics and Policy,* 48 (2):205-218.

Yr Adran Drafnidiaeth, 2021. *Transport Business case Guidance.*

Yr Adran Drafnidiaeth, 2021. *Transport Analysis Guidance.*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru, (dim dyddiad). *Arweinyddiaeth a gweithrediad y ddeddf – newid ein diwylliant sector cyhoeddus.*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru, (dim dyddiad). *Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Prosiectau.*

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru, (dim dyddiad). *Tri Gorwel: pecyn cymorth i'ch helpu i feddwl a chynllunio ar gyfer yr hirdymor.*

Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth, 2019. *Future of Mobility - foresight report looking at the important future trends, challenges and opportunities for the UK transport system.*

Hills, D. a Junge, K., 2010. *Guidance for Transport Impact Evaluations – choosing an evaluation approach to achieve better attribution.* Sefydliad Tavistock mewn ymgynghoriad ag AECOM ar ran yr Adran Drafnidiaeth.

Hills, D. *Logic mapping: Hints and tips for better transport evaluations.* Datblygwyd gan Sefydliad

Tavistock. Llundain: Yr Adran Drafnidiaeth.

Trysorlys EM, 2020. *The Magenta Book. HM guidance on what to consider when designing an evaluation.*

Trysorlys EM, 2020. *The Green Book 2022.*

Trysorlys EM, 2020. *Green book supplementary guidance: climate change and environmental valuation.*

Trysorlys EM, 2022. *Managing Public Money*

Ystadegau Cymru, (dim dyddiad). *Data Trafnidiaeth*

Trafnidiaeth Cymru (dim dyddiad), *Modelau Trafnidiaeth Rhanbarthol Cymru.*

Transport for Scotland, (dim dyddiad). *Scottish Transport Analysis Guide (Scot-TAG).*

Llywodraeth Cymru, 2008. *Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru.*

Llywodraeth Cymru, 2017. *Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru.*

Llywodraeth Cymru, 2020. *Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru*

Llywodraeth Cymru, 2021. *Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol.*

Llywodraeth Cymru, 2021. *Cymru Sero Net – ein hail gynllun lleihau allyriadau ar gyfer cyllideb garbon 2 (2021-2025).*

Llywodraeth Cymru, 2021. *Polisi Cynllunio Cymru – ein polisi cenedlaethol sy'n amlinellu'r canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio*

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*